Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cymry Ifanc
Young Wales

# Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru

www.cymru.gov.uk



## Ymchwil

Dogfen ymchwil Rhif: 051/2010
Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2010

# Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Ysgolion, awdurdodau lleol, sefydliadau cenedlaethol, lleol a gwirfoddol sy'n ymwneud â pholisïau a darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc, â theuluoedd ac â'r gymuned. |
| **Trosolwg** | Nod yr astudiaeth hon oedd rhoi trosolwg o'r dystiolaeth (yn y DU ac yn rhyngwladol) o'r manteision sy'n deillio o gynnwys plant a phobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau mewn ysgolion, awdurdodau lleol a sefydliadau. |
| **Camau i'w cymryd** | Dim – er gwybodaeth. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid anfon unrhyw gwestiynau am y gwerthusiad at:<br>Alison Rees<br>Uwch Swyddog Ymchwil<br>Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol<br>Adran y Prif Weinidog a'r Cabinet<br>Llywodraeth Cynulliad Cymru<br>Ffynnon Las<br>Y Berllan<br>Rhodfa Tŷ Glas<br>Caerdydd<br>CF14 5EZ<br>Ffôn: 029 2092 6045<br>e-bost: Research2@cymru.gsi.gov.uk |
| **Copïau ychwanegol** | Gallwch hefyd weld y ddogfen ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru, ewch i: www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau |
| **Dogfennau cysylltiedig** | Dim |

© Hawlfraint y Goron Ionawr 2010
E6020910

# Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| **Crynodeb Gweithredol** | | **1** |
| **1.** | **Cyflwyniad** | **5** |
| **2.** | **Trosolwg o Weithgareddau Cyfranogi** | **10** |
| **3.** | **Manteision Cyfranogi** | **29** |
| **4.** | **Heriau/Rhwystrau i Gyfranogi** | **53** |
| **5.** | **Arferion da, Gwersi a Ddysgwyd a Meysydd i'w Datblygu** | **62** |
| **6.** | **Casgliadau** | **75** |

**Atodiadau**

| | |
|---|---|
| **Atodiad A: Ffurflen Gais ar gyfer y Fforwm Ieuenctid** | **78** |
| **Atodiad B: Cyfeiriadau** | **81** |

# CYFRANOGIAD PLANT A PHOBL IFANC YNG NGHYMRU

# CRYNODEB GWEITHREDOL

## Cyflwyniad

Dyma grynodeb o adroddiad York Consulting i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar fanteision cynnwys plant a phobl ifanc mewn prosesau gwneud penderfyniadau a chyfranogi. Mae cyfranogi yn gallu golygu pethau gwahanol i bobl wahanol, ond dyma'r diffiniad a ddefnyddiwyd gennym ni ac a ddatblygwyd gyda chymorth pobl ifanc:

> "Mae cyfranogiad yn golygu bod gen i'r hawl i gael y cyfle i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau, cynllunio ac adolygu unrhyw weithred a all effeithio arna i. Cael llais, cael dewis".

Aethom ati yn gyntaf i ystyried yr hyn sydd eisoes wedi'i ysgrifennu am fanteision cynnwys plant a phobl ifanc mewn prosesau cyfranogi a gwneud penderfyniadau. Adolygwyd 30 darn o lenyddiaeth gennym, o'r DU yn bennaf. Aethom ati hefyd i ymweld ag ysgolion a fforymau ieuenctid mewn wyth awdurdod lleol ledled Cymru, gan siarad â'r canlynol:-

- plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau, yn ogystal â'r rhai nad ydynt yn cyfrannu at y broses;
- penaethiaid a chydgysylltwyr fforymau ieuenctid; a
- staff mewn ysgolion a staff fforymau ieuenctid.

**Pa weithgareddau oedd plant a phobl ifanc yn cymryd rhan ynddynt?**

Roedd y plant a'r bobl ifanc y buom yn siarad â nhw yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau cyfranogi a gwneud penderfyniadau, gan gynnwys: penderfyniadau strategol; recriwtio a hyfforddi staff; penderfyniadau ynglŷn â beth mae disgyblion yn ei ddysgu a sut mae gwersi'n cael eu haddysgu yn yr ysgol.

Mae'r adroddiad yn dangos y dulliau a ddefnyddiwyd i sicrhau bod pobl ifanc o amrywiaeth eang o gefndiroedd yn cael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau. Yn yr enghreifftiau y buom ni'n eu hastudio, roedd yn ymddangos nad oedd rhai grwpiau, fel Sipsiwn-Teithwyr, plant a phobl ifanc o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, ceiswyr lloches a ffoaduriaid, mamau ifanc a gofalwyr ifanc yn cael eu cynnwys cymaint ag y gallent.

Nid oedd pob gweithgaredd mor gynhwysol ag y gallai fod. Nid oedd pobl ifanc hŷn (dros 18 oed) yn cymryd rhan mewn rhai fforymau ieuenctid ac nid oedd plant iau (7 oed ac iau) mewn rhai ysgolion cynradd yn cymryd rhan cymaint ag y gallent. Weithiau, roedd cyfleoedd i gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau yn cael eu colli pan roedd disgyblion yn trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

**Manteision cyfranogi**

Roedd y llenyddiaeth a adolygwyd gennym a'n hymweliadau yn dangos bod plant a phobl ifanc yn cael budd mawr o gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau, felly hefyd y sefydliadau a'r staff a gymerodd ran. Roedd llai o fanteision amlwg ar gyfer rhieni a chymunedau.

Sut wnaeth plant a phobl ifanc elwa ar gymryd rhan mewn prosesau cyfranogi a gwneud penderfyniadau? Dangosodd ein trafodaethau a'r llenyddiaeth a adolygwyd gennym fod y plant a'r bobl ifanc wedi dysgu sgiliau newydd, fel sgiliau cyflwyno a sgiliau gwaith, a dysgu sut i siarad ar ran pobl eraill. Roeddent hefyd yn dysgu sut i ddod ymlaen yn well gydag oedolion a phlant a phobl ifanc eraill ac fe wnaethant ffrindiau newydd. Roedd ymddygiad a chynnydd rhai plant a phobl ifanc yn yr ysgol wedi gwella hefyd, ond nododd yr athrawon ei bod hi'n anodd gwneud cysylltiad uniongyrchol rhwng y gwelliannau hyn â'r ffaith fod pobl ifanc wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau gwneud penderfyniadau a chyfranogi. Roedd y llenyddiaeth a ddarllenwyd gennym yn cefnogi'r safbwyntiau hyn.

Beth oedd y manteision i sefydliadau ac aelodau staff yn sgil y ffaith fod plant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau? Roedd y llenyddiaeth a'n trafodaethau'n dangos bod sefydliadau'n newid eu ffordd o weithio gyda phlant a phobl ifanc ac yn darparu gwasanaethau a chyfleusterau ar eu cyfer. Roedd staff hefyd yn teimlo eu bod yn dod ymlaen yn well gyda phlant a phobl ifanc ac yn deall eu hanghenion yn well.

**Pa wahaniaeth y mae'n ei wneud?**

Ychydig iawn o leoliadau a ystyriodd y gwahaniaeth (effaith) y mae cynnwys plant a phobl ifanc yn ei wneud i weithgareddau gwneud penderfyniadau a chyfranogi. Ychydig iawn o gyfeiriad at hyn a welwyd yn y llenyddiaeth hefyd. Roedd gwahaniaeth barn ymysg staff mewn ysgolion ynglŷn ag a ddylent fesur yr effaith ai peidio.

Roedd rhai o'r bobl ifanc a'r staff yr oeddem yn siarad â nhw o'r farn nad oeddent yn derbyn digon o wybodaeth (adborth) am yr hyn a oedd wedi newid o ganlyniad i'w cyfraniad at y broses o wneud penderfyniadau. Weithiau roedd y wybodaeth a gawsant o ansawdd gwael.

**Heriau a rhwystrau i gyfranogi**

Y prif bethau a rwystrodd plant a phobl ifanc rhag cyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau oedd:-

- bod â digon o amser ac arian i dalu am bethau, fel trafnidiaeth, fel eu bod yn gallu cyfrannu;
- aelodau o staff a oedd yn credu na ddylai plant a phobl ifanc gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau neu na ddylent gyfrannu at wneud penderfyniadau pwysig;

- weithiau roedd hi'n anodd i staff sicrhau bod cymaint o grwpiau gwahanol o blant a phobl ifanc â phosibl yn cymryd rhan;
- roedd rhai pobl ifanc wedi cael profiadau gwael wrth gyfranogi yn y gorffennol, ac roedd hyn yn eu rhwystro rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau eraill yn ymwneud â gwneud penderfyniadau.

**Nodi arferion da**

Roedd yna enghreifftiau o ddulliau gweithredu da yn y lleoliadau yr ymwelwyd â nhw, gan gynnwys: bod â nodau ac amcanion clir fel bod pawb yn deall beth yw cyfranogi yn y broses o wneud penderfyniadau; pam ei fod yn syniad da; sut i wneud hynny; a'r canlyniadau a'r manteision sy'n dilyn. Mae hyn yn annog pobl i werthfawrogi gweithgareddau cyfranogi ac i gymryd cyfrifoldeb amdanynt. Mae'r dull gweithredu hwn hefyd yn helpu ysgolion a sefydliadau i nodi'r gwahaniaeth y gall cyfranogi ei wneud. Dull effeithiol arall a ddefnyddiwyd oedd cynnwys plant a phobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel ar faterion go iawn, fel yr hyn sy'n cael ei addysgu yn yr ysgol.

Mae sawl peth arall yn bwysig o safbwynt dull gweithredu da, gan gynnwys sicrhau bod plant a phobl ifanc yn derbyn adborth da e.e. beth sydd wedi newid o ganlyniad i'w cyfranogiad; bod ysgolion a sefydliadau'n ystyried y gwahaniaeth y mae cyfranogi yn ei wneud i'r rhai sy'n cymryd rhan; a darparu digon o amser ac arian i sicrhau llwyddiant. Mae hyfforddiant yn bwysig hefyd, fel bod gan bobl y sgiliau cywir i allu cyfranogi.

**Casgliadau**

Roedd y plant a'r bobl ifanc yr oeddem yn siarad â nhw yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau gwneud penderfyniadau a chyfranogi mewn ysgolion ac awdurdodau lleol. Roedd plant a phobl ifanc hefyd o'r farn fod cymryd rhan mewn un peth, fel cyngor yr ysgol, yn eu helpu i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogi eraill, fel y fforwm ieuenctid. Roedd hefyd yn eu helpu i ddatblygu amrywiaeth eang o sgiliau.

Roedd gweithgareddau cyfranogol yn gyfle i blant, pobl ifanc ac aelodau o staff ddysgu mwy am ei gilydd mewn lleoliadau gwahanol. Roedd hyn yn helpu i newid 'cydbwysedd grym' y berthynas rhwng pobl ifanc ac oedolion, boed hynny rhwng staff ysgolion a disgyblion; cynghorwyr ac aelodau fforymau ieuenctid; neu staff cymorth a phobl ifanc anabl. Roedd cyfranogi yn gyfle i newid agweddau, datblygu sgiliau newydd a meithrin perthynas newydd, fwy cyfartal ag eraill.

**Argymhellion**

Mae'r argymhellion canlynol ar gyfer staff mewn ysgolion, sefydliadau ac awdurdodau lleol, yn ogystal â'r rhai sy'n llunio polisïau cenedlaethol:-

1. Mae angen rhannu'r arferion da a nodir yn y gwaith ymchwil hwn â chymaint o bobl â phosibl.

2. Canfyddodd y gwaith ymchwil hwn rai enghreifftiau o brosesau cyfranogi yn llwyddo i wneud gwahaniaeth, ond mae angen rhagor o dystiolaeth gadarn o ganlyniadau cadarnhaol. Wrth sôn am dystiolaeth gadarn rydym yn cyfeirio at faterion fel gwelliant o safbwynt ymddygiad a chynnydd yn yr ysgol. Yn y lleoliadau yr ymwelwyd â nhw, roedd plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn prosesau cyfranogi, ond ychydig iawn o waith cofnodi neu gysylltu'r gweithgareddau hyn â chanlyniadau cadarnhaol a welwyd. Er mwyn bod yn llwyddiannus, rhaid i fanteision cyfranogi fod yn gwbl glir a rhaid i ysgolion a sefydliadau eraill wybod pa gynnydd y maent wedi'i wneud, beth sy'n gweithio'n dda a pha bethau nad ydynt yn gweithio cystal.
3. Mae angen i ysgolion a sefydliadau ystyried a yw eu gweithgareddau cyfranogol yn cynnwys amrywiaeth mor eang â phosibl o blant a phobl ifanc a sicrhau eu bod yn llwyddo i gynnwys y rhai hynny nad ydynt yn cael eu cynrychioli ar hyn o bryd.
4. Dangosodd y gwaith ymchwil pa mor bwysig yw hi i aelodau staff allu gweld manteision cyfranogi. Roedd hefyd yn dangos pwysigrwydd hyfforddi staff fel bod ganddynt y sgiliau cywir i gynnwys plant a phobl ifanc mewn prosesau cyfranogi. Dylai hysbysu staff o fanteision cyfranogi a'r canlyniadau cadarnhaol eu helpu i fod yn fwy cefnogol.
5. Mae angen gwella rhai cysylltiadau. Byddai cryfhau'r cysylltiad rhwng ysgolion a fforymau ieuenctid yn golygu y gellid defnyddio'r hyn a ddysgir gan y ddau i ddatblygu dulliau gweithredu cyfranogol cryfach ledled awdurdodau lleol. Bydd cryfhau'r cysylltiadau rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd yn sicrhau bod y manteision yn parhau ac nad yw sgiliau'n cael eu colli.

# 1. CYFLWYNIAD

1.1 Dyma ail adroddiad astudiaeth York Consulting LLP (YCL) ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef ‘Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru’. Cynhaliwyd y gwaith ymchwil rhwng Ionawr a Mehefin 2008.

1.2 Defnyddiodd yr adroddiad cyntaf Asesiad Tystiolaeth Buan i roi trosolwg o’r llenyddiaeth, gan ganolbwyntio ar y manteision sy’n gysylltiedig â chyfranogiad plant a phobl ifanc.

1.3 Mae’r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau ail gam yr astudiaeth ac yn canolbwyntio ar waith astudiaeth achos yn ymwneud ag arferion cyfranogi mewn awdurdodau lleol ledled Cymru. Mae hefyd yn cyflwyno canfyddiadau o’r Asesiad Tystiolaeth Buan lle bo hynny’n briodol.

### Cefndir i’r Astudiaeth

1.4 Cyflwynir gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc mewn tair dogfen allweddol:-

- **Plant a Phobl Ifanc: Fframwaith ar gyfer Partneriaeth**.
- **Ymestyn Hawliau: Cynorthwyo Pobl Ifanc yng Nghymru.**
- **Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu’r Hawliau.**

1.5 Mae cynllun strategol y Cynulliad, ‘Gwell Cymru’, wedi ymrwymo i drin plant a phobl ifanc fel *‘aelodau gwerthfawr o’r gymuned a’u lleisiau yn cael eu clywed a’u hanghenion yn cael eu hystyried ar hyd y broses o wneud penderfyniadau.’* Roedd y fframwaith yn cydnabod pwysigrwydd gwrando’n fwy gofalus ar safbwyntiau plant a phobl ifanc a sicrhau eu bod yn gallu cyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau a phennu pa wasanaethau maent yn eu derbyn.

1.6 Roedd y fframwaith yn amlinellu tair prif elfen ar gyfer cyfranogi llwyddiannus; **cyd-destun, strwythur a chymorth**, ac yn pwysleisio’r angen i sicrhau bod safbwyntiau plant a phobl ifanc yn cael eu hymgorffori mewn polisïau a chynlluniau darparwyr gwasanaethau, a bod unrhyw ymgynghori yn ystyrlon a rhyngweithiol er mwyn annog proses gynhwysol.

1.7 ‘Ymestyn Hawliau’, a lansiwyd yn 2000 yw Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer hybu cyfleoedd a dewisiadau i holl bobl ifanc Cymru rhwng 11 a 25 oed. Amcanion allweddol y strategaeth oedd cryfhau polisïau ac arferion drwy ganolbwyntio mwy ar gyflawniad; gallu pobl ifanc i weithredu’n annibynnol yn y broses ddemocrataidd; ansawdd gwasanaethau a’u gallu i ymateb; cyfranogiad pobl ifanc; a gwaith cydgysylltu a phartneriaeth lleol mwy effeithiol.

1.8 Nododd Ymestyn Hawliau fod gan bob person ifanc yng Nghymru'r hawl sylfaenol i gymryd rhan mewn prosesau ymgynghori a’r broses o wneud penderfyniadau.

1.9 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel sylfaen ar gyfer ei holl waith gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae 'Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau' yn pennu saith amcan craidd y Llywodraeth mewn perthynas â gwasanaethau i blant a phobl ifanc, ac maent yn seiliedig ar Hawliau'r Confensiwn.

1.10 Un o amcanion craidd Gweithredu'r Hawliau oedd sicrhau bod holl blant a phobl ifanc 'yn cael eu trin gyda pharch, yn cael pobl i wrando arnynt, gan gydnabod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol'.

1.11 Mae'r tair dogfen yn seiliedig ar nifer o themâu craidd:-

- un o egwyddorion sylfaenol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn; (Mae Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn nodi hawl pob plentyn a pherson ifanc i fynegi barn ac i'r farn honno gael ei hystyried mewn unrhyw fater neu weithdrefn sy'n effeithio arnynt);
- yr hawl i wasanaethau sy'n seiliedig ar anghenion y plentyn neu'r person ifanc;
- gwrando a gweithredu ar safbwyntiau plant, pobl ifanc a theuluoedd;
- rhoi'r flaenoriaeth uchaf i'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf; a
- ymrwymiad i waith partneriaeth rhwng sefydliadau lleol gwahanol fel y prif ddull o gyflawni'r dyheadau hyn.

1.12 Mae'r broses o wrando a gweithredu ar safbwyntiau pobl ifanc wedi'i rhoi ar waith drwy nifer o strwythurau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys: Y Ddraig Ffynci; y Consortiwm Cyfranogiad; yr Uned Gyfranogiad; y Prosiect Cyfranogiad; Cynghorau Ysgol; a Fforymau Ieuenctid.

1.13 Mae'r Uned Gyfranogiad a'r Consortiwm Cyfranogiad wedi datblygu set o Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol fel bod sefydliadau'n gallu mesur ac asesu eu harferion cyfranogol.

1.14 Mae'r rhain yn seiliedig ar saith safon graidd, sef:-

- gwybodaeth;
- eich dewis chi;
- dim gwahaniaethu;
- parch;
- byddwch chi ar eich ennill hefyd;
- adborth; a
- gwella ein ffordd o weithio.

**Diffinio Cyfranogiad**

1.15 Mae sawl ffordd o ddiffinio cyfranogiad ac mae'n gallu golygu pethau gwahanol i bobl wahanol. O ystyried ffocws yr adroddiad hwn, gall fod yn ddefnyddiol cynnwys diffiniad yma. Mae Consortiwm Plant a Phobl Ifanc Cymru1 wedi datblygu dealltwriaeth gyffredin o gyfranogiad plant a phobl ifanc a chytunwyd ar ddiffiniad cenedlaethol gyda chymorth pobl ifanc:

> *"Mae cyfranogiad yn golygu bod gen i'r hawl i gael y cyfle i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau, cynllunio ac adolygu unrhyw weithred a all effeithio arna i. Cael llais, cael dewis".*

**Nodau ac Amcanion**

1.16 Amcan cyffredinol yr astudiaeth hon oedd rhoi trosolwg o'r dystiolaeth (o'r DU ac yn rhyngwladol) o fanteision cynnwys plant a phobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau. Gallai'r manteision fod ar gyfer y plant a'r bobl ifanc eu hunain, ysgolion, teuluoedd, y gymuned, a sefydliadau ac asiantaethau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

1.17 Yn ogystal â'r amcan uchod, roedd gan yr astudiaeth yr amcanion ymchwil canlynol:-

- nodi natur cyfranogiad presennol plant a phobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr ysgol a'r gymuned;
- ystyried yr amrywiaeth o ganlyniadau cadarnhaol sy'n gallu deillio o gyfranogiad yn y broses o wneud penderfyniadau ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan, er enghraifft gwella hunan-barch, gwella ymddygiad;
- nodi canlyniadau ehangach, er enghraifft ar gyfer yr ysgolion perthnasol, mewn perthynas â gwella ymddygiad, amgylchedd yr ysgol a phresenoldeb;
- nodi arferion da o safbwynt dulliau cyfranogol ar gyfer y sefydliadau perthnasol;
- ystyried pa mor gynhwysol a chynrychioladol y mae dulliau a mecanweithiau cyfranogol, fel cynghorau ysgol a fforymau ieuenctid; a
- ystyried y prif rwystrau i gynyddu cyfranogiad mewn ysgolion ac yn y gymuned.

[1] Consortiwm Plant a Phobl Ifanc Cymru, Cyfranogiad: Papur Trafod 2004

**Dulliau**

1.18 Nodwyd 30 ffynhonnell o lenyddiaeth i'w cynnwys yn yr Asesiad Tystiolaeth Buan. Y meini prawf ar gyfer eu cynnwys oedd eu bod:-

- wedi'u cyhoeddi ers 2000;
- yn dod o'r DU (cafodd astudiaethau rhyngwladol eu cynnwys hefyd os oeddynt yn berthnasol);
- yn canolbwyntio ar gyfranogiad plant a phobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau;
- yn canolbwyntio ar arferion da; a
- yn darparu tystiolaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

1.19 Nodwyd astudiaethau achos drwy ymgynghori â rhanddeiliaid cenedlaethol yn ystod cyfnod cynnar y gwaith ymchwil a thrwy ddefnyddio cydgysylltwyr cyfranogiad awdurdodau lleol. Dewiswyd yr astudiaethau achos:-

- oherwydd eu bod wedi sefydlu arferion cyfranogol neu wrthi'n eu datblygu;
- i adlewyrchu amrywiaeth ddaearyddol ledled Cymru;
- i adlewyrchu cymysgedd o leoliadau trefol a gwledig; a
- i gynnwys amrywiaeth o ysgolion cynradd ac uwchradd a lleoliadau cymunedol.

1.20 Ar gyfer y gwaith astudiaethau achos, ymwelwyd ag 16 o leoliadau (ysgolion cynradd ac uwchradd a fforymau/rhwydweithiau ieuenctid cymunedol) mewn wyth awdurdod lleol ledled Cymru. Ymwelwyd â:-

- phum ysgol gynradd;
- pum ysgol uwchradd (gan gynnwys un ysgol arbennig gyda disgyblion 7 -19 oed); a
- chwe fforwm/rhwydwaith ieuenctid cymunedol.

1.21 O ystyried i ni ymweld â nifer cymharol fach o leoliadau a oedd wedi sefydlu arferion cyfranogol neu wrthi'n eu datblygu, ni ellir ystyried bod y canfyddiadau hyn yn gynrychioladol o bob ysgol ac o bob fforwm a rhwydwaith ieuenctid cymunedol ledled Cymru. Fodd bynnag, maent yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol am y manteision, y rhwystrau a'r heriau (a syniadau am sut i'w goresgyn) sy'n gysylltiedig â chyflwyno gweithgareddau cyfranogol ac yn amlygu rhywfaint o'r arferion da sydd ar waith.

1.22 Siaradwyd ag amrywiaeth o blant, pobl ifanc ac aelodau o staff ym mhob lleoliad. Yn yr ysgolion roedd hyn yn cynnwys:-

- y pennaeth neu aelod o'r Uwch Dîm Rheoli;

- aelodau o staff â chyfrifoldeb am weithgareddau cyfranogol yn yr ysgol, er enghraifft, cyngor yr ysgol, eco-gyngor;
- plant a phobl ifanc a oedd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogol; a
- plant a phobl ifanc nad oeddent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogol.

1.23 Ymgynghorwyd â rhanddeiliaid tebyg yn y fforymau ieuenctid/cymunedol h.y. cydgysylltwyr fforymau ieuenctid, staff a oedd yn gysylltiedig â darparu gweithgareddau cyfranogol a phobl ifanc a oedd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogol.

1.24 Y bwriad gwreiddiol oedd nodi cynllun neu weithgaredd mewn ysgol gynradd ac ysgol uwchradd ac un a oedd yn canolbwyntio ar bobl ifanc ym mhob awdurdod lleol. Nid oedd hyn yn bosibl, felly roedd rhaid ymweld â mwy o awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod digon o ysgolion cynradd ac uwchradd a fforymau ieuenctid yn cael eu cynrychioli. Y bwriad oedd nodi lleoliadau a oedd wedi sefydlu dulliau cyfranogol neu a oedd wrthi'n eu datblygu. Y gobaith gwreiddiol oedd nodi lleoliadau a oedd yn gallu dangos tystiolaeth glir o effeithiau gweithgarwch cyfranogol a dulliau o'i werthuso, ond roedd yr amcan olaf yn arbennig o anodd.

**Strwythur yr Adroddiad**

1.25 Mae gweddill yr adroddiad wedi'i rannu'n bum adran:-

- Mae **Adran 2** yn darparu trosolwg o'r gweithgareddau cyfranogol yr oedd plant a phobl ifanc yn cymryd rhan ynddynt, cymhellion staff a phlant a phobl ifanc dros gymryd rhan, prosesau recriwtio a thrafodaeth ar ba mor gynrychioladol oedd y dulliau cyfranogol.
- Mae **Adran 3** yn amlygu manteision cyfranogiad i blant a phobl ifanc, y sefydliadau a'r staff sy'n rhan o'r broses, a chymunedau a rhieni. Mae'n cynnig trosolwg o ddulliau a strategaethau adborth a ddefnyddir gan staff i fesur effaith cyfranogiad.
- Mae **Adran 4** yn ystyried y rhwystrau a'r heriau allweddol i gyfranogiad a nodwyd gan y staff a'r plant a'r bobl ifanc.
- Mae **Adran 5** yn darparu trosolwg o'r arferion da a nodwyd, y gwersi a ddysgwyd a'r meysydd i'w datblygu.
- Mae **Adran 6** yn cyflwyno ein casgliadau a'n hargymhellion.

## 2. TROSOLWG O WEITHGAREDDAU CYFRANOGI

| Canfyddiadau Allweddol: Trosolwg o Weithgareddau Cyfranogol |
| --- |

**Pa weithgareddau yr oedd plant a phobl ifanc yn cymryd rhan ynddynt?**

- Roedd plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau cyfranogol mewn ysgolion ac mewn awdurdodau lleol, gan gynnwys:-
    - gwella cyfleusterau mewn ysgolion ac awdurdodau lleol;
    - recriwtio a hyfforddi staff;
    - cynllunio'r cwricwlwm;
    - gwneud penderfyniadau strategol;
    - rheoli ymddygiad (mewn ysgolion); a
    - hybu a chodi ymwybyddiaeth o hawliau pobl ifanc.
- Roedd tair o'r bum ysgol uwchradd yn yr astudiaeth wedi penodi disgyblion-lywodraethwyr cyswllt ac roedd gan ddwy o'r deg ysgol yn yr astudiaeth bolisïau ar gyfranogiad.

**Cymhellion ar gyfer cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogol:**

- Roedd y mwyafrif o'r sefydliadau a'r staff yn awyddus i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc oherwydd eu bod yn credu mewn:-
    - egwyddorion democrataidd ac egalitaraidd;
    - hawliau (a chyfrifoldebau) plant a phobl ifanc;
    - y pwysigrwydd o sicrhau eu bod yn cyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau.
- Roedd plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogol am nifer o resymau, gan gynnwys:-
    - awydd i wneud gwahaniaeth;
    - sicrhau bod gwasanaethau'n diwallu eu hanghenion yn well;
    - sicrhau bod pobl yn gwrando arnynt;
    - newid delwedd pobl ifanc o fewn eu cymuned.

**Prosesau recriwtio:**

- Roedd y mwyafrif o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogol trwy weithwyr proffesiynol a oedd yn gweithio gyda nhw, neu oherwydd eu bod yn aelodau o grwpiau a oedd eisoes yn bodoli.

| Canfyddiadau Allweddol: Trosolwg o Weithgareddau Cyfranogol |
|---|
| **Strategaethau i sicrhau cynrychiolaeth:**<br>• Ceisiodd sefydliadau sicrhau bod gweithgareddau cyfranogol yn gynrychioladol drwy ddefnyddio nifer o ddulliau, gan gynnwys: cynnig amrywiaeth o weithgareddau cyfranogol a dulliau cyfathrebu; sicrhau bod pob grŵp oedran yn cael ei gynrychioli (mewn ysgolion); ac ehangu'r fframwaith cyfranogi.<br>• Serch hynny, mae'n amlwg bod modd gwella i ba raddau yr oedd gweithgareddau yn cynrychioli ac yn cynnwys pob plentyn a pherson ifanc. Roedd yna enghreifftiau da o dargedu pobl ifanc heb gynrychiolaeth ddigonol ac enghreifftiau da o ddadansoddi bylchau, ond mae angen canolbwyntio mwy ar hyn yn y dyfodol. |

**Gweithgarwch Cyfranogol**

2.1 Roedd y plant a'r bobl ifanc yr ymgynghorwyd â nhw yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau mewn ysgolion ac awdurdodau lleol ac ar lefel genedlaethol a rhyngwladol.

**Cyfranogiad Mewn Ysgolion**

2.2 Mewn ysgolion, roedd disgyblion yn fwyaf tebygol o gymryd rhan mewn gweithgarwch cyfranogol a phrosesau gwneud penderfyniadau a oedd yn canolbwyntio ar **amgylchedd a chyfleusterau ysgolion**. Roedd hyn yn cynnwys:-

- penderfyniadau'n ymwneud â darparu cyfarpar chwarae awyr agored, er enghraifft, holi disgyblion eraill am beth i'w brynu, cynllunio ble i'w roi ar dir yr ysgol ac ati;
- datblygu ystafell ddosbarth awyr agored (gweler yr enghraifft isod);
- darparu cyfleusterau, fel peiriannau oeri dŵr;
- gwelliannau/newidiadau i gyfleusterau fel toiledau, iwnifform, cinio ysgol, gwella llwybrau ar diroedd ysgolion;
- codi arian ar gyfer cyfleusterau (er enghraifft, defnyddio arian a godwyd o weithgareddau'n ymwneud â mentrau i dalu am gyfleusterau gwell);
- disgyblion yn rheoli llyfrgell yr ysgol ac yn hyfforddi disgyblion eraill i wneud y gwaith.

**Datblygu ystafell ddosbarth awyr agored**

Roedd disgyblion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau, gan gynnwys:-

- cynllunio ac addasu'r ystafell ddosbarth yn unol â'r gyllideb;
- gofyn am brisiau ar gyfer y gwaith adeiladu;
- asesu pa mor ymarferol yw prisiau/cynigion a dderbyniwyd;
- codi arian a rheoli'r gyllideb: penderfynu ar y cynllun gorau ar sail y cyllid a oedd ar gael;
- holi barn disgyblion am y cynllun ac am y cyfleusterau a ddarparwyd; a
- sicrhau caniatâd cynllunio.

2.3 Roedd rhai enghreifftiau o ddisgyblion yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm, recriwtio staff a rheoli ymddygiad:-

- **datblygu'r cwricwlwm:** ar lefel cyngor yr ysgol, roedd tystiolaeth o ddisgyblion yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm, neu o leiaf dystiolaeth o holi barn disgyblion am y cwricwlwm mewn dwy ysgol gynradd a dwy ysgol uwchradd yr ymwelwyd â nhw (gweler yr enghreifftiau yn **Ffigur 2.1**);
- **recriwtio staff:** roedd ambell i enghraifft o hyn yn digwydd mewn dwy o ysgolion yr astudiaeth (un ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd). Yn yr ysgol uwchradd, roedd cyfraniad y disgyblion at y gwaith o gyfweld staff yn cael ei ystyried yn *'rhan bwysig iawn o'r broses recriwtio'* (y pennaeth). Fel rhan o'r broses recriwtio, gofynnwyd i ddarpar athrawon gynnal dosbarthiadau a gofynnwyd i ddisgyblion roi adborth ar hyn; a
- **rheoli ymddygiad**: roedd disgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd yn cymryd rhan mewn gweithredu strategaethau rheoli ymddygiad. Roedd hyn yn cynnwys bod yn gyfryngwyr cymheiriaid er mwyn mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag ymddygiad a bwlio, a monitro gweithgareddau ar yr iard. Roedd un ysgol uwchradd hefyd wedi datblygu rhaglen iechyd rhywiol ar gyfer disgyblion, wedi'i chynnal gan ddisgyblion.

**Ffigur 2.1: Enghreifftiau o Weithgareddau Cyfranogol Mewn Ysgolion**

**Datblygu'r Cwricwlwm**

- Roedd aelodau cyngor yr ysgol mewn un ysgol gynradd wedi holi barn disgyblion eraill am y cwricwlwm. O ganlyniad, cyflwynwyd cynlluniau gwaith mwy rhyngweithiol ar gyfer Mathemateg. Bydd aelodau cyngor yr ysgol hefyd yn gyfrifol am gasglu sylwadau disgyblion y Cyfnod Sylfaen ar y gweithgareddau sy'n rhan o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.
- Ar ôl ymgynghori â'r holl fyfyrwyr, aeth un o'r ysgolion uwchradd a oedd yn rhan o'r astudiaeth achos ati i ddiwygio ei chwricwlwm i gynnwys modiwlau galwedigaethol ychwanegol: '*cafwyd neges gadarn gan y disgyblion eu bod angen mwy o bynciau galwedigaethol'* (y pennaeth).
- Cafodd disgyblion Blwyddyn 5 a 6 mewn un ysgol gynradd gyfle i gyflwyno gwersi yn yr ystafell ddosbarth fel rhan o'u profiad gwaith, gan fynd ati i ysgrifennu cynlluniau gwers, addysgu'r dosbarth ac adolygu'r wers wedyn.

**Rheoli Ymddygiad**

**Rhaglen Cyfryngu Cymheiriaid**

Mewn un ysgol gynradd, roedd disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn cymryd rhan mewn rhaglen cyfryngu cymheiriaid. Fe aeth disgyblion i'r afael â materion a phroblemau a oedd yn codi yn ystod amser chwarae yn yr ysgol, gan gynnwys ceisio lleihau achosion o fwlio. Cyfrannodd y disgyblion drwy enwebu disgyblion a thrafod gydag athrawon, a thrwy dderbyn hyfforddiant ar sgiliau cyfryngu a dysgu'r sgiliau trwy ddilyn eraill. Roedd yr ysgol hefyd yn gweithredu system 'man cyfeillgarwch'[2] ar yr iard.

**Prosiect PALS**

Deg gwirfoddolwr o Flwyddyn 9 a oedd yn gyfrifol am y 'Gwasanaeth Disgyblion yn Gwrando Bob Amser' *('Pupils Always Listening Service' - PALS)* a oedd ar waith mewn un ysgol uwchradd i helpu disgyblion eraill, ym Mlwyddyn 7 yn bennaf. Nod y cynllun oedd lleihau achosion o fwlio a helpu disgyblion Blwyddyn 7 i ymgartrefu yn amgylchedd eu hysgol newydd. Cafodd y disgyblion a gymerodd ran yn y prosiect PALS ddosbarth Blwyddyn 7 yr un i ofalu amdano. Cafodd disgyblion PALS hyfforddiant gan Childline: *'Maen nhw'n dod i'r ysgol ac yn ein haddysgu sut i ymdopi â sefyllfaoedd fel bwlio neu bobl yn galw enwau'* ac *'os ydym yn dod ar draws problemau rydym yn rhoi gwybod i Bennaeth y Flwyddyn'* (disgybl). Nododd Estyn fod disgyblion Blwyddyn 9 sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig wrth law i fynd i'r afael â phroblemau y mae disgyblion iau yn tynnu eu sylw atynt, a bod canllawiau clir yn cael eu harddangos drwy'r ysgol ynglŷn â natur bwlio a'r hyn y dylai disgyblion sy'n dioddef unrhyw fath o fwlio ei wneud.

[2] Man cyfeillgarwch - rhan o'r iard lle gall plant fynd os ydynt yn teimlo'n unig neu'n drist a'u bod am chwarae â rhywun.

2.4 Roedd disgyblion yn cyfrannu at gynllunio polisïau, llywodraethu ysgolion, blaenoriaethu nodau ac amcanion a gweithgareddau amgylcheddol:-

- **cynllunio polisïau:** roedd aelodau cyngor ysgol mewn dwy ysgol uwchradd yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu cynllun gwella'r ysgol ac roedd disgyblion yr ysgol arbennig wedi helpu i gynllunio polisi cyfranogiad yr ysgol (gweler Ffigur 2.2). Dim ond dwy ysgol a gyflwynodd dystiolaeth fod ganddynt bolisi cyfranogiad, ond roedd hyd yn oed y rhain yn cydnabod bod y wybodaeth yn dyddio'n gyflym yn sgil y datblygiadau newydd cyson;
- **llywodraethu ysgolion a blaenoriaethu nodau ac amcanion:** roedd tair ysgol uwchradd wedi penodi disgyblion-lywodraethwyr cyswllt (gweler Ffigur 2.2). Roedd disgyblion o un ysgol gynradd wedi defnyddio 'system flaenoriaethu diemwnt' i flaenoriaethu gweithgareddau cyngor yr ysgol: '*Rydym yn defnyddio system raddio diemwnt sy'n dangos yn glir beth mae pawb eisiau'* (disgybl ysgol gynradd). Roedd aelodau cyngor yr ysgol hefyd yn helpu i sefydlu rheolau a chodau ymddygiad ar gyfer cyfarfodydd;
- **gweithgareddau amgylcheddol:** roedd disgyblion ysgolion cynradd yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau amgylcheddol. Roedd llai o dystiolaeth o'r gweithgareddau hyn mewn ysgolion uwchradd (gweler **Ffigur 2.2**).

| **Ffigur 2.2: Enghreifftiau o Weithgareddau Cyfranogol mewn Ysgolion** |
|---|
| **Cynllunio Polisïau** |
| Polisi Cyfranogiad yr Ysgol (Chwefror 2007). Roedd staff a disgyblion yn cymryd rhan yn y broses o ddatblygu'r polisi. Mae'r polisi yn cynnwys manylion am:-<br>• egwyddorion cyffredinol cyfranogiad;<br>• cyd-destun y polisi;<br>• egwyddorion allweddol e.e. hawliau, grymuso, cyfle cyfartal, gwella cyflawniad, amddiffyn, democratiaeth a pharch;<br>• map o fforwm yr ysgol a'r fforymau ategol sy'n helpu i sicrhau bod disgyblion yn gallu lleisio barn a chyfranogi ac yn hybu gweithredu cymunedol e.e. Cyngor Eco-ysgol, Ysgol Sy'n Parchu Hawliau UNICEF, a Fforwm Eco-ganolfan y Mileniwm; a<br>• y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol. |
| **Llywodraethu Ysgolion** |
| Yn ôl staff mewn un ysgol uwchradd a oedd wedi penodi disgyblion-lywodraethwyr cyswllt: '*mae gwaith y disgyblion gyda'r llywodraethwyr wedi bod yn gadarnhaol iawn'.* Nododd y disgyblion ei bod *'yn dda eu bod nhw* [y disgyblion] *yn gwybod beth* |

| |
|---|
| *sy'n digwydd'* (disgybl nad oedd yn cyfranogi). Yn y ddwy ysgol arall (gan gynnwys yr ysgol arbennig[3]), roedd cynrychiolwyr cyngor yr ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd â llywodraethwyr ac yn mynychu cyfarfodydd llywodraethwyr lle bo hynny'n briodol. Yn yr ysgol arbennig, roedd 'mentoriaid llywodraethwyr' yn mynychu cyfarfodydd cyngor yr ysgol hefyd. |
| **Gweithgareddau Amgylcheddol** |
| Roedd disgyblion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau amgylcheddol gan gynnwys: ailgylchu gwastraff (ar gyfer yr ysgol a'r gymuned leol); gwella amgylchedd yr ysgol drwy reoli gwastraff a phlannu coed; gwaith ymchwil a dadansoddi e.e. dadansoddi faint o sbwriel a gynhyrchwyd, teithiau staff i'r gwaith, a dadansoddi defnydd yr ysgol o ynni; teclynnau monitro arbed ynni; bws cerdded; datblygu addewidion amgylcheddol a chod amgylcheddol, dyddiau o weithgareddau'n canolbwyntio ar yr amgylchedd e.e. 'Dyddiau Gwyrdd'; a gweithgareddau'n ymwneud â masnach deg (gan gynnwys sefydlu siop masnach deg ac ysgrifennu drama yn seiliedig ar faterion yn ymwneud â masnach deg). |

**Cyfranogiad Cymunedau ac Awdurdodau Lleol**

2.5 Yn y lleoliadau y buom ni'n ymweld â nhw, cyflawnwyd y gwaith hwn gan y canlynol yn bennaf:-

- grwpiau cymunedol a fforymau ieuenctid lleol (lefel gymunedol);
- grwpiau â diddordeb arbennig a oedd yn canolbwyntio ar bobl ifanc anabl (lefel awdurdod lleol);
- fforymau/cynghorau ieuenctid awdurdodau lleol;
- rhwydweithiau cenedlaethol (fel y Rhwydwaith Pobl Ifanc Anabl a'r Ddraig Ffynci); ac
- ysgolion (lefel gymunedol, awdurdodau lleol a chenedlaethol).

2.6 Roedd plant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn y gwaith o hybu hawliau pobl ifanc; sefydlu fforymau gwneud penderfyniadau ac yn aelodau ohonynt; cynllunio ac arolygu polisïau a gwasanaethau; recriwtio a hyfforddi staff; a gwaith yn ymwneud â chymunedau a mentergarwch lleol:-

- **hybu a chodi ymwybyddiaeth o hawliau pobl ifanc** ymysg asiantaethau a gwasanaethau sy'n gweithio gyda phobl ifanc neu'n darparu gwasanaethau ar eu cyfer, er enghraifft meddygon teulu ac aelodau etholedig. Mae pobl ifanc (o ysgolion a fforymau ieuenctid) wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth o ymarferion ymgynghori (yn lleol ac yn genedlaethol), gan gynnal a chyfrannu at gynadleddau ac ymgyrchu ar faterion lleol;

[3] O dan Reoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005, nid oes angen i ysgolion arbennig benodi disgyblion-lywodraethwyr cyswllt.

- **ymgynghori ar bolisïau a gwasanaethau a'u cynllunio**: roedd cyfraniad pobl ifanc at gynllunio polisïau a gwasanaethau awdurdodau lleol a rhai gwirfoddol a statudol yn faes pwysig arall, er enghraifft sicrhau bod Cynlluniau Sengl yn ystyried pobl ifanc, sefydlu Senedd Ieuenctid a bod yn aelodau o grwpiau rheoli strategol mewn cynghorau lleol. Roedd aelodau fforymau a rhwydweithiau ieuenctid yn cymryd mwy o ran yn y gwaith o arolygu gwasanaethau awdurdodau lleol a sefydliadau eraill;
- **recriwtio a hyfforddi staff:** roedd pobl ifanc yn cymryd rhan mewn prosesau recriwtio staff i sefydliadau gwirfoddol, awdurdodau lleol a rhwydweithiau/fforymau cyfranogi lleol a chenedlaethol. Roeddent hefyd yn cyfrannu at y gwaith o ddarparu hyfforddiant ar sut i weithio gyda phlant a phobl ifanc i aelodau etholedig a gweithwyr proffesiynol. Roedd un awdurdod lleol wedi defnyddio'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc i godi ymwybyddiaeth prif swyddogion o'r safonau a beth oeddent yn bwriadu ei wneud i gyrraedd y safonau hynny (gweler Ffigur 2.3); a
- **gwaith cymunedol a mentergarwch:** roedd y math yma o weithgareddau'n arbennig o amlwg yn yr ysgol arbennig yr ymwelwyd â hi. Nododd aelodau o staff fod disgyblion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o brosiectau cymunedol a gweithgareddau mentergarwch, a oedd yn rhoi profiad ymarferol o wneud penderfyniadau iddynt.

| **Ffigur 2.3: Enghreifftiau o Weithgareddau Cyfranogol mewn Cymunedau/Awdurdodau Lleol** |
|---|
| **Hybu a Chodi Ymwybyddiaeth o Hawliau Pobl Ifanc** |
| Roedd is-bwyllgor iechyd un Fforwm Ieuenctid yn cynllunio posteri i hybu hawliau pobl ifanc gyda meddygon teulu lleol. Roedd y pwyllgor yn awyddus i godi ymwybyddiaeth meddygon teulu o sut i gyfathrebu'n fwy effeithiol gyda phobl ifanc gan fod rhai ohonynt yn teimlo eu bod yn ymddwyn yn nawddoglyd tuag atynt yn aml.<br><br>Roedd pobl ifanc o'r Rhwydwaith Pobl Ifanc Anabl yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o ymarferion ymgynghori ar lefel genedlaethol, gan ganolbwyntio ar hybu a chodi ymwybyddiaeth o hawliau pobl ifanc anabl, gan gynnwys:-<br><br>• Aelodau'r Grŵp Llywio Cyfle Cyfartal ar gyfer Pobl Ifanc Anabl (Llywodraeth Cynulliad Cymru), a arweiniodd at gyhoeddi'r adroddiad: '*Darparu Gwasanaethau ar gyfer Pobl Ifanc Anabl: 'Pam bod pobl ifanc anabl bob tro'n cael eu hystyried olaf?'* (2007).<br>• Aelodau'r Gweithgor Trosglwyddo yn canolbwyntio ar wella prosesau trosglwyddo ar gyfer pobl ifanc anabl. Roedd nifer o'r bobl ifanc wedi annerch Cynhadledd Drosglwyddo genedlaethol, a oedd wedi deillio'n uniongyrchol o rwystredigaeth pobl ifanc am nad ydynt yn cael cyfrannu at eu prosesau trosglwyddo eu hunain.<br>• Ymgynghori ar Chwarae a Hamdden. O ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn, rhoddwyd cyllid ar gyfer gweithgareddau chwarae a hamdden i blant a phobl ifanc anabl ledled Cymru. |

| Ffigur 2.3: Enghreifftiau o Weithgareddau Cyfranogol mewn Cymunedau/Awdurdodau Lleol |
|---|
| • Roedd aelodau'r rhwydwaith hefyd yn cyfrannu at Ymgyrch Plant Anabl yn Cyfri Cymru.<br><br>Roedd aelodau fforymau ieuenctid yn cymryd rhan mewn gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth aelodau etholedig o 'arferion da' mewn perthynas â gweithio gyda phobl ifanc. Er enghraifft, mewn un awdurdod lleol roedd y fforwm ieuenctid wedi cynhyrchu 'mosaig' ar gyfer aelodau etholedig i ddangos nodweddion posibl y cynghorydd perffaith. Roedd nifer o'r fforymau ieuenctid yn rhan o ymgyrch genedlaethol o'r enw *'Rwy'n Gynghorydd, Bacha Fi O 'Ma'* i ethol hyrwyddwr pobl ifanc o fewn y cyngor. |
| **Ymgynghori ar Bolisïau/Gwasanaethau, eu Cynllunio a'u Harolygu** |
| Sefydlu senedd ieuenctid: mae Grŵp Llywio'r Senedd Ieuenctid yn cynnwys 40 o bobl ifanc, a chyd-gadeiriwyd grŵp 'Gorchwyl a Gorffen' y Senedd Ieuenctid gan yr aelodau hefyd (mae gwaith yn ymwneud â Chynllun Plant a Phobl Ifanc yr awdurdod lleol hwn yn cael ei wneud gan rwydwaith o grwpiau gorchwyl a gorffen sy'n mynd i'r afael â materion penodol).<br><br>Mewn un awdurdod lleol, roedd aelodau'r fforwm ieuenctid yn cyd-gadeirio grwpiau rheoli strategol (gweler yr adran ar arferion da am fanylion pellach) ac yn gwasanaethu ar grwpiau llywio sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i bobl ifanc.<br><br>Disgrifiodd dau aelod o fforwm ieuenctid sut oeddent wedi cyfrannu at ddatblygu Cynllun Sengl eu hawdurdod lleol, gan ei newid o fod yn *'ddogfen fawr, anodd ei thrin nad oedd neb yn ei deall'* i fod yn ddogfen a oedd yn addas i bob person ifanc (gan gynnwys pobl ifanc anabl) ac yn gallu diwallu anghenion pobl ifanc yr awdurdod lleol yn well. Aeth y fforwm ieuenctid ati i ymgynghori â phobl ifanc yn y gymuned i gasglu eu syniadau ar sut y gellid sicrhau bod y ddogfen yn fwy hygyrch. Cynhyrchwyd DVD am brif elfennau'r cynllun hefyd.<br><br>Mewn un awdurdod lleol, roedd aelodau'r fforwm ieuenctid wedi cynllunio taflen gwynion newydd ar gyfer y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS), gan ei gwneud yn fwy addas i bobl ifanc. Mewn awdurdod lleol arall roeddent yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu gweithdrefnau cwyno'r cyngor.<br><br>Mewn nifer o awdurdodau lleol roedd pobl ifanc yn gyfrifol am arolygu gwasanaethau (y sectorau gwirfoddol, statudol a phreifat) er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu eu hanghenion ac yn defnyddio dulliau gweithredu cyfranogol dilys. Roedd y sefydliadau a oedd yn dangos dull gweithredu o'r fath yn derbyn nod barcud i ddangos eu bod wedi cyrraedd safonau gofynnol yr arolygwyr. Mewn un awdurdod lleol, roedd pobl ifanc (gan gynnwys unigolyn ifanc anabl) yn gyfrifol am arolygu ac asesu darpariaeth gwasanaethau. Derbyniodd y bobl ifanc dâl am werthuso amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys ysbytai, llyfrgelloedd, deintyddion, elusennau a sefydliadau eraill. Canolbwyntiwyd ar sicrhau bod gwasanaethau'r awdurdod lleol yn fwy ystyriol o bobl ifanc ac roedd y rhai a oedd yn llwyddiannus yn derbyn nod barcud i ddangos hyn. Aseswyd sefydliadau yn flynyddol. |

| Ffigur 2.3: Enghreifftiau o Weithgareddau Cyfranogol mewn Cymunedau/Awdurdodau Lleol |
|---|
| **Recriwtio a Hyfforddi Staff** |
| Mewn un awdurdod lleol, roedd pobl ifanc yn cymryd rhan yn y broses o recriwtio staff ar gyfer rhaglen eiriolaeth leol. Mae pob eiriolwr (sy'n oedolyn) yn cael ei gyfweld gan bobl ifanc sy'n gysylltiedig â'r gwaith o ddatblygu'r rhaglen. Mae'r rhaglen yn cwmpasu amrywiaeth eang o faterion gan gynnwys: bwlio, diffyg cyfle i ddefnyddio gwasanaethau a phroblemau teuluol ac mae ar gael i bobl ifanc pryd bynnag maent yn teimlo eu bod angen cymorth. Mae eiriolwyr yn cynorthwyo pobl ifanc i gael gafael ar amrywiaeth o wasanaethau, er enghraifft ym meysydd iechyd, tai a CAFCASS. Maent hefyd yn eu cynorthwyo os ydynt am wneud cwyn am unrhyw wasanaeth y maent wedi'i dderbyn.<br><br>Mewn un awdurdod lleol, roedd aelodau'r fforwm ieuenctid yn arwain hyfforddiant y Cynllun Plant a Phobl Ifanc ar y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc i holl brif swyddogion yr awdurdod lleol. Gwnaethant gyflwyniad ar bob un o'r Safonau Cyfranogiad e.e. 'gwybodaeth', 'parch' ac ati, gan egluro eu hystyr i'r prif swyddogion. Gofynnodd y Prif Swyddog Cyfranogiad a Chynhwysiant i'r swyddogion wedyn beth fyddent yn ei wneud i gyrraedd y Safonau.<br><br>Mewn awdurdod lleol arall, roedd aelodau'r fforwm ieuenctid wedi cynllunio a darparu hyfforddiant i aelodau etholedig ar faterion yn ymwneud â phobl ifanc. I gyd-fynd â'r hyfforddiant hwn, gwnaeth pobl ifanc gyflwyniad i'r Cabinet i helpu i godi ymwybyddiaeth o faterion a phryderon pobl ifanc ym maes llywodraeth leol. |
| **Gwaith Cymunedol a Mentergarwch** |
| Mewn un ysgol, roedd y gweithgareddau'n cynnwys: caffi, siop masnach deg, gwasanaeth glanhau ceir, a salon gwallt a harddwch. Roedd pob gwasanaeth yn agored i'r cyhoedd ac wedi'i leoli yn yr ysgol. Roedd disgyblion yr ysgol hefyd yn rhan o dasglu amgylcheddol a oedd yn darparu cyfleusterau ailgylchu a garddio yn y gymuned. Roedd tiroedd yr ysgol yn cynnwys nifer o erddi, gan gynnwys 'gardd ffydd' wedi'i chynllunio a'i chreu gan ddisgyblion, a oedd yn agored i'r gymuned ac wedi'i nodi fel enghraifft genedlaethol o ragoriaeth. Roedd hefyd wedi'i defnyddio fel model arfer da gan Eglwys Gadeiriol Lerpwl. |

### Cymhellion i Gymryd Rhan

2.7 Roedd y llenyddiaeth yn nodi nifer o ffactorau (Whitty a Wisby, 2007; Cleaver a Kerr, 2006) sy'n sbarduno plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn prosesau cyfranogi, gan gynnwys: hybu hawliau plant a phobl ifanc; cryfhau dinasyddiaeth a phrosesau democrataidd; gwella ysgolion/sefydliadau a chymunedau; a chyfranogiad fel dull i blant a phobl ifanc allu sicrhau newid effeithiol yn eu bywydau.

2.8 Gall nodi'r rhesymau pam mae'r rhai yr ymgynghorir â nhw'n cymryd rhan mewn prosesau cyfranogi helpu i ddatblygu gweithdrefnau recriwtio ac annog staff, plant a phobl ifanc i fod yn rhan o'r broses.

**Sefydliadau a Staff**

2.9 Mae'r hyn sy'n cymell sefydliadau ac aelodau staff i gyfranogi yn seiliedig ar gred mewn:-

- egwyddorion democrataidd ac egalitaraidd;
- hawliau (a chyfrifoldebau) plant a phobl ifanc; a
- phwysigrwydd sicrhau eu bod yn cyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau.

2.10 Roedd nifer o'r ysgolion wedi bod yn datblygu dulliau o'r fath ers amser maith (h.y. ers mwy na phum mlynedd) oherwydd eu bod yn gallu gweld y manteision. Roedd dulliau cyfranogol yn elfen bwysig o'r ysgolion hyn ymhell cyn i'r gofyniad am gynghorau ysgol gael ei gyflwyno. Roedd y rhesymau dros gyfranogi, a nodwyd gan staff mewn ysgolion a staff fforymau ieuenctid, yn cynnwys cred gadarn mewn **egwyddorion democrataidd ac egalitaraidd** a hawliau (a chyfrifoldebau) plant a phobl ifanc. Roedd hyn yn adlewyrchu barn y rhai yr ymgynghorwyd â nhw y gallai cynnwys plant a phobl ifanc fod yn fanteisiol i'r unigolion a'r sefydliadau perthnasol. Os nad yw aelodau staff yn credu yn yr egwyddorion a'r hawliau, mae cyfranogiad yn debygol o fod yn aflwyddiannus ac mewn perygl o fod yn ymarfer symbolaidd yn unig.

2.11 Roedd yna awydd cryf i **hybu hawliau plant a phobl ifanc** a'u **cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau** ar lefel leol a chenedlaethol. Roedd y ffocws ar hybu hawliau plant a phobl ifanc yn fwyaf amlwg ar lefel fforymau ieuenctid/rhwydweithiau cymunedol. Fodd bynnag, roedd yna rai enghreifftiau nodedig mewn ysgolion hefyd, gan gynnwys un ysgol a oedd wedi derbyn 'Dyfarniad Ysgol sy'n Parchu Hawliau[4]' UNICEF.

2.12 Roedd cymhellion aelodau o staff dros gymryd rhan hefyd yn canolbwyntio ar awydd i sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed. Roeddent am i blant a phobl ifanc uniaethu â materion yn ymwneud â'r ysgol a'r gymuned yn ogystal â materion cenedlaethol, ac yn awyddus iddynt gael 'dweud eu dweud' ar y materion hyn. Wrth wneud hyn, teimlwyd bod plant a phobl ifanc yn cymryd cyfrifoldeb am y penderfyniadau a wnaed, gan arwain at deimlad cryfach o 'berchnogaeth', perthyn a buddsoddiad yn eu hysgol a/neu gymuned.

2.13 Roedd pwysau a gofynion allanol (yn genedlaethol ac yn lleol) i ymgynghori â phlant a phobl ifanc hefyd yn cael eu cydnabod fel dylanwad allweddol ar y gwaith o ddatblygu arferion cyfranogol mewn fforymau ieuenctid. Er enghraifft, yn ôl gweithiwr ieuenctid: *'mae pawb yn gofyn a ydych chi wedi ymgynghori â phobl ifanc?'*

4 Gweler http://rrsa.unicef.org.uk/ am fanylion pellach

| Ffigur 2.4: Cymhellion Staff a Sefydliadau dros Gymryd Rhan |
|---|
| **Egwyddorion Democrataidd ac Egalitaraidd** |
| Nododd un pennaeth ysgol gynradd fod yr ysgol wedi bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogi ers 15 mlynedd a bod cyngor yr ysgol wedi'i sefydlu 13 mlynedd yn ôl. Roedd y pennaeth yn credu bod cyfranogiad, a chyngor yr ysgol yn arbennig, *'yn rhan bwysig iawn o'r broses o wneud penderfyniadau yn yr ysgol'*. |
| **Hybu Hawliau Pobl Ifanc a'u Cynnwys yn y Broses o Wneud Penderfyniadau** |
| *'Gwasanaeth 'Llais Plant' penodol yw* [enw'r grŵp cymorth i bobl ifanc anabl] *sy'n gweithio gyda, a thros bobl ifanc anabl… Ei nod yw helpu pobl ifanc anabl i allu defnyddio gwasanaethau prif ffrwd cyffredinol ac arbenigol drwy:*<br>• *ddarparu gwybodaeth;*<br>• *datblygu sgiliau;*<br>• *hwyluso dulliau amrywiol o sicrhau bod eu safbwyntiau a'u syniadau'n cael eu hystyried, ar sail eu profiadau unigol a phrofiadau'r grŵp, er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau sy'n bodoli'n lleol'*.<br>Mae '*am i bobl ifanc wybod beth yw eu hawliau a theimlo'n ddigon hyderus i siarad am unrhyw anghyfiawnder maent yn ei ddioddef a chael cymorth i gymryd unrhyw gamau gweithredu priodol'*. |

**Plant a Phobl Ifanc**

2.14 Roedd cymhellion plant a phobl ifanc dros gymryd rhan yn seiliedig ar awydd i:-

- wneud gwahaniaeth;
- sicrhau bod gwasanaethau'n diwallu eu hanghenion yn well;
- sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed; a
- newid delwedd pobl ifanc yn eu cymuned.

2.15 Roedd staff a phobl ifanc yn cytuno ar y pedwar prif reswm hwn dros gyfranogiad pobl ifanc.

2.16 Dywedodd mwyafrif y plant a phobl ifanc yr ymgynghorwyd â nhw iddynt gymryd rhan oherwydd eu bod yn awyddus i **wneud gwahaniaeth** a newid arferion eu hysgol, cymuned a/neu arferion cenedlaethol. Roedd pobl ifanc hefyd yn awyddus i gymryd rhan oherwydd awydd i sicrhau bod gwasanaethau'n **diwallu eu hanghenion yn well** ac i wella cyfleusterau yn eu hysgol, cymuned neu awdurdod lleol.

2.17 Roedd plant a phobl ifanc yn cymryd rhan oherwydd eu bod yn awyddus i:-

- **sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed** ac na fyddai penderfyniadau oedd yn effeithio arnynt yn cael eu gwneud gan oedolion a gweithwyr proffesiynol yn bennaf, heb ymgynghori â nhw. Roedd hwn yn gymhelliad penodol ar gyfer y bobl ifanc anabl y siaradwyd â nhw; roeddent yn awyddus i ddylanwadu ar bolisïau a'r broses o wneud penderfyniadau a oedd yn effeithio ar hawliau pobl ifanc anabl yn lleol ac yn genedlaethol;
- **newid eu delwedd yn y gymuned leol**. Roedd hwn yn gymhelliad penodol ar gyfer pobl ifanc mewn fforymau ieuenctid/cymunedol.

| Ffigur 2.5: Cymhellion Plant a Phobl Ifanc dros Gymryd Rhan |
|---|
| **Gwneud Gwahaniaeth** |
| *'Roeddwn am ymuno* [â chyngor yr ysgol] *oherwydd roeddwn am wneud gwahaniaeth i'r ysgol'.*<br>*'Roeddwn am fod yn aelod* [o'r eco-gyngor] *er mwyn helpu'r amgylchedd'.*<br>*'Roeddwn am fod yn aelod* [o gyngor yr ysgol] *er mwyn gofalu am yr ysgol a thiroedd yr ysgol. Rydym wedi plannu llawer o goed ac wedi cael llawer o rieni i gymryd rhan hefyd'.*<br>**'***Roeddwn am gymryd rhan er mwyn gwneud gwahaniaeth i'r gymuned. Rwy'n hapus mod i'n gallu gwneud gwahaniaeth'.* |
| **Sicrhau bod Gwasanaethau'n Diwallu eu Hanghenion yn Well** |
| '*Does dim byd i bobl ifanc ei wneud ac rwyf am newid hynny'.* |
| **Sicrhau bod eu Lleisiau'n Cael eu Clywed** |
| '[Mae'r cyfan yn ymwneud â sicrhau] *bod fy llais yn cael ei glywed. Does dim byd yn digwydd os nad ydych chi'n lleisio'ch barn'.* |
| **Newid Delwedd Pobl Ifanc yn y Gymuned** |
| *'Roeddwn am newid barn y cyhoedd am bobl ifanc, yn enwedig barn pobl hŷn… Maen nhw'n meddwl ein bod ni i gyd yn dda i ddim… Mae'n ymwneud â newid delwedd pobl ifanc'.* |

**Prosesau Recriwtio**

2.18 Yn gyffredinol, roedd plant a phobl ifanc wedi dechrau ymwneud â gweithgareddau cyfranogol trwy'r gweithwyr proffesiynol a oedd yn gweithio gyda nhw. Staff mewn ysgolion, gweithwyr ieuenctid, neu weithwyr cymdeithasol oedd wedi cyflwyno'r syniad o gyfranogi, nid y bobl ifanc eu hunain. Roedd y gweithwyr proffesiynol yn hwyluswyr allweddol, felly, i gyfranogiad plant a phobl ifanc mewn gweithgareddau cyfranogol. Roedd y bobl ifanc a oedd yn cymryd rhan mewn fforymau ieuenctid yn tueddu i gael eu recriwtio gan grwpiau a oedd eisoes yn bodoli, fel clybiau ieuenctid neu grwpiau cymunedol er enghraifft. Nododd staff fforymau ieuenctid bwysigrwydd y grwpiau hyn o safbwynt recriwtio eu haelodau (gweler Ffigur 2.6).

2.19 Cafwyd nifer o enghreifftiau clir lle'r oedd cyfraniad pobl ifanc at un grŵp (e.e. grŵp cymunedol/buddiant lleol neu gyngor ysgol) wedi'i nodi fel y rheswm dros eu cyfraniad ar lefel awdurdod lleol (e.e. Fforwm Ieuenctid), gan arwain at eu cyfraniad ar lefel genedlaethol (e.e. y Ddraig Ffynci a'r Rhwydwaith Pobl Ifanc Anabl). Mae hyn yn amlygu'r cyfleoedd clir ar gyfer dilyniant mewn perthynas â chynnwys plant a phobl ifanc mewn cyfranogiad ar lefel leol.

| **Ffigur 2.6: Prosesau Recriwtio** |
|---|
| **Sut Mae Pobl Ifanc yn Cymryd Rhan** |
| *'Grwpiau'r sector gwirfoddol sy'n gyfrifol am y gwaith caled. Grwpiau'r sector gwirfoddol fel yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yw ein cryfder fel sir. Maen nhw'n deall yr agenda a phwysigrwydd* [cyfranogiad]*. Nhw sy'n sicrhau bod y bobl ifanc yn mynychu. Mae'n rhwydwaith cymorth anferth'* (cydgysylltydd fforwm ieuenctid). |

2.20 Defnyddiwyd cymysgedd o brosesau recriwtio yn y gwahanol fathau o weithgarwch cyfranogol:-

- cynhwysiant/cyfraniad gwirfoddol yn gofyn am wirfoddolwyr/enwebeion (cyfryngu cymheiriaid, Eco-gynghorau, rhwydweithiau a fforymau cenedlaethol, ysgolion iach, fforymau ieuenctid);
- dethol democrataidd, h.y. plant a phobl ifanc yn cael eu hethol i'w swyddi (cynghorau ysgol, y Ddraig Ffynci, fforymau ieuenctid).

**Recriwtio ar Lefel Ysgol**

2.21 O safbwynt sefydlu cyngor ysgol a recriwtio aelodau, nododd staff mewn ysgolion ba mor bwysig yw sicrhau bod plant a phobl ifanc yn teimlo cyfrifoldeb am y broses o'r cychwyn cyntaf.

**Sefydlu cyngor ysgol**

Wrth sefydlu cyngor ysgol, dywedodd pennaeth ysgol gynradd iddi siarad â disgyblion am nodweddion cyngor ysgol, gofyn iddynt a hoffent gael cyngor o'r fath (roedd hyn cyn bod sefydlu cyngor ysgol yn ofynnol), pa fath o gyngor roeddent am ei gael a sut i'w ddatblygu.

2.22 Roedd yna wahaniaethau sylweddol o ran nifer ac oedran y bobl ifanc a oedd yn aelodau o gynghorau ysgol, yn enwedig mewn ysgolion cynradd (trafodir hyn yn fanylach yn yr adran nesaf).

2.23 Roedd llai o enghreifftiau o annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogol mewn ysgolion o gymharu â fforymau ieuenctid. Mae'n bosibl bod hyn yn adlewyrchu'r ffaith fod disgyblion ysgol yn fwy o 'gynulleidfa barod' ac nad oes angen cynnal prosesau recriwtio amlwg. Y cwestiwn yn y cyswllt hwn yw a yw ysgolion yn recriwtio amrywiaeth digon eang o ddisgyblion? Cafwyd

enghreifftiau gan staff mewn ysgolion o waith i hybu a chodi ymwybyddiaeth o gynghorau ysgol ymysg disgyblion, gan gynnwys cynnal sesiynau ar 'nodweddion cynghorau ysgol' a 'beth maen nhw'n ei wneud'. Hyrwyddwyd gweithgareddau cyfranogol eraill, fel 'Eco-ysgolion' drwy wersi Addysg Bersonol a Chymdeithasol a thrwy eu cysylltu â diddordebau amgylcheddol posibl disgyblion y tu allan i'r ysgol.

**Recriwtio ar Lefel Gymunedol**

2.24 Er mwyn recriwtio pobl ifanc, roedd rhaid i fforymau ieuenctid hyrwyddo eu gweithgareddau cyfranogol yn fwy nag ysgolion. Roedd yr amrywiaeth o ddulliau a ddefnyddiwyd ganddynt yn cynnwys:-

- cynnal nosweithiau agored a gweithgareddau eraill yn y gymuned i geisio denu cymaint o bobl ifanc â phosibl;
- darpariaeth symudol ar gyfer pobl ifanc yn y gymuned (yn enwedig mewn ardaloedd gwledig) sy'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau, yn ogystal â hyrwyddo gwaith y fforwm ieuenctid. Mewn un awdurdod lleol roedd y gwaith yn cael ei wneud mewn partneriaeth â'r tîm chwarae;
- gweithio gyda grwpiau cymunedol lleol, clybiau ieuenctid, a gweithwyr ieuenctid sy'n gweithio yn y gymuned;
- defnyddio prosiectau llwyddiannus sydd eisoes yn bodoli e.e. prosiectau cymunedol, gorsaf radio dan ofal pobl ifanc i gymell mwy o bobl ifanc eraill i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogol; a
- gwefannau a chylchlythyron i hybu gwaith y fforwm ieuenctid; er, rhaid cwestiynu pa mor llwyddiannus fyddai'r dulliau hyn o recriwtio pobl ifanc ar gyfer gweithgareddau cyfranogol heb gyswllt wyneb yn wyneb.

2.25 Roedd y bobl ifanc oedd yn aelodau o'r fforymau ieuenctid naill ai'n wirfoddolwyr neu wedi'u hethol i'w swyddi, yn dibynnu ar y galw. Os oedd etholiadau'n cael eu cynnal, roedd staff yn teimlo ei bod yn bwysig iddynt efelychu prosesau etholiadau oedolion, lle bo hynny'n bosibl.

**Prosesau Etholiadau**

Esboniodd cydgysylltydd fforwm ieuenctid sut mae pobl ifanc yn cael eu hethol i'r cyngor ieuenctid. '*Maen nhw'n cael eu hyfforddi ac yn cymryd rhan wedyn. Mae'r fforwm yn cynnal etholiadau bob blwyddyn.'* Mae'r cyngor yn dilyn prosesau etholiadau llawn – blychau pleidleisio, gwirio canlyniadau ac ati. '*Mae'n sicrhau eu bod nhw* [pobl ifanc] *yn gwybod beth i'w ddisgwyl gan system ddemocrataidd.'*

2.26 Mae **Ffigur 2.7** yn nodi rhai enghreifftiau o sut y gwnaeth pobl ifanc ddod yn aelodau o fforymau ieuenctid.

| Ffigur 2.7: Recriwtio i Fforymau Ieuenctid |
|---|
| **Sut Mae Pobl Ifanc yn Cymryd Rhan** |
| **Person ifanc 1**: drwy'r clwb ieuenctid. Roedd y ferch hon yn rheoli'r siop fwyd yn ei chlwb ieuenctid ac awgrymodd ei gweithiwr ieuenctid y byddai'n syniad da iddi ymuno â'r fforwm ieuenctid. Mynychodd noson agored ac ymunodd wedyn. |
| **Person ifanc 2**: cafodd ei recriwtio drwy ei waith gyda'r Ddraig Ffynci. Fel rhan o'r gwaith hwn cyfarfu ag aelodau'r fforwm ieuenctid a chafodd wahoddiad i ymuno. |
| **Person ifanc 3**: cafodd ei recriwtio gan weithiwr ieuenctid yn ei fforwm gymunedol leol a awgrymodd y dylai ymuno â'r Ddraig Ffynci. Ar ôl cymryd rhan yng ngweithgarwch y Ddraig Ffynci dechreuodd gyfrannu at waith fforwm ieuenctid yr awdurdod lleol. |
| **Person ifanc 4**: awgrymodd gweithiwr ieuenctid ei hysgol y dylai fynychu noson agored fforwm ieuenctid, a dechreuodd gymryd rhan ar ôl hynny: '*dywedodd fod gen i geg fawr ac y gallwn wneud gwahaniaeth ac rwyf wedi mwynhau'r profiad yn fawr'.* |

**Strategaethau i Sicrhau Cynrychiolaeth**

2.27 Mae gwaith ymchwil blaenorol (Ireland et al., 2006; Molloy et al., 2002) wedi dangos pa mor anodd yw sicrhau bod dulliau cyfranogol yn cynrychioli pob plentyn a pherson ifanc. Mae ein gwaith ymchwil yn cadarnhau'r canfyddiadau hyn, ond mae hefyd yn amlygu nifer o strategaethau yr oedd fforymau ieuenctid ac ysgolion yn eu defnyddio i sicrhau bod eu dulliau cyfranogol mor gynrychioladol â phosibl.

***Sut mae Ysgolion/Fforymau Ieuenctid yn Sicrhau eu bod yn Gynrychioladol?***

2.28 Roedd ysgolion a fforymau ieuenctid yn sicrhau eu bod yn gynrychioladol drwy:-

- ddarparu amrywiaeth o weithgareddau a dulliau cyfathrebu;
- sicrhau bod pob grŵp blwyddyn yn cael ei gynrychioli (mewn ysgolion);
- ehangu'r fframwaith cyfranogi (mewn fforymau ieuenctid) a sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cymryd rhan yn well mewn fforymau awdurdodau lleol ac ysgolion;
- cysylltu â grwpiau a gweithgareddau cyfranogol sydd eisoes yn bodoli; a
- thargedu pobl ifanc heb gynrychiolaeth ddigonol a dadansoddi bylchau.

2.29 **Darparu amrywiaeth o weithgareddau a dulliau cyfathrebu:** roedd rhai o'r ysgolion yr ymgynghorwyd â nhw'n ceisio sicrhau bod gweithgareddau cyfranogol mor gynrychioladol â phosibl drwy gynnal gweithgareddau oedd wedi'u cynllunio i

apelio at amrywiaeth mor eang â phosibl o ddiddordebau. Roedd y dull gweithredu hwn yn arbennig o amlwg yn yr ysgolion cynradd a'r ysgol arbennig, ond yn llai amlwg mewn ysgolion uwchradd. Roedd yn anoddach i ysgolion uwchradd a fforymau ieuenctid wneud hyn oherwydd gofynion y cwricwlwm ac oherwydd eu bod yn gweithio ar raddfa mwy o lawer. Roedd cynnig amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu i alluogi plant a phobl ifanc i fynegi eu safbwyntiau hefyd yn helpu i sicrhau bod dulliau cyfranogol mor gynrychioladol â phosibl.

2.30 Llwyddodd ysgolion i gynyddu lefelau cynrychiolaeth hefyd drwy **sicrhau bod pob grŵp blwyddyn yn cael ei gynrychioli** mewn gweithgareddau cyfranogol.

2.31 **Ehangu'r fframwaith cyfranogi a sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cymryd rhan yn well mewn fforymau awdurdodau lleol ac ysgolion:** er enghraifft, strategaeth a ddefnyddiwyd gan un fforwm ieuenctid i gyrraedd mwy o bobl ifanc yn y gymuned leol oedd creu Senedd Ieuenctid. Llwyddodd hyn i sicrhau dosbarthiad daearyddol gwell o ran gweithgareddau cyfranogol ledled yr awdurdod lleol ac i gynyddu nifer y bobl ifanc a oedd yn cymryd rhan, gan helpu i ateb y feirniadaeth nad oedd y fforwm yn cynrychioli pobl ifanc yn y gymuned leol. Roedd y broses o ddefnyddio pobl ifanc i bennu gweithdrefnau recriwtio ar gyfer y senedd yn sicrhau eu bod yn gyfrifol am y broses o'r cychwyn.

2.32 Fel y nodwyd eisoes ar lefel fforymau ieuenctid, roedd **cysylltu â grwpiau/fforymau sydd eisoes yn bodoli** yn un ffordd o recriwtio pobl ifanc, ond roedd hyn yn golygu bod cynrychiolaeth y fforymau yn dibynnu ar nifer y grwpiau lleol y cysylltwyd â nhw i recriwtio aelodau.

| **Ffigur 2.8: Sut mae Ysgolion/Fforymau Ieuenctid yn Sicrhau eu bod yn Gynrychioladol??** |
| --- |
| **Cynnig Amrywiaeth o Weithgareddau a Dulliau Cyfathrebu** |
| Roedd gweithgareddau mewn ysgolion yn cynnwys: cyngor ysgol, eco-gyngor, ysgol goedwig, cyfryngu cymheiriaid, gwaith ysgolion iach, a gweithgareddau cymunedol a mentergarwch. Ni allai'r ysgol arbennig enwi pobl ifanc nad oeddent yn cymryd rhan mewn dulliau cyfranogol gan eu bod i gyd yn cael eu cynnwys mewn rhyw ffordd, gan adlewyrchu'r ffaith eu bod yn gweithredu dull 'ysgol gyfan' mewn perthynas â chyfranogi.<br><br>Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu, fel bocsys awgrymiadau a phryderon a gweithgareddau drama a llafar, i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu mynegi eu safbwyntiau mewn fformatau amrywiol ac i sicrhau bod cymaint o blant a phobl ifanc â phosibl yn gallu cyfranogi. |
| **Sicrhau bod pob Grŵp Blwyddyn yn Cael ei Gynrychioli** |
| Nododd pennaeth un o'r ysgolion cynradd y manteision o gynnwys POB grŵp blwyddyn yng ngweithgareddau cyngor yr ysgol. Teimlwyd bod y dull hwn yn llwyddiannus oherwydd bod y disgyblion iau yn cael cymorth gan ddisgyblion hŷn. Roedd aelodau o staff hefyd yn nodi pa mor bwysig oedd caniatáu pob disgybl i sefyll mewn etholiad a pheidio â gwahardd neb ar sail ymddygiad. |

2.33 Roedd y plant a phobl ifanc nad oeddent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogol yn teimlo bod eu lleisiau'n cael eu clywed; roedd hyn yn arbennig o wir mewn ysgolion cynradd. Codwyd mwy o faterion mewn ysgolion uwchradd lle'r oedd yn ymddangos bod llai o ddisgyblion yn cysylltu â'r broses. Roedd disgyblion ysgolion cynradd yn fwy tebygol o deimlo'n rhan o'r broses ac o ddweud *'rydym i gyd yn aelodau o gyngor yr ysgol'.* Yn yr un modd, roedd disgyblion a staff yn yr ysgol arbennig yn teimlo ei bod hi'n haws i ddisgyblion leisio eu barn oherwydd bod yr ysgol yn gweithredu mwy fel ysgol gynradd.

2.34 Mewn cyferbyniad, roedd disgyblion ysgolion uwchradd yn llai tebygol o wybod beth oedd yn digwydd o safbwynt cyngor yr ysgol ac o deimlo'n rhan o'r broses. Mae'n amlwg bod angen gwella'r agwedd hon, gan ei bod hi'n ymddangos bod cyfranogiad mewn rhai ysgolion yn broses symbolaidd o hyd. Mae'r canfyddiadau hyn yn codi cwestiwn am ba mor effeithiol yw cynrychiolwyr, beth bynnag yw nodweddion personol neu ble bynnag maen nhw. Mae gwaith ymchwil blaenorol yng Nghymru wedi dangos na allai 30-40 y cant o ddisgyblion enwi eu cynrychiolydd ar y cyngor (Y Ddraig Ffynci, 2008). Yn yr un modd, dangosodd gwaith ymchwil yn Lloegr (Ireland et al., 2006) nad oedd gan rai grwpiau o fyfyrwyr syniad o gwbl am sut oedd cyngor yr ysgol i fod i weithio a pha weithgareddau roedd cynrychiolwyr yn eu cyflawni.

### *Pa mor gynrychioladol ydyn nhw?*

2.35 Ar ôl trafod y strategaethau a ddefnyddiwyd gan ysgolion a fforymau ieuenctid i wella cynrychiolaeth, rydym nawr yn ystyried rhai o'r bylchau a'r heriau a nodwyd mewn perthynas â pha mor gynrychioladol oedd dulliau cyfranogol. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar y canlynol:-

- nid oedd grwpiau oedran penodol yn cael eu cynrychioli; a
- roedd pa mor aml y cynhelid cyfarfodydd yn effeithio ar i ba raddau roedd dulliau gweithredu yn gynrychioladol.

2.36 **Nid oedd grwpiau oedran penodol yn cael eu cynrychioli** nac yn cyfranogi mewn rhai o'r lleoliadau yr ymwelwyd â nhw. Roedd hyn yn cynnwys plant ysgolion cynradd iau[5] a phobl ifanc oedran ôl-ysgol uwchradd (h.y. 18 oed a hŷn). Nid oedd grwpiau oedran iau yn cael eu cynrychioli ar y lefel gymunedol; er enghraifft, roedd mwyafrif yr aelodau o fforymau ieuenctid yn 11 oed a hŷn. Nododd cynrychiolwyr o fforymau ieuenctid fod cynnwys pobl ifanc 18 oed a hŷn a sicrhau eu bod yn cymryd rhan yn her benodol. O ganlyniad i faterion mynediad, teimlodd un Cydgysylltydd Fforwm Ieuenctid fod angen gweithiwr ieuenctid dynodedig i weithio gyda'r grŵp oedran hwn. Ar y llaw arall, problem benodol i'r bobl ifanc anabl y siaradwyd â nhw oedd prinder gweithgareddau cyfranogol ar eu cyfer pan roeddent yn 24 oed a hŷn.

---

5 Mae Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005 yn datgan y dylai o leiaf un disgybl o bob blwyddyn o Flwyddyn 3 ymlaen gael ei ethol i gyngor yr ysgol. Roedd un ysgol gynradd yn yr astudiaeth yn ethol disgyblion Blwyddyn 6 yn unig i gyngor yr ysgol, roedd un arall yn cynnwys disgyblion 7 oed a hŷn, tra bod un arall yn cynnwys disgyblion oed derbyn a hŷn.

2.37 Roedd **pa mor aml y cynhelid cyfarfodydd cynghorau ysgol a fforymau ieuenctid** yn amrywio'n fawr, o unwaith yr wythnos i unwaith bob hanner tymor[6]. Roedd pa mor aml y cynhelid cyfarfodydd yn debygol o effeithio i ba raddau roedd y prosesau cyfranogol yn effeithiol a chyfranogol.

| **Ffigur 2.9: Bylchau a Heriau sy'n Gysylltiedig â Chynrychiolaeth** |
|---|
| **Grwpiau Oedran Penodol heb eu Cynrychioli** |
| '*Mae'n llawer anoddach ymgysylltu â phobl ifanc 17-25 oed gan eu bod yn gallu teimlo eu bod yn rhy hen i Gyngor Ieuenctid, ac mae ganddyn nhw flaenoriaethau eraill yn eu bywydau"* (cydgysylltydd fforwm ieuenctid). |
| **Pa Mor Aml y Cynhelid Cyfarfodydd** |
| Roedd rhai aelodau o gynghorau ysgol mewn ysgolion uwchradd yn teimlo y dylent gyfarfod yn amlach: '*Rwy'n teimlo y dylem gyfarfod yn amlach'* a *'gallem gyfarfod yn amlach'.* |

**Materion Yn Ymwneud â Chynhwysiant**

2.38 Nododd aelodau o staff fod **grwpiau penodol heb gynrychiolaeth ddigonol** mewn rhai lleoliadau. Roedd y rhain yn cynnwys: Sipsiwn-Teithwyr, plant a phobl ifanc o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, ceiswyr lloches a ffoaduriaid, mamau ifanc a gofalwyr ifanc. Mae hyn yn codi cwestiynau am gynnwys plant a phobl ifanc o'r fath mewn gweithgareddau cyfranogol.

2.39 A yw ysgolion/fforymau ieuenctid wedi cwestiynu pa mor gynhwysol yw eu gweithgareddau cyfranogol? Roedd hyn yn dechrau digwydd, ond roedd hi'n amlwg bod angen datblygu'r maes ymhellach mewn nifer o'r lleoliadau yr ymwelwyd â nhw (yn enwedig mewn ysgolion uwchradd). Er enghraifft, roedd ysgolion uwchradd yn cydnabod yr angen i sicrhau bod disgyblion a oedd wedi ymddieithrio yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogol, ond roeddent yn ei chael hi'n anodd cyflawni hyn. Cafwyd enghreifftiau hefyd o fyfyrwyr a oedd wedi ymddieithrio yn cael eu gwahardd rhag bod yn aelodau o gyngor yr ysgol (gweler Ffigur 2.10).

2.40 Cafwyd enghreifftiau o dargedu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys: gwaith ieuenctid datgysylltiedig; darpariaeth symudol mewn ardaloedd gwledig; a gwaith rhagweithiol gyda rhieni ifanc a gofalwyr ifanc. Er mwyn asesu pa mor gynrychioladol oedd eu gweithgareddau cyfranogol, cynhaliodd staff mewn un fforwm ieuenctid 'ddadansoddiad o fylchau' i nodi grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, cyn mynd ati i geisio mynd i'r afael â'r diffygion (gweler Ffigur 2.10).

2.41 Mae angen i ysgolion roi mwy o gyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogol, yn enwedig i'r rhai na fyddent yn debygol o wirfoddoli. Er enghraifft, roedd diffyg cyfranogiad disgyblion Sipsiwn-Teithwyr yn broblem benodol mewn un ysgol gynradd. Nid oeddent yn cael eu hethol i gyngor yr ysgol gan nad oeddent yn aros yn yr ysgol yn hir gan amlaf, ac oherwydd safbwyntiau

---

6 Mae Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005 yn datgan y dylid cynnal isafswm o chwe chyfarfod o gyngor yr ysgol bob blwyddyn.

negyddol eu cymheiriaid. Mae'n bosibl bod hyn yn awgrymu y dylid mynd i'r afael â safbwyntiau pobl nad ydynt yn Sipsiwn-Teithwyr am ddisgyblion Sipsiwn-Teithwyr a chyflwyno gweithdrefnau mwy hygyrch i'w galluogi i gyfranogi.

2.42 Dylai ysgolion a lleoliadau eraill hefyd ystyried sefydlu gweithdrefnau i sicrhau bod plant a phobl ifanc nad ydynt yn awyddus i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogol ffurfiol yn cael cyfleoedd i fynegi eu safbwynt ar faterion penodol.

| **Ffigur 2.10: Materion Yn Ymwneud â Chynhwysiant** |
|---|
| |
| Beirniadwyd dau fforwm ieuenctid gan arolygwyr Estyn am nad oeddent yn cynrychioli pobl ifanc yn eu cymunedau lleol. Mewn un yn benodol, awgrymwyd nad oedd pobl ifanc yn gwybod am fodolaeth y Fforwm Ieuenctid neu os oedden nhw'n gwybod am ei fodolaeth, nid oeddent yn gwybod sut i gymryd rhan.<br><br>Nododd disgyblion mewn ysgol uwchradd fod Pennaeth Blwyddyn wedi atal un disgybl rhag sefyll yn etholiad cyngor yr ysgol oherwydd ei fod yn destun camau disgyblu. Roedd y disgyblion yn teimlo'n eithaf cryf y dylai'r unigolyn hwn '*fod wedi cael cyfle… Dylai pawb gael cyfle, cyfle i wella. Mae'n bosibl y byddai'n teimlo'n fwy o ran o bethau. Hwyrach y byddai'n dod â safbwynt gwahanol… Efallai byddai'n syniad da cael rhywun drwg ar y cyngor – hwyrach byddai ganddo safbwyntiau gwahanol i bawb arall'.* |
| **Gwella Mynediad i Fforymau Awdurdodau Lleol ac Ysgolion** |
| Roedd sicrhau bod fforwm awdurdod lleol yn fwy hygyrch yn golygu bod modd cynnwys amrywiaeth ehangach o blant a phobl ifanc. Er enghraifft, roedd hi'n anodd i gynrychiolwyr cyngor yr ysgol arbennig fynychu Fforwm Cynghorau Ysgol yr Awdurdod Lleol. Er mwyn datrys y broblem hon, roedd y fforwm yn bwriadu cynnal cyfarfodydd mewn lleoliadau gwahanol i sicrhau bod disgyblion yr ysgol arbennig yn gallu eu mynychu ac i ddatblygu system lle bo cynghorau ysgol yn ymweld â'i gilydd i rannu arferion da.<br><br>Roedd ysgolion hefyd yn rhoi cymorth i bobl ifanc ag anghenion ychwanegol i sicrhau eu bod yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogol, gan gynnwys pobl ifanc â sgiliau sylfaenol gwael a rhai nad ydynt yn gallu cyfathrebu ar lafar.<br><br>Mewn un awdurdod lleol, mae'r uwch weithiwr ieuenctid yn cyfarfod â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol na allant fynychu cyfarfodydd y fwrdeistref er mwyn eu hysbysu am yr hyn a drafodwyd a rhoi cyfle iddynt ychwanegu eu safbwyntiau. Mae'r fforwm ieuenctid hefyd yn darparu cyfleusterau, fel crèche ar gyfer mamau ifanc, i'w galluogi i fynychu cyfarfodydd a digwyddiadau.<br><br>**Cysylltu â phrosiectau ieuenctid datgysylltiedig sy'n bodoli'n barod**<br><br>Nododd rheolwr gwasanaeth ieuenctid fod y fforwm ieuenctid yn cysylltu â phrosiect cyfiawnder ieuenctid newydd er mwyn datblygu ei gysylltiadau â phobl ifanc heb gynrychiolaeth ddigonol. Roedd yr heddlu a grwpiau cymunedol yn nodi pobl ifanc a oedd yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol, ac fe gawsant eu cynnwys yn |

| Ffigur 2.10: Materion Yn Ymwneud â Chynhwysiant |
| --- |
| |
| y prosiect a reolwyd gan weithiwr ieuenctid llawn amser (o'r tîm ymyrraeth gynnar). Bydd y tîm yn *'gweithredu ar unwaith mewn ardaloedd â phroblemau'* ac yn cynnwys pobl ifanc yn y gwaith sydd eisoes yn digwydd yn yr ardal, gan gynnwys gweithgareddau cyfranogol.<br><br>Ar ôl yr etholiadau, nododd cydgysylltydd y fforwm ieuenctid y byddai'r fforwm *'yn ystyried pwy sydd gennym ac wedyn argyhoeddi'r grwpiau sydd â bylchau o'r manteision'*. Roedd y fforwm wedi mynd ati i dargedu ardaloedd heb gynrychiolaeth ddigonol: '*Roeddem yn poeni nad oedd y cyngor yn cynrychioli cymuned Bwylaidd y sir, felly cynghorais nifer o ysgolion i roi pobl ifanc Pwylaidd ar eu cynghorau ysgol waeth a oeddent wedi'u hethol ai peidio iddynt gael gwasanaethu ar y cyngor ieuenctid wedyn.'* |

# 3. MANTEISION CYFRANOGI

**Canfyddiadau Allweddol: Manteision Cyfranogiad**

**Manteision i Blant a Phobl Ifanc**

- Roedd y gwaith astudiaeth achos yn adlewyrchu canfyddiadau'r adolygiad o lenyddiaeth (Kendall, 2008), a ddangosodd fod y rhai yr ymgynghorwyd â nhw yn fwyaf tebygol o nodi manteision i blant a phobl ifanc. Y manteision mwyaf cyffredin oedd datblygu sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiad penodol. Pwynt allweddol a gododd y rhai yr ymgynghorwyd â nhw oedd y gallu i drosglwyddo'r sgiliau hyn o un lleoliad i'r llall.
- Canlyniadau eraill a nodwyd oedd:-
  - helpu plant a phobl ifanc i siarad ar ran plant a phobl ifanc eraill;
  - grymuso plant a phobl ifanc i wneud gwahaniaeth;
  - gwella'r berthynas ag oedolion/cymheiriaid a gwella'r gallu i weithio gydag eraill;
  - manteision cymdeithasol (gwneud ffrindiau newydd) cyfranogiad.
- Gwelwyd manteision cadarnhaol mewn perthynas ag ymddygiad a chyflawniad, ond roedd staff yn nodi'r anhawster o allu profi effaith cyfranogiad ar y canlyniadau mesuradwy 'anoddach' hyn.

**Manteision i sefydliadau**

- Roedd y rhai yr ymgynghorwyd â nhw wedi nodi llai o fanteision i sefydliadau na manteision i blant a phobl ifanc. Y fantais fwyaf cyffredin oedd y ffaith fod cyfranogiad yn arwain at newid cadarnhaol mewn arferion, gwasanaethau a chyfleusterau sefydliadau.
- Roedd y manteision cyffredin eraill yn cynnwys: newidiadau i awyrgylch ac amgylchedd y sefydliad neu'r gymuned; mwy o ymwybyddiaeth o anghenion plant a phobl ifanc a chyfleusterau'n diwallu eu hanghenion yn fwy priodol; a datblygiadau polisi a strategol gwell.

**Manteision i staff**

- Roedd y rhain yn fwyaf tebygol o ganolbwyntio ar y gred fod mabwysiadu dulliau cyfranogol wedi arwain at: well perthynas rhwng staff â phlant a phobl ifanc a gwell dealltwriaeth o'u hanghenion.

**Manteision i gymunedau a rhieni**

- Ni nodwyd manteision o'r fath yn aml. Er gwaethaf y dystiolaeth gyfyngedig, roedd rhai enghreifftiau diddorol o wella'r meysydd canlynol: cyfranogiad rhieni mewn ysgolion; canfyddiadau o blant a phobl ifanc yn y gymuned; ac adnoddau/cyfleusterau cymunedol.

| Canfyddiadau Allweddol: Manteision Cyfranogiad |
| --- |
| **Dulliau adborth a mesur effaith**<br>• Nododd staff eu bod yn fwyaf tebygol o roi adborth ysgrifenedig i blant a phobl ifanc ar eu cyfraniad at brosesau cyfranogi.<br>• Lle'r oedd yn digwydd, roedd y gwaith o fesur effaith cyfranogiad yn gymharol anffurfiol, ac ychydig iawn o leoliadau oedd â dulliau ffurfiol o asesu effaith. Roedd gan staff mewn ysgolion safbwyntiau gwahanol am yr angen i fesur a phrofi effaith cyfranogiad yn ffurfiol. |

## Cyflwyniad

3.1 Roedd y gwaith astudiaeth achos yn adlewyrchu canfyddiadau'r adolygiad o lenyddiaeth (Kendall, 2008), a ddangosodd fod y rhai yr ymgynghorwyd â nhw yn fwyaf tebygol o nodi manteision i blant a phobl ifanc (e.e. Kirby 2002). Roedd llawer o'r canlyniadau a nodwyd gan y rhai yr ymgynghorwyd â nhw'n gydgysylltiedig. Er enghraifft, teimlwyd bod y broses o ddatblygu sgiliau a gwybodaeth benodol wedi gwella hunanhyder, gan arwain at wella cymhelliad.

**Manteision i Blant a Phobl Ifanc**

**Datblygu Sgiliau, Gwybodaeth ac Ymddygiad Penodol**

3.2 Nododd nifer sylweddol o'r astudiaethau yn ein hadolygiad o lenyddiaeth (Kendall, 2008) fod cyfranogiad yn helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth benodol, yn enwedig sgiliau gwneud penderfyniadau (Kirby, 2002 a Cashmore, 2002); sgiliau cyfathrebu a chydweithredu (Hannam, 2001); sgiliau yn ymwneud â chyflogaeth (Oliver et al., 2006); a sgiliau'n ymwneud â meysydd gwybodaeth penodol, fel gwleidyddiaeth, dinasyddiaeth a democratiaeth (Halsey et al., 2006 a Davies et al., 2006).

3.3 Yn yr un modd, nododd y rhai yr ymgynghorwyd â nhw mai manteision mwyaf cyffredin cyfranogiad i blant a phobl ifanc oedd datblygu sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiad penodol. Roedd y rhain wedi'u nodi i'r un graddau gan blant, pobl ifanc ac aelodau o staff ym mhob un o'r lleoliadau yr ymwelwyd â nhw ac eithrio un (gweler Ffigur 3.1 am enghreifftiau).

3.4 Pwynt allweddol a gododd staff, plant a phobl ifanc oedd y gallu i drosglwyddo'r sgiliau hyn rhwng lleoliadau. Er enghraifft, nododd pobl ifanc ei bod yn bosibl iddynt drosglwyddo'r sgiliau yr oeddent wedi'u dysgu yn y fforwm ieuenctid i'r ysgol, gan eu gwneud yn fwy hyderus i ofyn cwestiynau yn y dosbarth. Nododd disgyblion hefyd fod eu hunanhyder wedi cynyddu o ganlyniad i'w haelodaeth o gyngor yr ysgol, ac roedd hyn wedi'u gwneud yn fwy parod i ofyn cwestiynau a lleisio barn yn y dosbarth. Roedd rhai o'r farn eu bod yn gwrando'n well mewn gwersi.

3.5 Datblygu sgiliau cyflwyno oedd y prif sgil a nodwyd. Ymysg y sgiliau bywyd/gwaith allweddol eraill a nodwyd gan y rhai yr ymgynghorwyd â nhw oedd:-

- sgiliau gwneud penderfyniadau, gwrando a thrafod;
- sgiliau gwaith, menter a chyllidebu;
- datrys problemau, dulliau sy'n canolbwyntio ar atebion, a meddwl beirniadol gwell;
- gwell ymwybyddiaeth o brosesau democrataidd.

| **Ffigur 3.1: Manteision Cyfranogiad i Blant a Phobl Ifanc** |
|---|
| **Datblygu Sgiliau, Gwybodaeth ac Ymddygiad Penodol** |
| *'Rwyf wedi dysgu sut i siarad a chyflwyno fy safbwynt mewn cyfarfodydd'* (disgybl ysgol uwchradd).<br><br>*'Rwy'n llawer mwy parod i ofyn cwestiynau a mynegi fy marn mewn dosbarthiadau nawr'* (disgybl ysgol uwchradd).<br><br>*'Rwyf wedi dysgu bod fy safbwynt yn werthfawr ac na ddylwn fod ofn ei fynegi'* (disgybl ysgol uwchradd).<br><br>*'Yn sgil y gwaith cyfryngu, rwyf wedi dysgu sut i ymwneud â phlant bach a sut i wneud iddynt deimlo'n well. Bydd hynny'n ddefnyddiol eto yn y dyfodol'* (disgybl ysgol gynradd, cyfryngwr cymheiriaid).<br><br>*'Mewn cyfarfodydd cyngor yr ysgol mae'n rhaid i chi ddysgu gwrando ar bobl a'u syniadau. Pan ydych chi yn yr ystafell ddosbarth wedyn rydych chi'n gwybod y dylech wrando os oes gan rywun arall syniad'* (disgybl ysgol gynradd). |

3.6 Roedd y canlyniadau cadarnhaol a nodwyd gan y rhai yr ymgynghorwyd â nhw ym mhob lleoliad ond dau yn canolbwyntio ar y farn fod cyfranogiad: yn helpu plant a phobl ifanc i siarad ar ran plant a phobl ifanc eraill; yn gwneud i blant a phobl ifanc deimlo y gallent wneud gwahaniaeth; ac yn gwella'r berthynas ag oedolion a/neu gymheiriaid.

- **helpu plant a phobl ifanc i siarad ar ran plant a phobl ifanc eraill:** yn ôl aelodau o staff, dyma'r prif reswm pam bod llawer o blant a phobl ifanc wedi dechrau cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogol, h.y. maent yn credu y dylai plant a phobl ifanc gael cyfle i leisio barn am y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Roedd sylwadau gan blant a phobl ifanc yn cadarnhau'r safbwynt hwn (gweler Ffigur 3.2);
- **teimlo eu bod yn gallu gwneud gwahaniaeth:** roedd tystiolaeth bod plant a phobl ifanc yn teimlo y gallent wneud gwahaniaeth a'u bod yn teimlo eu bod yn fwy effeithiol fel unigolion. Darparwyd enghreifftiau clir o'u heffaith ar amgylchedd ysgolion a chyfleusterau gwell yn yr ysgolion a'r fforymau ieuenctid yr ymwelwyd â nhw (gweler Ffigur 3.2);

- **gwella’r berthynas ag oedolion/cymheiriaid** a **gwella’r gallu i weithio ag eraill.** Roedd y llenyddiaeth a adolygwyd hefyd yn dangos bod cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogol yn gallu gwella perthynas plant a phobl ifanc ag oedolion (e.e. Hannam, 2001; Franklin a Sloper, 2005) a’u cymheiriaid (e.e. Kirby, 2002):-

  - ***gwella’r berthynas ag oedolion***: y brif effaith a nodwyd ar lefel fforwm ieuenctid/gymunedol oedd mynd i’r afael ag ystrydebau o safbwynt cenedlaethau. Roedd hwn yn fater allweddol i bobl ifanc, ac fel y nodwyd eisoes, roedd yn un o’r prif resymau pam eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogol ar y lefel hon. Y brif effaith a nodwyd mewn ysgolion oedd bod dulliau cyfranogol yn darparu cyfleoedd i ddatblygu perthynas agosach a mwy aeddfed rhwng staff/oedolion eraill a disgyblion;
  - ***gwella’r berthynas â chymheiriaid***: dywedodd plant a phobl ifanc mewn ysgolion a fforymau ieuenctid fod gweithgareddau cyfranogol yn gyfle iddynt gymysgu â phobl ifanc o grwpiau oedran gwahanol ac, o safbwynt fforymau ieuenctid, o gefndiroedd ac ardaloedd gwahanol: ‘*cyfarfod â phobl newydd na fyddwn yn eu cyfarfod fel arfer’* (aelod o fforwm ieuenctid);
  - ***gwella’r gallu i weithio ag eraill***: roedd staff yn y mwyafrif o leoliadau yn teimlo fod cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogol wedi gwella gallu plant a phobl ifanc i weithio ag eraill. Cysylltwyd y canlyniadau hyn â chynnydd mewn hyder i weithio fel tîm, er enghraifft, ar draws blynyddoedd (gweler Ffigur 3.2).

3.7 Nododd plant a phobl ifanc ym mhob lleoliad **fanteision cymdeithasol** cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogol, gan gynnwys *‘cael hwyl’* a *‘gwneud ffrindiau’*. Elfen bwysig o’r gwaith cyfranogi cymunedol oedd y cyfleoedd cymdeithasol a ddeilliai ohono i bobl ifanc a oedd yn cymryd rhan mewn cynllunio a threfnu’r gweithgareddau hyn, gan gynnwys cynnal asesiadau risg a threfnu trafnidiaeth a llety. Mewn ysgolion, dywedodd disgyblion eu bod wedi dechrau cymryd rhan oherwydd eu bod yn awyddus i wybod beth oedd yn digwydd a chael eu cynnwys ym ‘materion yr ysgol’. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd a manteision hysbysebu a hyrwyddo gweithgareddau cyfranogol ar lefel ysgol gyfan.

| Ffigur 3.2: Manteision cyfranogiad i blant a phobl ifanc |
|---|
| **Helpu Plant a Phobl Ifanc i Siarad ar ran Plant a Phobl Ifanc Eraill** |
| *'Mae cyfranogiad yn gyfle i chi ddangos eich bod chi'n oedolyn ifanc gyda hawliau a chyfrifoldebau a bod pobl yn ymddiried ynoch chi i wneud rhywbeth'* (unigolyn anabl ifanc). |
| **Teimlo eu bod yn Gallu Gwneud Gwahaniaeth** |
| Dywedodd aelodau'r fforwm ieuenctid mewn un awdurdod lleol fod ganddynt *'gysylltiad uniongyrchol â Chabinet a Phrif Weithredwr y Cyngor."* Nodwyd tair enghraifft benodol o newid ar lefel y cyngor:-<br><br>• cyflwyno cardiau adnabod ar gyfer pobl ifanc;<br>• cyflwyno gwasanaeth gwybodaeth ar ffurf negeseuon testun ar gyfer trigolion lleol; a<br>• buddsoddiad gan y cyngor i sefydlu gorsaf radio gymunedol a ddenodd gyllid pellach wedyn gan Gynulliad Cymru a'r Gronfa Loteri Fawr. '*Mae'r orsaf radio ei hun bellach yn llwyddo i ymgysylltu â phobl ifanc ledled y sir'* (cydgysylltydd y fforwm ieuenctid). |
| **Gwella'r Berthynas ag Oedolion** |
| Nododd cydgysylltydd fforwm ieuenctid yr enghraifft ganlynol lle'r oedd aelodau fforwm ieuenctid wedi ymweld â chartref hen bobl: '*Fe aethant i'r cartref i ddweud wrth yr hen bobl am y fforwm. Roedden nhw am ddileu unrhyw syniad bod pobl ifanc i gyd yn dda i ddim. Roedd yr hen bobl wrth eu bodd yn sgwrsio â nhw ac mae'r ymweliad wedi chwalu rhwystrau ac ofn. Maen nhw'n awyddus i wneud pethau eraill eto yn y dyfodol'*.<br><br>'*Ar ôl i chi siarad â phobl* [oedolion] *sy'n mynychu cyfarfodydd cyngor yr ysgol, rydych chi'n teimlo'n fwy parod i siarad â phobl eraill. Os ydych chi'n gweld rhywun pwysig, byddwch chi'n dweud wrthyn nhw fod yr ysgol yn gwneud gwaith da.'* (disgybl ysgol gynradd). |
| **Gwella'r Gallu i Weithio ag Eraill** |
| Yn ôl un pennaeth ysgol gynradd: '[mae'r gweithgareddau cyfranogol] *yn cyflwyno disgyblion i waith tîm y tu allan i 'sefyllfa gyfforddus arferol eu hystafell ddosbarth'* [sy'n arwain at] *gynnydd mewn hyder i allu gweithio mewn tîm achos bod y disgyblion wedi cael mwy o ymarfer.*<br><br>'[Rwyf] *wedi dysgu sut i gymryd rhan mewn trafodaeth grŵp a sut i sicrhau fy mod i'n lleisio fy marn mewn grŵp*. [Rwyf wedi dysgu sut i weithio fel aelod o dîm a oedd yn] *dipyn o gamp i mi achos nid oeddwn yn gallu gweithio mewn tîm o'r blaen'.* Nododd yr aelodau eu bod yn rhoi cymorth i'w gilydd hefyd ac wedi dysgu *'peidio â thorri ar draws, cymryd ein tro i siarad, a chydweithio er mwyn sicrhau canlyniad'*. |

3.8 Roedd y manteision i blant a phobl ifanc, a nodwyd gan gyfranogwyr mewn tua thri chwarter o'r lleoliadau yr ymwelwyd â nhw, yn canolbwyntio ar eu barn

amdanyn nhw eu hunain a'u barn am bobl eraill: datblygiad personol (gwell hunan-barch/hunanhyder a chymhelliad); cynnydd mewn ymgysylltu â'r ysgol/dysgu/cymdeithas sifil; gwell goddefgarwch/parch i eraill; a datblygu dealltwriaeth well o bwysigrwydd cyfranogi:-

- **datblygiad personol** (gwell hunan-barch/hunanhyder a chymhelliad): roedd y gwelliannau hyn yn gysylltiedig â datblygu sgiliau a gwybodaeth benodol. Er enghraifft, enillodd plant a phobl ifanc hyder i siarad o flaen cynulleidfaoedd, oedolion a *'phobl bwysig'* a'r hyder i wneud penderfyniadau anodd. Roedd yr effaith hon wedi'i nodi gan staff a phobl ifanc ac roedd y llenyddiaeth a adolygwyd wedi'i nodi fel y fantais fwyaf cyffredin (Kendall, 2008) (er enghraifft, Davies et al., 2006; Halsey et al., 2006; Hannam, 2001; Haste, 2005).
- amlygwyd **cynnydd mewn ymgysylltu â'r ysgol/dysgu/cymdeithas sifil** mewn ffyrdd amrywiol, gan gynnwys ychydig o unigolion yn gwella eu presenoldeb, eu hymddygiad a'u cyflawniad yn yr ysgol. Yn ogystal, nodwyd cynnydd mewn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc fel canlyniad gan staff pob un o'r fforymau/rhwydweithiau ieuenctid;
- **gwell goddefgarwch/parch i eraill:** nododd y rhai yr ymgynghorwyd â nhw fod plant a phobl ifanc yn dod yn fwy ymwybodol o'u hawliau drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogol. Roedd staff mewn un ysgol gynradd yr ymwelwyd â hi hefyd yn ystyried hyn yn un o ganlyniadau allweddol cyfranogiad. Roedd ysgolion eraill yn canolbwyntio ar yr agwedd hon hefyd, ac fel y nodwyd yn gynharach, roedd yr ysgol arbennig wedi ennill 'Dyfarniad Ysgol sy'n Parchu Hawliau' UNICEF a oedd yn rhoi cryn sylw i godi ymwybyddiaeth myfyrwyr o'u hawliau. Roedd y llenyddiaeth a adolygwyd (Kendall, 2008) hefyd yn dangos bod cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogol yn gyfle i hyrwyddo gwerthoedd cadarnhaol, fel parch a goddefgarwch i eraill a gwell ymwybyddiaeth o anghydraddoldebau (Brady, 2004; Gilchrist a Maitles, 2004; a Kirby, 2002);
- o safbwynt y fforymau a'r rhwydweithiau ieuenctid a'r grwpiau cymunedol, roedd **datblygu dealltwriaeth well o bwysigrwydd cyfranogiad** yn ffocws/cylch gwaith clir ar gyfer eu gwaith, ac fe'u sefydlwyd i gyflawni'r nod hwn. Er enghraifft, pwysleisiodd pob person ifanc mewn un o'r grwpiau ba mor bwysig oedd cael llais, gan nodi bod y grŵp yn sicrhau'r cyfle hwnnw.

| Ffigur 3.3: Manteision Cyfranogiad i Blant a Phobl Ifanc |
| --- |
| **Datblygiad Personol** (gwell hunan-barch/hunanhyder a chymhelliad) |
| Cafwyd tystiolaeth bod hunanhyder disgyblion wedi codi yn y dosbarth o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyngor yr ysgol ynghyd ag enghreifftiau unigol o'u *'hunanhyder yn cynyddu'n aruthrol'* (pennaeth ysgol gynradd).<br><br>Awgrymodd rhai pobl ifanc na fyddent wedi gallu siarad mewn cyfarfodydd yn y gorffennol, ond diolch i'w gwaith yn y fforwm ieuenctid, roeddent bellach yn gallu arwain y cyfarfodydd hyn: '[cyn cymryd rhan yn y fforwm ieuenctid fyddwn i] *byth wedi siarad mewn cyfarfod. Erbyn hyn rwy'n eu cynnal nhw'* (aelod o fforwm ieuenctid).<br><br>*'Daeth grŵp o bobl i weld beth rydym ni'n ei wneud yn yr Eco-gyngor. Roedd rhaid i ni wneud cyflwyniad ar ein gwaith. Roeddwn i ychydig yn nerfus ar y dechrau ond fe aeth yn dda iawn…doeddwn i ddim mor nerfus yr ail waith'* (disgybl ysgol gynradd).<br><br>*'Weithiau mae'n rhaid i chi wneud penderfyniadau eitha' anodd, ond mae'n ymarfer da achos mae'n rhaid i chi wneud hynny drwy'r amser pan fyddwch chi'n hŷn'* (disgybl ysgol gynradd).<br><br>*'Pan eich bod chi'n cymryd rhan mewn gweithgareddau cyngor yr ysgol a gweithgareddau tebyg, mae pobl – oedolion – yn dod i'ch gweld chi a rhaid i chi siarad â nhw. Ar ôl hynny, rydych chi'n teimlo y gallwch siarad ag unrhyw un'* (disgybl ysgol gynradd).<br><br>Roedd pob un o'r bobl ifanc o'r rhwydwaith pobl anabl y siaradwyd â nhw yn teimlo bod eu cyfraniad at y rhwydwaith wedi cynyddu eu hyder i siarad yn gyhoeddus a lleisio eu barn. Cafwyd enghreifftiau unigol hefyd: pan ymunodd un person ifanc â'r rhwydwaith, *'ni fyddai'n siarad â neb, ond nawr mae hi'n hyderus iawn ac wedi gwneud llawer o ffrindiau'*. Ar y dechrau fe ddywedodd '*na allai symud i fyw'n annibynnol, ond erbyn hyn roedd hi wedi gweld eraill yn gwneud ac yn symud i fyw'n annibynnol ei hun'* (person ifanc).<br><br>'*Mae wedi gwneud i mi deimlo'n fwy hyderus wrth siarad o flaen pobl eraill ac ymwneud â phobl. Pan ddes i yma gyntaf roeddwn i mor nerfus, roedd rhaid i mi gael eiriolwr* [i siarad ar fy rhan]' (person ifanc). |
| **Cynnydd mewn Ymgysylltu â'r Ysgol/Dysgu/Cymdeithas Sifil** |
| Sylwodd aelod o staff a oedd yn gweithio gyda phobl ifanc anabl fod llawer o'r bobl ifanc wedi'u hynysu yn ofodol ac yn gymdeithasol, felly aeth y fforwm/rhwydwaith ati i roi cyfleoedd iddynt deimlo eu bod yn cael eu cynnwys. |
| **Gwell Goddefgarwch/Parch i Eraill** |
| Roedd y rhwydwaith pobl ifanc anabl yn rhoi 'llais' i bobl ifanc anabl yn ôl y staff a'r bobl ifanc eu hunain. Roedd hefyd wedi codi ymwybyddiaeth pobl ifanc o'u hawliau, er enghraifft, o safbwynt materion yn ymwneud â mynediad a sut i ymateb os yw eu hawliau yn cael eu hanwybyddu. Nododd pobl ifanc eu bod wedi datblygu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth well o anghenion ac anableddau pobl |

**Ffigur 3.3: Manteision Cyfranogiad i Blant a Phobl Ifanc**

ifanc anabl eraill. Roedd dulliau cyfranogol yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc herio agweddau ystrydebol am oedran, ethnigrwydd ac anabledd ac i bobl eraill herio eu hagweddau ystrydebol nhw.

Roedd y gwaith o adolygu Cynllun Sengl un awdurdod lleol wedi dangos i bobl *'bod pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl yn gallu cydweithio heb rwystrau'* (person ifanc anabl).

Sylwodd cydgysylltydd un fforwm ieuenctid fod aelodau'r fforwm bellach yn llawer mwy goddefgar o Bwyliaid mudol a oedd yn byw yn y gymuned: *'Nid yw'r bobl ifanc yn eu gweld fel Pwyliaid neu bobl mudol y mae cymaint o sôn amdanyn nhw yn y wasg, ond fel pobl ifanc leol. Maen nhw'n galw ei gilydd wrth eu henwau cyntaf ac mae rhywun yn gallu synhwyro bod yna oddefgarwch yn awr. Mae'r bobl ifanc wedi'u derbyn yn gyfan gwbl ac rwyf wedi gweld enghreifftiau o ymddygiad annerbyniol yn cael ei feirniadu'n hallt a'i rwystro'.*

Mae pobl ifanc '*yn deall anableddau yn well* [o ganlyniad i gymryd rhan yn y fforwm ieuenctid]. *Maen nhw'n deall pobl eraill yn well ac yn gallu uniaethu mwy … Roedd person ifanc yn sarhau person ifanc arall ag anabledd. Dywedodd un aelod o'r fforwm, 'dydyn ni ddim yn ymddwyn fel na' a deliodd â'r sefyllfa heb fod angen i unrhyw oedolyn ymyrryd"* (cydgysylltydd fforwm ieuenctid).

**Datblygu Dealltwriaeth Well o Bwysigrwydd Cyfranogiad**

Amlygwyd hyn mewn ysgolion cynradd gan y ffaith fod disgyblion yn deall ystyr cyfranogiad yn glir oherwydd eu cysylltiad â chynghorau ysgol. Nododd disgyblion mewn un ysgol eu bod i gyd yn teimlo'n rhan o gyngor yr ysgol (hyd yn oed y rhai nad oeddent yn aelodau ohono), gan adlewyrchu polisi'r ysgol o gael llawer o aelodau ar y cyngor. Roedd disgyblion yr ysgol hon hefyd yn awyddus i barhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogol ar ôl symud i'r ysgol uwchradd. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd sicrhau bod cyfleoedd ar gael ar gyfer cymaint o ddisgyblion â phosibl mewn ysgolion uwchradd. Weithiau roedd cyfleoedd i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau yn cael eu colli pan oedd disgyblion yn trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

I ddisgyblion eraill, roedd datblygu dealltwriaeth well o gyfranogiad yn fwy o elfen ddealledig. Er enghraifft, dywedodd rhai disgyblion eu bod wedi *'dysgu sut mae'n teimlo i fod yn aelod o Lywodraeth Cynulliad Cymru'* (disgybl cynradd) drwy eu gweithgareddau cyfranogol a nododd rhai eraill y gallai eu syniadau gael eu hanwybyddu oni bai am fodolaeth cyngor yr ysgol. Mae'r sylwadau hyn yn amlygu elfen o lwyddiant o safbwynt cyflawni amcanion fframwaith/agenda gyfranogiad Llywodraeth Cynulliad Cymru.

### Tystiolaeth o'r Effaith ar Gyrhaeddiad, Presenoldeb ac Ymddygiad

3.9 Roedd y llenyddiaeth a adolygwyd (Kendall, 2008) yn dangos rhywfaint o dystiolaeth gyfyngedig y gallai cyfranogiad arwain at wella lefelau **cyrhaeddiad, presenoldeb a/neu ymddygiad** plant a phobl ifanc, er bod yr awduron yn cydnabod pa mor anodd yw priodoli'r effaith yn uniongyrchol i brosesau neu weithgareddau

cyfranogol (Davies et al., 2006; Whitty a Wisby, 2007). Nododd Davies et al. (2006) fod effaith cyfranogiad ar ddysgu, cyrhaeddiad a pherfformiad yn bryderon allweddol yn aml iawn. Roeddent yn awgrymu nad oedd yn hawdd gwneud cysylltiadau a chymariaethau uniongyrchol, ond bod y 'dystiolaeth' i gyd yn ymddangos yn gadarnhaol.

3.10 Roedd canfyddiadau'r gwaith astudiaeth achos yn adlewyrchu canfyddiadau'r adolygiad o lenyddiaeth (Kendall, 2008). Roedd barn y rhai yr ymgynghorwyd â nhw'n gymysg ac nid oedd llawer o dystiolaeth ar gael ynglŷn ag effaith cyfranogiad ar gyrhaeddiad, presenoldeb a/neu ymddygiad plant a phobl ifanc, ond serch hynny roedd rhywfaint o dystiolaeth o welliant yn y meysydd canlynol:-

- **ymddygiad**: roedd staff yn fwyaf tebygol o nodi effeithiau ar ymddygiad plant a phobl ifanc. Teimlodd staff o saith lleoliad (ysgol yn bennaf) y gallent nodi gwelliannau mewn ymddygiad o ganlyniad i gyfranogiad plant a phobl ifanc mewn gweithgareddau cyfranogol. Mewn ysgolion cynradd, roedd staff yn cysylltu gwelliannau mewn ymddygiad â'r disgyblion yn teimlo'n gyfrifol ac yn rhan o bolisïau a strategaethau ymddygiad. Roedd staff o dair ysgol gynradd yn teimlo eu bod wedi gweld effaith gadarnhaol ar ymddygiad yr ysgol gyfan o ganlyniad i gyfranogiad disgyblion mewn gweithgareddau cyfranogol (trwy gyflwyno dulliau cyfryngu cymheiriaid a gwaith disgyblion ar adolygu polisïau ymddygiad yn bennaf);

- **cyrhaeddiad**: nododd staff dwy ysgol gynradd a dwy ysgol uwchradd welliannau mewn cyrhaeddiad y gellid, yn eu barn nhw, eu cysylltu (naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) â gweithgareddau cyfranogiad (gweler Ffigur 3.4). Mewn fforymau ieuenctid, roedd hi'n anodd priodoli gwelliannau mewn cyrhaeddiad pobl ifanc yn yr ysgol, ond cyflwynwyd enghreifftiau unigol lle'r oedd hi'n ymddangos bod cyfranogiad pobl ifanc mewn fforymau ieuenctid wedi helpu i wella eu cyrhaeddiad. Roedd gweithgareddau fforymau ieuenctid hefyd yn gyfle i bobl ifanc ennill cymwysterau ychwanegol sy'n berthnasol i'w gwaith cyfranogol[7]. Roedd aelodau o un fforwm ieuenctid wedi gwrthod y cyfle i gael achrediad ffurfiol am ei fod yn *'rhy debyg i'r ysgol'*;

- **presenoldeb**: staff a phobl ifanc dau leoliad yn unig a nododd fod cyfranogiad wedi gwella lefelau presenoldeb.

[7] Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi'n datblygu fframwaith achredu Rhwydwaith y Coleg Agored sy'n canolbwyntio ar gyfranogiad.

| Ffigur 3.4: Manteision Cyfranogiad i Blant a Phobl Ifanc |
|---|
| **Gwella Ymddygiad** |
| Nododd pennaeth un ysgol gynradd nad oedd polisi ymddygiad yr ysgol, a'r elfen gosbi'n benodol, yn berthnasol nac yn cael ei defnyddio bellach gan nad oedd disgyblaeth nac ymddygiad yn broblem. Teimlodd y pennaeth fod yna gysylltiad uniongyrchol a chryf iawn rhwng y canlyniad hwn a'r dulliau cyfranogol amrywiol a ddefnyddiwyd i ymgysylltu â disgyblion. Roedd staff yr ysgol yn cadarnhau hyn, gan nodi bod ymddygiad yn yr ysgol wedi *'gwella'n sylweddol'* ers cyflwyno'r dulliau hyn, i'r graddau nad oedd polisi rheoli ymddygiad yr ysgol yn berthnasol bellach ac nad oedd yr un athro yn gallu cofio achlysur yn ddiweddar pan oedd angen gweithredu cosb. Awgrymwyd mai'r broses o ddatblygu dull gweithredu ysgol gyfan oedd yn bennaf gyfrifol am hyn. Ar yr un pryd, roedd y prosiect cyfryngu cymheiriaid hefyd yn cael ei ystyried yn allweddol: '*ychydig o flynyddoedd yn ôl roedd gennym ni gell cosb. Dwi ddim yn meddwl ein bod ni wedi'i ddefnyddio ers tua phedair blynedd'.*<br><br>Nododd pennaeth ysgol gynradd arall fod y gwaith o reoli ymddygiad bellach yn cael ei arwain gan gymheiriaid ac mai anaml iawn yr oedd angen i athrawon ymyrryd i ddatrys problemau yn ystod amser chwarae.<br><br>Dywedodd pennaeth yr ysgol arbennig nad oedd ganddynt unrhyw broblemau gyda fandaliaeth yn yr ysgol oherwydd bod unrhyw ddigwyddiadau *'yn cael eu datrys yn gyflym gan y disgyblion gan eu bod yn rhan o'r broses o reoli tiroedd ac adeiladau'r ysgol'.* Roedd y teimlad hwn o gyfrifoldeb yn golygu bod disgyblion yn mynd ati'n gyflym i *'geryddu unrhyw un nad yw'n parchu hynny'.* Ategwyd y safbwynt hwn gan aelod o staff wrth siarad am ymddygiad yn fwy cyffredinol: '*ar ôl i chi roi cyfrifoldeb i ddisgyblion, mae ymddygiad yn gwella deg gwaith, unwaith maen nhw'n meddwl bod ganddyn nhw lais a bod rhywun mewn awdurdod yn gwrando'.* Cadarnhaodd un o ddisgyblion yr ysgol fod ei gyfraniad at weithgareddau cyfranogol wedi '*fy helpu i deimlo'n fwy o ran o'r ysgol. Yn lle bod sbwriel ym mhobman mae hi'n llawer glanach'.*<br><br>Dywedodd un pennaeth ysgol gynradd fod cyfrannu at waith cyngor yr ysgol a sefydlu cysylltiadau ag ysgol yn Affrica wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar ymddygiad un o ddisgyblion yr ysgol. Roedd bellach yn llai '*ymosodol ac roedd cymryd rhan mewn pethau o'r fath wedi cael dylanwad cadarnhaol arno'.* Roedd y disgybl hefyd o'r farn fod ei ymddygiad wedi gwella am fod ganddo *'fwy o bethau i'w gwneud a llai o bethau i ddadlau yn eu cylch'.* Sylwodd fod ganddo *'fwy o gyfrifoldeb'* a'i fod yn teimlo'n *'well am bethau … dwi ddim yn dadlau gyda phobl cymaint, dwi ddim yn mynd i'r ystafell athrawon cymaint* [oherwydd ymddygiad] *a dwi'n cael mwy o felysion* [oherwydd ymddygiad da]'. |
| **Effaith ar Gyrhaeddiad** |
| Cyfeiriodd staff mewn un ysgol gynradd at y ffaith fod cyrhaeddiad un disgybl wedi gwella'n sylweddol yn ystod ei gyfnod ar gyngor yr ysgol. O ganlyniad i hynny, mae'r ysgol nawr yn dechrau dadansoddi data cyrhaeddiad pob disgybl yn ystod eu hamser ar gyngor yr ysgol. Dyma enghraifft o staff yn gweld manteision cyfranogiad ac wedyn yn cydnabod manteision dadansoddi data i weld pa wahaniaeth y mae cyfranogiad yn ei wneud. |

| Ffigur 3.4: Manteision Cyfranogiad i Blant a Phobl Ifanc |
|---|
| Roedd staff mewn un ysgol uwchradd yn priodoli gwelliannau mewn cyrhaeddiad ar draws yr ysgol i'r broses o gyflwyno modiwlau mwy galwedigaethol. Roedd y rhain wedi'u cyflwyno diolch i waith cyngor yr ysgol a gwaith ymgynghori arall yr ysgol.<br><br>Dywedodd un pennaeth ysgol uwchradd iddi weld '*gwelliant enfawr ers i* [enw'r disgybl] *ddod i'r ysgol. Pe na bai wedi datblygu ei hyder* [drwy weithgareddau cyfranogol] *ni fyddai wedi cyrraedd lefelau cyrhaeddiad mor uchel'*. |
| **Gwella Presenoldeb** |
| Nododd aelod o fforwm ieuenctid fod cymryd rhan yng ngwaith y fforwm wedi cael effaith gadarnhaol ar ei phresenoldeb yn yr ysgol: '*mae'n eich helpu chi yn yr ysgol'.* Pan ymunodd hi a'i ffrind â'r fforwm roedd ganddi bresenoldeb o 50% yn yr ysgol ac roedd ei ffrind wedi'i gwahardd o'r ysgol. O ganlyniad i'w gwaith gyda'r fforwm roedd ei phresenoldeb yn yr ysgol wedi codi i 100% ac roedd hi a'i ffrind yn ennill gwobrau am helpu eraill yn yr ysgol. Pan ofynnwyd i'r person ifanc beth oedd y rheswm am hyn dywedodd na fyddai *'unrhyw ddiben'* gwneud hyn *'ar fy mhen fy hun'* [h.y. ceisio gwella ei phresenoldeb]. Fodd bynnag, nawr mae hi'n gallu *'gweld y diben'* oherwydd ei bod hi'n gweithio gydag eraill ac yn gweld manteision mynychu'r ysgol.<br><br>Teimlodd pennaeth un ysgol uwchradd fod y broses o gyflwyno pynciau mwy galwedigaethol i'r cwricwlwm (ar ôl ymgynghori â disgyblion) wedi gwella cymhellion a phresenoldeb, yn enwedig ymysg disgyblion nad oeddent, o bosibl, yn cymryd eu hastudiaethau o ddifrif cyn hynny: '*Mae wedi cael effaith go iawn ar bresenoldeb ac ar gyfraniad mewn dosbarthiadau… Mae llawer llai o ddisgyblion yn awyddus i newid pwnc nawr nag o'r blaen: dwy neu dair blynedd yn ôl byddai rhwng 15 ac 20 o ddisgyblion yn ceisio newid pwnc … roedd rhai'n gwrthod mynychu hyd yn oed. Y llynedd, ni ofynnodd yr un disgybl i newid pwnc'.* |

3.11 Nododd staff mewn ysgolion pa mor anodd yw priodoli newidiadau mewn cyrhaeddiad, ymddygiad a phresenoldeb i waith cyfranogol disgyblion. Roedd rhai'n teimlo y byddent yn hoffi cael cymorth i wneud hyn, tra bod eraill o'r farn eu bod eisoes yn casglu digon o ddata ac y byddai'r dasg hon yn ormod o faich.

**Manteision i Sefydliadau**

3.12 Nododd y rhai a gymerodd ran fod yna lai o fanteision i sefydliadau nag i blant a phobl ifanc, sy'n adlewyrchu canfyddiadau'r adolygiad o lenyddiaeth (Kendall, 2008). Aelodau o staff yn hytrach na phlant a phobl ifanc oedd yn fwy tebygol o nodi manteision i sefydliadau. Dyma'r manteision a nodwyd amlaf, yn nhrefn amlder:-

- newidiadau i arferion, gwasanaethau a chyfleusterau sefydliadau;
- newidiadau i awyrgylch ac amgylchedd y sefydliad neu'r gymuned;

- mwy o ymwybyddiaeth o anghenion plant a phobl ifanc a chyfleusterau'n diwallu eu hanghenion yn well; a
- datblygiadau polisi a strategol gwell.

3.13 Roedd y manteision i sefydliadau a nodwyd amlaf yn perthyn yn agos i'w gilydd, ac mae rhai o'r prif fanteision a nodwyd yn gorgyffwrdd:-

- **newidiadau i arferion, gwasanaethau a chyfleusterau sefydliadau:** Mae hyn yn adlewyrchu canfyddiadau'r adolygiad o lenyddiaeth a oedd hefyd yn nodi mai hon oedd y fantais fwyaf i sefydliadau a oedd wedi mabwysiadu arferion cyfranogol (e.e. Davies et al., 2006; Franklin a Sloper, 2005; Halsey et al., 2006; Treseder a Crowley, 2001). Nododd y rhai yr ymgynghorwyd â nhw ym mhob lleoliad astudiaeth achos ond un fod cyfranogiad plant a phobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau wedi newid arferion, gwasanaethau a chyfleusterau sefydliadau. Mewn ysgolion, roedd yn ymddangos bod cyfranogiad disgyblion a myfyrwyr wedi cael effaith gadarnhaol ar arferion a gwasanaethau sefydliadau o safbwynt: y defnydd o gosbau am gamymddwyn/yr angen am gosbau o'r fath; y cwricwlwm a dulliau addysgu; dulliau cyfathrebu; ac arferion rheoli mewn ysgolion. Cafwyd tystiolaeth o newidiadau i arferion a gwasanaethau awdurdodau lleol o ganlyniad i gyfranogiad pobl ifanc mewn fforymau ieuenctid hefyd (gweler Ffigur 3.5 am enghreifftiau);
- **newidiadau i awyrgylch ac amgylchedd y sefydliad neu'r gymuned**: dyma'r fantais a nodwyd amlaf ond un, ac fel y nodwyd eisoes, mae'n perthyn yn agos i'r fantais gyntaf. Ar lefel yr ysgol a'r gymuned (er i'r effaith hon gael ei nodi ar lefel yr ysgol yn bennaf), nodwyd bod cyfranogiad plant a phobl ifanc wedi arwain at wella amgylchedd ffisegol yr ysgol/cymuned (gweler Ffigur 3.5 am enghreifftiau);
- **mwy o ymwybyddiaeth o anghenion plant a phobl ifanc a chyfleusterau'n diwallu eu hanghenion yn well**: teimlodd y rhai yr ymgynghorwyd â nhw (staff yn bennaf) mewn tri chwarter y lleoliadau fod cyfranogiad plant a phobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau wedi'u gwneud yn fwy ymwybodol o anghenion plant a phobl ifanc (gweler Ffigur 3.5 am enghreifftiau);
- **datblygiadau polisi a strategol gwell**: nodwyd y rhain gan y rhai yr ymgynghorwyd â nhw mewn dros hanner y lleoliadau, mewn fforymau ieuenctid ac ysgolion uwchradd yn bennaf, sy'n adlewyrchu cylch gwaith gweithgareddau fforymau ieuenctid a'r ystod oedran hŷn. Serch hynny, roedd disgyblion mewn un ysgol gynradd wedi cyfrannu at y gwaith o newid polisi ymddygiad yr ysgol. Gwelwyd y brif effaith ar ddatblygiadau polisi a strategol mewn fforymau ieuenctid, mewn dau faes yn benodol: datblygu gweithdrefnau/dulliau adborth ac adolygu dogfennau/polisïau cyfredol; a dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau ym maes llywodraeth leol (gweler Ffigur 3.5 am enghreifftiau). Roedd effaith cyfrannu o'r fath yn llai eglur ac yn faes sydd angen ei ystyried ymhellach.

3.14 Roedd manteision eraill a nodwyd mewn chwe lleoliad neu lai yn canolbwyntio ar y canlynol, yn nhrefn amlder:-

- **cynghorau yn darparu gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc**: nodwyd y canlyniad hwn gan y rhai yr ymgynghorwyd â nhw o ysgolion uwchradd a fforymau ieuenctid yn unig. Mae enghreifftiau penodol i'w gweld yn Ffigur 3.5;
- **dyrannu adnoddau'n fwy priodol:** nodwyd y fantais hon gan y rhai yr ymgynghorwyd â nhw ym mhob math o leoliad. Roedd staff mewn ysgolion yn teimlo fod cyfranogiad wedi arwain at ddyrannu adnoddau'n fwy priodol oherwydd bod disgyblion yn gyfrifol am benderfynu sut i wario arian a godwyd gan yr ysgol neu'r eco-gyngor neu a ddyrannwyd iddynt;
- **gwella canlyniadau:** nodwyd y fantais hon gan staff mewn ysgolion yn unig. Nid oedd staff mewn fforymau ieuenctid/cymunedol yn gwybod a oedd canlyniadau i blant a phobl ifanc wedi gwella'n gyffredinol, ond roeddent yn gallu nodi achosion unigol o wella presenoldeb yn yr ysgol, er enghraifft. Fodd bynnag, nododd staff mewn ysgolion achosion o wella canlyniadau a oedd yn gysylltiedig â dulliau cyfranogol yn eu barn nhw (mae'r rhain eisoes wedi'u trafod yn Adran 3.8);
- **effaith ar bolisïau cenedlaethol:** nodwyd yr effaith hon gan y rhai yr ymgynghorwyd â nhw mewn fforymau/rhwydweithiau ieuenctid yn unig, o bosibl oherwydd eu bod yn fwy tebygol o gael effaith ar y lefel hon (gweler Ffigur 3.5 am enghreifftiau).

| **Ffigur 3.5: Manteision Cyfranogiad i Sefydliadau** |
|---|
| **Newidiadau i Arferion, Gwasanaethau a Chyfleusterau Sefydliadau: Ysgolion** |
| Mewn un ysgol uwchradd, defnyddiwyd adborth gan gyngor yr ysgol a chanlyniadau arolygon disgyblion i lywio'r hyn a drafodwyd mewn cyfarfodydd staff. Arweiniodd hyn at newidiadau i'r cwricwlwm a'r dulliau addysgu e.e. cyflwyno ffocws mwy ymarferol ar gyfer y cwricwlwm daearyddiaeth.<br><br>Yn yr ysgol arbennig roedd y system o reoli'r ysgol gyfan wedi cael ei newid i ganolbwyntio ar ddulliau cyfranogol. Sefydlwyd gorsaf deledu yn yr ysgol o ganlyniad i gynnwys disgyblion yn y broses o wneud penderfyniadau. Gwelwyd hyn fel system gyfathrebu hynod werthfawr, a oedd wedi'i sefydlu a'i chynnal gan y disgyblion. Ym marn y disgyblion a'r staff, yr hyn oedd wrth wraidd ei llwyddiant oedd y ffaith fod disgyblion yn gyfrifol am y system ac yn arwain datblygiadau. Roedd y prif fachgen hefyd wedi newid y system swyddogion yn yr ysgol, gan gyflwyno strwythur rheolwyr llinell ar gyfer swyddogion er mwyn darparu system reoli fwy effeithiol. |
| **Newidiadau i Arferion, Gwasanaethau a Chyfleusterau Sefydliadau: Fforymau Ieuenctid** |
| Enghreifftiau o bobl ifanc yn llywio darpariaeth gwasanaethau mewn awdurdodau lleol:-<br><br>• cynllunio taflen gwyno'r Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd ar gyfer pobl ifanc; |

| Ffigur 3.5: Manteision Cyfranogiad i Sefydliadau |
|---|
| • pobl ifanc yn mynegi eu barn ar ba mor hygyrch yw gwasanaethau e.e. gallu pobl ifanc anabl i ddefnyddio gwasanaethau lleol;<br>• pobl ifanc yn monitro gwasanaethau mewn awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau e.e. pobl ifanc anabl;<br>• newid agwedd o fewn y cyngor gan arwain at y gred y dylai pobl ifanc gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr awdurdod lleol. Er enghraifft, mewn un awdurdod lleol, o ganlyniad uniongyrchol i gyfarfodydd rhwng y fforwm ieuenctid ac aelodau cabinet y cyngor, mae'r cabinet bellach yn cyfarfod â'r fforwm ieuenctid bedair gwaith y flwyddyn. Nodwyd gwelliannau i wasanaethau cynghorau gan y rhai yr ymgynghorwyd â nhw hefyd, fel cyflwyno 'hawl y plentyn i gwyno'. |
| **Newidiadau i Awyrgylch ac Amgylchedd y Sefydliad neu'r Gymuned** |
| Nododd disgyblion a staff welliannau i amgylchedd yr ysgol o ganlyniad i weithgarwch cyfranogol, gan gynnwys:-<br>• llai o sbwriel yn cael ei gynhyrchu gan yr ysgol oherwydd gwaith arolygwyr sbwriel, darparu biniau, ac ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth o effaith sbwriel;<br>• cyflwyno cyfleusterau ailgylchu yn yr ysgol neu'r gymuned, gyda rhai ysgolion yn dod yn ganolbwynt ailgylchu ar gyfer y gymuned. |
| **Mwy o Ymwybyddiaeth o Anghenion Plant a Phobl Ifanc a Chyfleusterau'n Diwallu eu Hanghenion yn Well** |
| Roedd o leiaf ddwy ysgol gynradd a gymerodd ran yn yr astudiaeth yn defnyddio bocsys 'pryderon' a 'syniadau' i gasglu safbwyntiau disgyblion a chodi ymwybyddiaeth o anghenion disgyblion. Roedd yr anghenion a'r materion a nodwyd yn cael eu trafod wedyn gan gyngor yr ysgol neu'r eco-gyngor.<br><br>Sylwodd disgyblion mewn un ysgol uwchradd fod eu cyfraniad at gyngor yr ysgol yn golygu bod *'athrawon yn deall ein safbwynt fel plant yn well'*. Roedd materion a godwyd gan gyngor yr ysgol yn cael eu cyfleu'n uniongyrchol i gyfarfodydd staff fel bod athrawon yn deall eu hanghenion yn well. Roeddent hefyd yn teimlo bod presenoldeb disgyblion mewn cyfarfodydd y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon a chyfarfodydd y llywodraethwyr yn codi ymwybyddiaeth o anghenion disgyblion.<br><br>O ganlyniad i gymryd rhan mewn prosiect UNICEF yn yr ysgol arbennig, fe aeth staff a disgyblion ati i ailgynllunio dulliau rheoli ymddygiad yr ysgol, oedd yn golygu bod: '*gan y disgyblion ddisgwyliadau ynglŷn â sut y dylem eu trin nhw yn ogystal â bod gan staff ddisgwyliadau ynglŷn ag ymddygiad disgyblion'.* Os oedd problemau'n codi, teimlwyd bod gan staff y cyfle a'r gallu i siarad â disgyblion a deall pam eu bod wedi ymddwyn mewn ffordd arbennig: '*mae gennym y gallu i wneud hynny'* ac os yw disgyblion yn teimlo '*ein bod ni'n gwrando arnynt – ac inni gynnal proses drafod – maen nhw'n teimlo'n hapusach'* (aelod o staff). |

| Ffigur 3.5: Manteision Cyfranogiad i Sefydliadau |
|---|
| **Datblygiadau Polisi a Strategol Gwell** |
| Roedd enghreifftiau o bobl ifanc yn dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau ym maes llywodraeth leol a chenedlaethol yn cynnwys:-<br>• cyfleu safbwyntiau pobl ifanc i gyrff sy'n gwneud penderfyniadau drwy gyfarfodydd rheolaidd â'r rhai sy'n llunio polisïau strategol (cynghorwyr, Aelodau'r Cynulliad, Aelodau o Senedd Ewrop). Nododd staff fforwm ieuenctid mewn un awdurdod lleol fod y cyfarfodydd hyn wedi argyhoeddi cynghorwyr o fanteision, a'r angen i gynnal, cyfarfodydd rheolaidd wedi'u cynllunio rhwng pobl ifanc ac aelodau etholedig. Mewn awdurdod lleol arall, roedd staff yn ymgynghori â disgyblion ar gynlluniau datblygu lleol;<br>• roedd rhwydweithiau cyfranogiad, fel y rhwydwaith pobl ifanc anabl, yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ddylanwadu ar benderfyniadau strategol ac yn hwyluso cysylltiadau uniongyrchol ag Aelodau'r Cynulliad a Swyddfa'r Comisiynydd Plant. |
| **Cynghorau yn Darparu Gwasanaethau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc** |
| Enghreifftiau o wasanaethau cyngor gwell a nodwyd gan y rhai yr ymgynghorwyd â nhw:-<br>• ymestyn oriau agor clybiau ieuenctid ledled yr awdurdod lleol, ar ôl ymgynghori â phobl ifanc;<br>• pobl ifanc yn mynd ati'n llwyddiannus i wrthwynebu symud rheolwr cyfranogiad yr awdurdod lleol i wasanaethau hamdden;<br>• yr heddlu yn mynychu cynhadledd ar gyffuriau a drefnwyd gan bobl ifanc a oedd yn cynnwys cyffuriau go iawn a chŵn synhwyro cyffuriau, ar gais y bobl ifanc;<br>• cynrychiolydd a enwebwyd yn gweithio gyda'r cyngor ym maes cydymffurfio â deddfwriaeth a rheoliadau mewn perthynas â phobl anabl, a gyflwynodd adroddiad ar hyn i'r ysgol gyfan. Gellid ystyried hyn yn enghraifft o gyfranogiad unigol a helpodd i godi ymwybyddiaeth yr ysgol gyfan o ddatblygiadau yn yr awdurdod lleol. Ar yr un pryd, roedd yn fodd i ddisgyblion yr ysgol ddylanwadu ar y datblygiadau hynny. |
| **Dyrannu Adnoddau'n Fwy Priodol** |
| Mewn un ysgol uwchradd, teimlwyd bod y cwricwlwm wedi gwella yn sgil cyflwyno cyrsiau galwedigaethol mwy amrywiol a bod adnoddau (o ran ariannu'r cyrsiau hyn) wedi'u dyrannu'n fwy priodol o ganlyniad. |
| **Effaith ar Bolisïau Cenedlaethol** |
| Roedd aelodau o'r Rhwydwaith Pobl Ifanc Anabl yn rhan o'r grŵp cyfeirio ar gyfer y 'Gweithgor Cyfle Cyfartal' ac roedd pobl ifanc yn aelodau o'r pwyllgor. Lluniodd y gweithgor adroddiad ar brofiadau pobl ifanc anabl yng Nghymru a theimlwyd bod hyn wedi llywio polisïau a chymorth ar gyfer pobl ifanc anabl yn genedlaethol. |

**Manteision i Staff**

3.15 Ychydig iawn o'r astudiaethau yn yr adolygiad o lenyddiaeth (Kendall, 2008) a nododd fanteision i staff. Lle'r oedd manteision wedi'u nodi, roeddent yn cynnwys: mwy o foddhad mewn swydd (Hannam, 2001); a newid o ran agweddau staff; neu staff yn datblygu dealltwriaeth well o'r plant a phobl ifanc roeddent yn gweithio gyda nhw (Waters ac Ash, 2000; Mortimer, 2004; a Badham, 2004).

3.16 Roedd manteision cyfranogiad i staff a amlygwyd yn yr astudiaeth achos wedi'u nodi gan y staff eu hunain yn bennaf ac yn tueddu i ganolbwyntio ar gred bod mabwysiadu dulliau cyfranogol wedi arwain at wella: perthynas staff â phlant a phobl ifanc; dealltwriaeth well o anghenion plant a phobl ifanc; ac, i raddau llai, manteision i arferion yr ystafell ddosbarth. Pan roedd plant a phobl ifanc yn nodi manteision yn y maes hwn roeddent yn canolbwyntio ar y ddau faes cyntaf a nodwyd gan staff hefyd:

- **gwella'r berthynas â phlant a phobl ifanc:** roedd staff mewn ysgolion yn credu bod cyngor yr ysgol, a'r hyn yr oedd yn ei gynrychioli, yn helpu i wella'r berthynas rhwng staff a disgyblion. Fodd bynnag, rydym o'r farn na fydd hyn yn digwydd oni bai bod gan gyngor yr ysgol rym o fewn yr ysgol a'i fod yn cael ei weld fel corff sy'n sicrhau canlyniadau. Ar y lefel gymunedol, teimlwyd bod dulliau cyfranogol wedi gwella'r berthynas rhwng y rhai a oedd yn cymryd rhan, yn enwedig felly gwaith y fforymau ieuenctid a lwyddodd i ddod â phobl ifanc a chynghorwyr lleol at ei gilydd. Roedd gweithgareddau cyfranogol hefyd yn gyfle i staff o sefydliadau eraill a oedd yn gweithio gyda phobl ifanc i weld yr hyn y gallent ei gyflawni mewn cyd-destun cyfranogol. Roedd gwell perthynas rhwng staff a phlant a phobl ifanc yn fwy tebygol o gael ei nodi mewn ysgolion oedd ag amrywiaeth o ddulliau cyfranogol i alluogi disgyblion i fynegi eu safbwyntiau, er enghraifft cyngor ysgol, eco-ysgolion, cyfryngu cymheiriaid, sesiynau dosbarth i adrodd ar weithgarwch cyngor yr ysgol a phrosesau ymgynghori ysgol gyfan;
- **gwella'r ddealltwriaeth o anghenion disgyblion a phobl ifanc:** teimlwyd bod dulliau cyfranogol wedi gwella'r ddealltwriaeth o anghenion plant a phobl ifanc yn y mwyafrif o'r lleoliadau. Mewn ysgolion roedd y canlyniadau hyn yn canolbwyntio ar faterion yn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan iddo (er bod y mwyafrif yn cyfeirio at faterion y tu allan i'r ystafell ddosbarth). Mewn ysgolion oedd â chynghorau ysgol effeithiol roeddent yn gweithredu fel dull monitro yn yr ysgol ac yn galluogi disgyblion i godi problemau a phryderon. Roedd cynghorau ysgol hefyd yn gyfrwng i alluogi ysgolion i ymgynghori'n ffurfiol â disgyblion ar bolisïau strategol a rheoli ymddygiad;
- **manteision i arferion yr ystafell ddosbarth:** dim ond hanner yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw a nododd hyn. O ystyried y manteision a nodwyd, rydym yn awgrymu y dylid ystyried hwn yn faes allweddol i'w ddatblygu.

| Ffigur 3.6: Manteision i Staff |
| --- |
| **Gwella'r Berthynas â Disgyblion** |
| Nododd penaethiaid ysgolion cynradd enghreifftiau o berthynas well rhwng staff a disgyblion. Cysylltwyd hyn â chred bod staff wedi dod i adnabod disgyblion yn well o ganlyniad i'w gwaith gyda chyngor yr ysgol. Wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogol roedd staff a disgyblion yn cyfarfod mewn cyd-destun gwahanol, lle'r oedd y berthynas yn fwy seiliedig ar bartneriaeth: '*Heb os, mae* [cyngor yr ysgol] *wedi ein helpu i gyfathrebu'n well â'r plant; mae yna lawer mwy o drafodaeth yn awr'* (pennaeth ysgol gynradd). Yn yr ysgol gynradd hon, roedd rhaid i athrawon wneud cyflwyniadau i gyngor yr ysgol ar gyfer rhai o ddyraniadau'r gyllideb, felly roedd y cyngor yn cael ei weld fel corff â grym go iawn.<br><br>Roedd staff mewn ysgolion yn teimlo fod disgyblion yn ymateb yn well iddyn nhw oherwydd dulliau cyfranogol, fel cyfryngu cymheiriaid, a oedd yn golygu bod gan ddisgyblion y cyfle a'r awdurdod i weithredu; nid oedd angen iddynt aros i athrawon ymyrryd bob tro.  Roedd hi'n ymddangos bod rhoi mwy o gyfrifoldeb a pherchenogaeth i ddisgyblion wedi arwain at ddatblygu perthynas fwy aeddfed rhwng staff a disgyblion ynghyd â mwy o barodrwydd i ymddiried yn ei gilydd. Cadarnhawyd y safbwynt hwn gan ddisgyblion: *'Mae'r athrawon yn gwybod ein bod ni'n gyfrifol ac y gallan nhw ymddiried ynom ni i helpu gydag unrhyw waith'.*<br><br>Roedd pennaeth un ysgol gynradd yn teimlo ei bod hi'n adnabod disgyblion yn llawer gwell oherwydd cyngor yr ysgol, a oedd yn llwyddo i ddod â phawb at ei gilydd yn rheolaidd. Nododd hefyd fod staff yr ysgol yn teimlo bod '*y plant yn ymateb yn well iddyn nhw nawr'* oherwydd eu bod yn defnyddio cyngor yr ysgol fel cyfrwng i weithredu h.y. '*nid ein cyfrifoldeb ni* [athrawon] *yw e, chi ddylai fynd i'r afael ag e, beth ydych chi'n mynd i'w wneud amdano?'*  Os oedd yna broblem o safbwynt ymddygiad ar yr iard, er enghraifft, nodwyd y byddai disgyblion yn ymyrryd cyn y staff ac yn codi'r mater yn yr ystafell ddosbarth hefyd. |
| **Gwella'r Ddealltwriaeth o Anghenion Disgyblion a Phobl Ifanc** |
| Nododd staff mewn dwy ysgol enghreifftiau lle'r oedd disgyblion wedi codi materion a phryderon yn ymwneud â staff yr ysgol, na fyddent wedi llwyddo i wneud hynny o bosibl drwy'r dulliau a oedd eisoes yn bodoli. Roedd hyn yn golygu bod modd i'r ysgol gymryd y camau priodol wedyn.<br><br>Nododd staff a oedd yn gweithio gyda phobl ifanc anabl bod cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogol yn codi eu hymwybyddiaeth **nhw** o hawliau pobl ifanc anabl. Roedd y rhwydwaith yn cynnig cyfle i staff weithio gyda phobl ifanc mewn cyd-destun gwahanol, gan godi eu hymwybyddiaeth o sgiliau a galluoedd pobl ifanc. Cadarnhawyd y safbwynt hwn gan bobl ifanc a ddywedodd fod y dulliau/rhwydweithiau cyfranogol yn gyfle iddynt ddangos i oedolion/staff bod ganddynt amrywiaeth eang o sgiliau, na fyddent yn cael eu gweld yn yr ysgol o bosibl. |
| **Manteision i Arferion yr Ystafell Ddosbarth** |
| Roedd prosesau ymgysylltu â disgyblion ar faterion y cwricwlwm yn amlwg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Mewn ysgolion cynradd roedd hyn yn cynnwys |

| Ffigur 3.6: Manteision i Staff |
| --- |
| datblygu polisïau ar ddysgu yn yr awyr agored a'r cwricwlwm awyr agored. Mewn ysgolion uwchradd, teimlwyd bod dulliau cyfranogol wedi bod o fudd i arferion yr ystafell ddosbarth drwy adolygu'r cwricwlwm i gynnwys mwy o bynciau galwedigaethol a chyflwyno mwy o gyrsiau achredig, yn ogystal ag effeithio ar gynnwys y cwricwlwm, h.y. dechrau canolbwyntio ar 'Hawliau'r Plentyn'. |

**Manteision i Gymunedau/Rhieni**

3.17 Roedd y rhai yr ymgynghorwyd â nhw yn lleiaf tebygol o nodi manteision i gymunedau a/neu rieni, gan gadarnhau canfyddiadau'r adolygiad o lenyddiaeth (Kendall, 2008). Yn wir, roedd yr angen i godi ymwybyddiaeth rhieni o weithgarwch cyfranogol yn broblem benodol i staff mewn ysgolion uwchradd a fforymau ieuenctid. Er gwaethaf y dystiolaeth gyfyngedig, cafwyd rhai enghreifftiau diddorol o fanteision i rieni a chymunedau, gan gynnwys gwelliant yn y meysydd canlynol: cyfraniad rhieni at weithgareddau'r ysgol; canfyddiadau o blant a phobl ifanc yn y gymuned; ac adnoddau/cyfleusterau cymunedol:-

- **gwella cyfraniad rhieni:** nodwyd hyn fel mantais gan staff mewn ysgolion cynradd yn unig, sy'n adlewyrchu'r berthynas agosach rhwng y cartref a'r ysgol mewn ysgolion cynradd. Teimlwyd bod gweithgareddau cyfranogol fel cyngor yr ysgol, yr eco-gyngor a mentrau 'bwyta'n iach' wedi cynyddu cyfranogiad rhieni yng ngweithgareddau'r ysgol. Dim ond nifer bach o'r astudiaethau a adolygwyd oedd yn cyfeirio at fanteision i rieni/gofalwyr. Astudiaethau bach oedd pob un o'r rhain, yn seiliedig ar dystiolaeth ganfyddiadol ac anecdotaidd. Roedd y prif fanteision a nodwyd yn canolbwyntio ar roi cyfleoedd i rieni/gofalwyr ddatblygu eu sgiliau i gefnogi a gweithio'n fwy effeithiol gyda'u plant (Brady 2004; Badham, 2004; a Mortimer, 2004);
- **gwella canfyddiadau o blant a phobl ifanc:** nodwyd hyn fel un o'r manteision gan gynrychiolwyr y fforwm ieuenctid yn bennaf. Roedd staff a phobl ifanc mewn fforymau ieuenctid yn teimlo bod canfyddiadau o bobl ifanc wedi gwella o ganlyniad i'w cyfranogiad mewn gweithgareddau cadarnhaol yn y gymuned. Cysylltwyd y gwelliant hwn â'r gwaith a gyflawnwyd rhwng cenedlaethau. O ystyried bod awydd i wella canfyddiadau o bobl ifanc yn y gymuned leol yn un o'r ffactorau a sbardunodd pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogol, roedd yn dda eu bod yn gallu gweld canlyniadau cadarnhaol yn y maes hwn. Roedd y llenyddiaeth a adolygwyd hefyd yn dangos bod gweithgareddau cyfranogol yn gallu helpu i wella delwedd plant a phobl ifanc yn y gymuned leol a herio delweddau ystrydebol negyddol (Gray, 2002; Achub y Plant, 2005);
- **adnoddau/cyfleusterau cymunedol gwell:** nodwyd hyn fel un o'r manteision gan fforymau ieuenctid gan amlaf. Roedd pobl ifanc anabl yn cyfrannu at grwpiau lleol a chenedlaethol a oedd yn ymgyrchu dros gyfleusterau gwell, yn ogystal â monitro gwasanaethau a oedd eisoes yn bodoli i wella mynediad i bobl anabl, er enghraifft. Mewn ysgolion, ni

nodwyd hyn fel mantais yn gyffredinol, gan fod ysgolion yn tueddu i ganolbwyntio ar wella eu cyfleusterau a'u hadnoddau eu hunain. Fodd bynnag, cafwyd ychydig o eithriadau lle'r oedd ysgolion unigol yn cael eu gweld fwyfwy fel adnodd cymunedol e.e. canolfan ailgylchu i'r gymuned leol, a gadael i'r gymuned ddefnyddio eu tiroedd a'u cyfleusterau;

- **manteision eraill a nodwyd:** teimlodd staff dau fforwm ieuenctid fod cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogol wedi arwain at newidiadau cadarnhaol i fywydau pobl ifanc unigol gartref. Teimlwyd bod dulliau cyfranogol mewn ysgolion wedi arwain at sefydlu cysylltiadau ag ysgolion a myfyrwyr mewn gwledydd eraill hefyd.

| **Ffigur 3.7: Manteision i Rieni/Cymunedau** |
|---|
| **Gwella Cyfranogiad Rhieni** |
| Cafwyd enghreifftiau o rieni yn cyfrannu at amrywiaeth o weithgareddau mewn ysgolion cynradd, gan gynnwys: plannu coed, tirlunio tiroedd yr ysgol, adeiladu ystafell ddosbarth awyr agored, paentio murluniau a chodi arian.<br><br>Disgrifiodd un pennaeth ysgol gynradd y cysylltiadau agosach a oedd wedi datblygu rhwng y cartref a'r ysgol o ganlyniad i weithgareddau cyngor yr ysgol, gan nodi mai'r rheswm am hyn oedd bod disgyblion *'yn trafod yr hyn sy'n digwydd yn yr ysgol yn fwy agored gartref gyda'u rhieni'*. Roedd hyn yn annog rhieni i ddod i'r ysgol i gymryd rhan mewn gweithgareddau wedyn. Roedd y pennaeth yn teimlo ei bod hi'n adnabod y rhieni yn well, e.e. mae hi'n eu hadnabod wrth eu henwau cyntaf, a bod hyn wedi cynyddu cyfranogiad rhieni yng ngweithgareddau'r ysgol. Dywedodd y pennaeth fod lefelau cyfranogiad rhieni wedi cynyddu oherwydd bod y disgyblion yn eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Cadarnhawyd y safbwynt hwn gan ddisgyblion yn yr ysgol, a ddywedodd fod eu rhieni wedi helpu i ddarparu deunyddiau ar gyfer yr ystafell ddosbarth awyr agored.<br><br>Er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r diffyg cyfranogiad gan rieni mewn fforymau ieuenctid, roedd un fforwm wedi cyflwyno seremoni wobrwyo ar gyfer rhieni. Serch hynny, roedd gwella cyfranogiad rhieni yn cael ei ystyried yn faes i'w ddatblygu o hyd. |
| **Gwella Canfyddiadau o Blant a Phobl Ifanc** |
| Nododd adroddiad Estyn ar yr ysgol arbennig fod gwaith helaeth yr ysgol yn y gymuned a thros y gymuned wedi helpu i *'godi proffil yr ysgol yn y gymuned leol'* (Estyn 2008).<br><br>O safbwynt pobl ifanc anabl, roedd cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogol yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol yn codi eu proffil yn eu cymunedau ac yn eu helpu i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â mynediad a chydraddoldeb.<br><br>Cafwyd enghreifftiau o waith, prosiectau a chyfarfodydd rhwng cenedlaethau y teimlwyd eu bod wedi gwella canfyddiadau a herio delweddau ystrydebol ar y ddwy ochr. Yn aml iawn roedd fforymau ieuenctid a chymunedol wedi'u lleoli mewn ardaloedd lle'r oedd canfyddiadau a phortreadau o bobl ifanc yn negyddol iawn. O ganlyniad, roedd staff a phobl ifanc yn teimlo ei bod yn hanfodol bwysig bod gweithgareddau/dulliau cyfranogol yn mynd i'r afael â'r materion hyn. |

| Ffigur 3.7: Manteision i Rieni/Cymunedau |
|---|
| **Gwella Adnoddau/Cyfleusterau Cymunedol** |
| Nododd unigolion y cyfwelwyd â nhw o fforymau ieuenctid unigol bod adnoddau cymunedol wedi gwella o ganlyniad i'r gwaith yr oedd pobl ifanc wedi cyfrannu ato. Enghreifftiau o hyn oedd sefydlu gorsaf radio gymunedol a gweithio gyda grwpiau cymunedol eraill i wrthwynebu cau adnoddau cymunedol cyfredol.<br><br>Roedd yr ysgol arbennig wedi defnyddio gwaith Cyngor yr Ysgol a'r Eco-gyngor i ddatblygu tiroedd yr ysgol fel adnodd ar gyfer y gymuned ac ysgolion eraill. Roedd yr ysgol hefyd wedi sefydlu nifer o gynlluniau menter gan gynnwys caffi, siop trin gwallt, cyfleusterau golchi ceir ac ailgylchu, a thasglu a oedd yn mynd allan i'r gymuned yn cynnig gwasanaethau garddio, yn symud dodrefn nad oedd eu hangen mwyach ac ati. Teimlwyd bod hyn wedi gwella adnoddau cymunedol ac wedi hwyluso'r broses o integreiddio'r ysgol i'r gymuned leol. |

**Dulliau Darparu Adborth**

3.18 Mae rhoi adborth yn hanfodol bwysig i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn teimlo bod eu safbwyntiau a'u syniadau wedi cael eu hystyried. Hyd yn oed os na ellir gwneud newidiadau o ganlyniad i'w cyfranogiad, mae angen iddynt wybod y rhesymau pam. Gall diffyg adborth arwain at blant a phobl ifanc yn teimlo'n sinigaidd am y broses gyfranogi.

3.19 Gofynnwyd i aelodau o staff pa ddulliau roeddent yn eu defnyddio i roi adborth i blant a phobl ifanc am yr arferion cyfranogol yr oeddent yn gysylltiedig â nhw. Yn ogystal, holwyd staff am y dulliau roeddent yn eu defnyddio i brofi a mesur effaith arferion cyfranogol. Dylid nodi bod ymateb y rhai yr ymgynghorwyd â nhw i'r ddau gwestiwn hwn yn debyg iawn. Er bod rhywfaint o dystiolaeth bod adborth yn cael ei roi, nodwyd nifer o heriau gan staff a phobl ifanc, sy'n cael eu trafod ym Mhennod 4.

3.20 Roedd staff yn fwyaf tebygol o roi adborth ysgrifenedig i blant a phobl ifanc. Roedd plant a phobl ifanc hefyd yn rhoi adborth i'w cymheiriaid ac i staff (ar lafar gan amlaf). Mae Ffigur 3.8 yn nodi rhai enghreifftiau o'r math o ddulliau adborth a ddefnyddiwyd gan staff:

- **adborth ysgrifenedig**: roedd staff mewn ysgolion ac yn y gymuned yn rhoi adborth ysgrifenedig drwy gofnodion cyfarfodydd; er enghraifft, cofnodion cyfarfodydd cynghorau ysgol, eco-gynghorau, grwpiau cymunedol neu fforymau ieuenctid. Mewn rhai lleoliadau, roedd cofnodion cyfarfodydd yn cael eu rhoi ar wefannau ysgolion neu fforymau ieuenctid, gan sicrhau eu bod ar gael i'r rhai nad oeddent yn cymryd rhan. Roedd cofnodion cyfarfodydd hefyd yn gyfrwng i fonitro cynnydd ac effaith. Defnyddiwyd ffolderi yn cynnwys manylion gweithgarwch yr ysgol neu'r eco-gyngor hefyd i fonitro'r gwaith a rhoi adborth i aelodau ar ddiwedd y flwyddyn;

- **adborth llafar**: mewn ysgolion, rhoddwyd adborth llafar i'r rhai nad oeddent yn cymryd rhan yn y gweithgarwch mewn gwasanaethau'r ysgol. Er enghraifft, roedd disgyblion yn gwneud cyflwyniadau ar ddatblygiadau/argymhellion mewn gwasanaethau; roedd cynrychiolwyr cyngor yr ysgol hefyd yn gwneud cyflwyniadau i'w dosbarthiadau. Cafwyd yr enghreifftiau gorau o'r ail ble'r oedd amser pwrpasol wedi'i neilltuo i gynrychiolwyr cyngor yr ysgol gyflwyno gwybodaeth ac i aelodau'r dosbarth godi unrhyw faterion roeddent am i'r cyngor fynd i'r afael â nhw. Dywedodd staff o'r ysgol arbennig a rhai o'r bobl ifanc anabl y byddai'n well ganddynt dderbyn adborth llafar oherwydd eu bod yn cael anhawster i gyrchu adborth ysgrifenedig. Mae hyn yn amlygu pa mor bwysig yw sicrhau bod dulliau adborth yn briodol i anghenion y plant a'r bobl ifanc dan sylw;

- **adborth gweladwy**: roedd nifer o ddulliau gweledol diddorol wedi'u defnyddio gan ysgolion a lleoliadau cymunedol i roi adborth ar weithgarwch cyfranogol i blant a phobl ifanc (cyfranogwyr a'r rhai nad oeddent yn cyfranogi) (gweler **Ffigur 3.8**)

| Ffigur 3.8: Dulliau Adborth | |
|---|---|
| **Y Prif Ddulliau a Ddefnyddiwyd** | |
| **Ysgrifenedig**<br>• cofnodion cyfarfodydd<br>• ffurflenni adborth<br>• cofnodion o sesiynau<br>• gwefannau<br>• cylchlythyron<br>• holiaduron<br>• bocsys awgrymiadau<br>• proffiliau ciplun | **Llafar**<br>• cyflwyniadau<br>• cynadleddau<br>• cyfarfodydd<br>• gwasanaethau ysgol<br>• cyflwyno gwybodaeth i ddosbarthiadau<br><br>**Gweledol**<br>• cyflwyniadau<br>• lluniau<br>• fideo<br>• teledu<br>• straeon digidol |
| **Adborth Ysgrifenedig** | |
| Cafwyd enghreifftiau o brosesau ymgynghori ysgol gyfan mewn dwy ysgol e.e. arolygon ysgol blynyddol. Defnyddiwyd canfyddiadau'r arolygon i ddethol pynciau ar gyfer dyddiau datblygiad staff neu fe'u trafodwyd mewn cyfarfodydd staff, cynghorau ysgol neu uwch dimau rheoli: '*rydym wedi dadansoddi canfyddiadau arolwg yr ysgol ac wedi'u trafod gyda chyngor yr ysgol, yr uwch dîm reoli ac mewn cyfarfodydd staff*' (pennaeth). Defnyddiwyd y canfyddiadau wedyn i lywio datblygiadau yn y cwricwlwm a datblygiadau eraill. Mewn dwy ysgol gynradd, roedd aelodau o gyngor yr ysgol wedi cwblhau arolygon neu wedi rhoi adborth i athrawon ar gynnwys a dulliau addysgu. Roedd staff yn awyddus i ddatblygu'r elfen hon ymhellach.<br><br>Roedd ysgolion yn defnyddio bocsys awgrymiadau i nodi materion i'w trafod gan gynghorau ysgol ac eco-gynghorau. Trafodwyd yr awgrymiadau mewn cyfarfodydd cyngor wedyn a hysbyswyd gweddill yr ysgol o'r cynnydd a wnaed. Penderfynodd un ysgol gynradd roi'r awgrymiadau o'r bocs awgrymiadau mewn blog oedd yn gysylltiedig â gwefan yr ysgol, gan sicrhau eu bod ar gael yn fwy eang.<br><br>Gofynnodd un fforwm ieuenctid i sefydliadau a gwasanaethau a oedd yn awyddus i ymgynghori â phobl ifanc gwblhau ffurflen 'Cais i Ymgynghori' (gweler Atodiad A) yn nodi natur yr adborth a fyddai'n cael ei roi i bobl ifanc pe baent yn penderfynu cymryd rhan yn y gweithgaredd ymgynghori. Defnyddiodd y fforwm ieuenctid hwn y 'Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol' i strwythuro'r gwaith o roi adborth i blant a phobl ifanc.<br><br>Dywedodd aelod o staff a weithiai i grŵp pobl ifanc anabl mewn awdurdod lleol eu bod yn defnyddio holiaduron i gael adborth gan bobl ifanc ar y gweithgareddau | |

| Ffigur 3.8: Dulliau Adborth |
|---|
| roeddent yn cymryd rhan ynddynt. Roedd gan yr holiaduron wynebau hapus ar gyfer pethau roeddent yn eu mwynhau ac wynebau trist ar gyfer pethau nad oeddent yn eu mwynhau. Defnyddiodd staff y wybodaeth i gynllunio gweithgareddau'r haf ac i gyflwyno gweithgareddau newydd, fel gymnasteg. Mae staff a phobl ifanc hefyd yn cynnal sesiwn gynllunio ar ddechrau bob tymor ac yn llunio rhestr o weithgareddau ar gyfer y tymor sy'n dod.<br><br>Dywedodd cydgysylltydd un o'r grwpiau lleol ar gyfer pobl ifanc anabl ei bod yn llunio map yn dangos gweithgareddau a llwyddiannau'r flwyddyn er mwyn rhoi trosolwg i bobl ifanc a'u teuluoedd. Roedd hi hefyd yn cwblhau ffurflen fonitro chwarterol i roi'r newyddion diweddaraf i'r grŵp am y gweithgareddau roeddent yn eu cyflawni. |
| **Adborth Llafar** |
| Nododd un pennaeth ysgol gynradd fod adborth yn cael ei roi i'r ysgol gyfan fel rhan o'r gwasanaeth boreol, a oedd yn cynnwys cyflwyniadau gan aelodau cyngor yr ysgol ac eraill (e.e. eco-grŵp) yn aml ar y gwaith a'r cynnydd a wnaed. Neilltuwyd amser mewn dosbarthiadau hefyd i aelodau cyngor yr ysgol roi adborth manwl a gofyn am safbwyntiau a syniadau ynglŷn â'r hyn y dylai cyngor yr ysgol ei drafod.<br><br>Yn ôl aelodau cynghorau ysgol mewn ysgolion uwchradd '*rydym yn derbyn adborth am gyllidebau – yr hyn rydym yn gallu ei newid a'r hyn na allwn ni ei newid'*. |
| **Adborth Gweledol** |
| Roedd staff mewn ysgolion a fforymau ieuenctid hefyd yn defnyddio lluniau a fideos o sesiynau cyfranogol i roi adborth i blant a phobl ifanc ac fel tystiolaeth o'r gwaith roeddent wedi'i gyflawni.<br><br>Defnyddiwyd gorsaf deledu'r ysgol arbennig gan y disgyblion i roi trosolwg i'r holl ddisgyblion o weithgareddau cyfranogol yr ysgol. Roedd y pennaeth yn cadw copi o bopeth a ddarlledwyd i sicrhau bod gan yr ysgol gofnod o bob digwyddiad a llwyddiant.<br><br>Defnyddiwyd gwefannau fforymau ieuenctid a chymunedol i gyflwyno adborth gweledol ar y gweithgareddau roedd pobl ifanc yn cymryd rhan ynddynt. |

### Mesur/Profi Effaith

3.21 Ychydig iawn o leoliadau a ystyriodd effaith cynnwys plant a phobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau a'u cynnwys mewn gweithgareddau cyfranogol. Nid oedd llawer o dystiolaeth o hyn yn y llenyddiaeth chwaith. At ei gilydd, roedd yr astudiaethau a fodlonodd y meini prawf i gael eu cynnwys yn yr adolygiad o lenyddiaeth (Kendall, 2008) yn ansoddol eu natur ac yn astudiaethau bach. Roedd unrhyw fanteision ac effeithiau'n cael eu dangos mewn data canfyddiadol gan amlaf. Rhaid bod yn ofalus wrth bwyso a mesur y data ansoddol a gyflwynwyd yn y llenyddiaeth sy'n awgrymu bod yna gysylltiad rhwng cyfranogiad plant a phobl ifanc â

gwella canlyniadau mesuradwy, fel cyrhaeddiad a phresenoldeb, gan ei bod yn anodd priodoli achosion canlyniadau o'r fath.

3.22 Ar lefel astudiaeth achos, roedd y gwaith o fesur effaith cyfranogiad yn cael ei wneud mewn ffordd gymharol anffurfiol ac ychydig o leoliadau a oedd wedi cyflwyno dulliau ffurfiol i asesu effaith. Roedd staff yn fwy tebygol o nodi effeithiau unigol, gan amlygu newidiadau i amgylchedd gweladwy'r ysgol, neu newidiadau i'r cwricwlwm fel tystiolaeth o effaith dulliau cyfranogol. Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau i gofnodi gwaith a gwblhawyd, gan gynnwys cofnodion gweledol ac ysgrifenedig (gweler yr adran flaenorol), ac fe'u defnyddiwyd gan staff fel tystiolaeth o ganlyniadau. Nododd staff rai enghreifftiau cadarnhaol o bobl ifanc yn monitro ac yn gwerthuso cyfranogiad/arferion (gweler Ffigur 3.9).

3.23 Cafwyd safbwyntiau cymysg gan staff mewn ysgolion ynglŷn â'r angen i fesur a phrofi effaith gweithgareddau cyfranogiad yn ffurfiol. Dywedodd nifer o benaethiaid ysgolion cynradd y byddent yn hoffi cael cymorth i ddatblygu dulliau i fonitro effaith (rhai 'meddal' e.e. gwella hunan-barch a hunanhyder; a data canlyniadau 'caled') ac roeddent yn cydnabod y gellid gwneud mwy i olrhain effaith cyfranogiad. Roedd hon yn flaenoriaeth allweddol i un ysgol gynradd ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

3.24 Roedd agwedd penaethiaid ysgolion uwchradd yn fwy gochelgar. Roeddent o'r farn eu bod eisoes yn casglu digon o ddata neu roeddent yn amharod i ofyn i aelodau o staff gasglu rhagor o ddata. Mewn fforymau ieuenctid, nododd cydgysylltwyr enghreifftiau o gynnal asesiadau effaith a darparu tystiolaeth o effaith ar gyfer gofynion monitro blynyddol arian Cymorth (gweler Ffigur 3.9).

3.25 Mae'n amlwg bod angen i staff 'weld y manteision' o gasglu data ar effaith, yn hytrach na theimlo eu bod yn casglu data 'er ei fwyn ei hun' (gweler Ffigur 3.9 'gweld y manteision'). Mae dirfawr angen dod o hyd i ffyrdd i alluogi staff i nodi effaith heb orfod casglu data ychwanegol.

3.26 Roedd y rhai y cyfwelwyd â nhw hefyd yn nodi'r anhawster o briodoli canlyniadau cadarnhaol i ddulliau cyfranogol, o ystyried yr amrywiaeth o ffactorau eraill a allai arwain at y canlyniadau hyn. Fodd bynnag, teimlodd tair ysgol gynradd fod ganddynt dystiolaeth i ddangos bod cyflwyno dulliau cyfranogol ledled yr ysgol wedi arwain at effeithiau cadarnhaol ar ymddygiad (gweler Adran 3.8).

| Ffigur 3.9: Mesur Effaith |
|---|
| **'Gweld y Manteision'** |
| Nododd un pennaeth ysgol gynradd '*welliant arwyddocaol'* mewn hunanhyder a lefelau cyrhaeddiad un disgybl yn ystod ei amser ar gyngor yr ysgol. O ganlyniad i'r effaith hon maent bellach yn monitro lefelau cyrhaeddiad holl aelodau cyngor yr ysgol yn ystod eu cyfnod ar y cyngor i weld a yw'n cael effaith gadarnhaol. |
| **Profi Effaith** |
| Aeth un fforwm ieuenctid ati i gynnal 'asesiadau effaith' o'r gwaith oedd yn cael ei wneud ym mhob cyfarfod fforwm ieuenctid yn y fwrdeistref. Roedd hyn yn golygu bod aelodau o fforymau ieuenctid yn cael eu hysbysu'n rheolaidd o lwyddiant eu gweithgareddau. Roedd y fforwm ieuenctid hwn hefyd wedi cynnal cynhadledd ar ddechrau'r flwyddyn fel bod pawb oedd yn rhan o'r broses yn gallu pennu amcanion ar gyfer y flwyddyn i ddod. Dosbarthwyd y rhain i is-grwpiau'r fforwm ieuenctid wedyn ac fe aeth y rhain ati i adrodd yn ôl i gabinet y fforwm ieuenctid.<br><br>Aeth pobl ifanc o grŵp yr awdurdod lleol ar gyfer pobl ifanc anabl ati i gynhyrchu cyfres o 'straeon digidol' yn nodi'r gweithgareddau roeddent yn cymryd rhan ynddynt a'r gwahaniaeth roedd bod yn aelodau o'r grŵp wedi'i wneud i'w bywydau: '*Rwy'n meddwl bod hi'n ffordd dda o ddangos sut mae* [enw'r grŵp] *yn cael effaith ar eu bywydau"* (cydgysylltydd). |
| **Pobl Ifanc yn Monitro ac yn Gwerthuso Cyfranogiad/Arferion** |
| Mewn un fforwm ieuenctid, roedd pobl ifanc yn gweithredu fel aseswyr mewnol ar gyfer gweithgareddau cyfranogiad er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys mewn gweithgareddau cyfranogol ledled y fforwm.<br><br>Mewn awdurdod lleol arall, roedd pobl ifanc yn cynnal asesiadau blynyddol o sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn yr awdurdod lleol, er enghraifft, ysbytai, meddygfeydd, sefydliadau gwirfoddol ac ati. Roedd sefydliadau llwyddiannus yn derbyn nod barcud am eu gwaith, yn datgan eu bod yn cyrraedd y safonau gofynnol. |

# 4. HERIAU/RHWYSTRAU I GYFRANOGI

| Canfyddiadau Allweddol: Heriau a Rhwystrau i Gyfranogi |
|---|
| **Cyfyngiadau o ran gallu ac adnoddau**<br>• Cyfyngiadau o ran gallu ac adnoddau oedd y prif heriau/rhwystrau i gyfranogi a nodwyd gan staff a phobl ifanc. Dywedodd staff a phobl ifanc fforymau ieuenctid bod ehangu cyfranogiad yn dipyn o her.<br>**Agweddau staff**<br>• Un o'r rhwystrau mwyaf i ehangu cyfranogiad mewn ysgolion oedd y gallu i newid agweddau staff.<br>**Sgiliau plant a phobl ifanc**<br>• I raddau llai, mae sicrhau bod gan blant y sgiliau i gyfranogi yn rhwystr yn ôl staff ysgol gynradd. Mae'n amlwg fod angen gwneud mwy i herio'r agweddau hyn a hyrwyddo arfer da lle ceir enghreifftiau o hynny.<br>**Materion mynediad**<br>• Dywedodd staff a phobl ifanc fforymau ieuenctid bod sicrhau bod gan bobl ifanc anabl gyfleoedd cyfranogol, ac ymgysylltu â phobl ifanc heb gynrychiolaeth ddigonol, yn rhwystr.<br>**Profiadau negyddol wrth gyfranogi**<br>• Soniodd nifer o bobl ifanc a staff am faterion adborth i bobl ifanc, a'r ffaith nad oedd hi'n ymddangos bod eu cyfraniad wedi cael fawr o effaith. Nid oedd plant a phobl ifanc yn gwybod beth oedd wedi newid ar ôl iddynt gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau.<br>• Cyfeiriodd plant a phobl ifanc at ddulliau ymgynghori amhriodol a materion 'symboleiddiaeth' hefyd. Pwysleisiwyd yr heriau o reoli disgwyliadau pobl ifanc eraill a barn eu cymheiriaid am gyfranogi. |

## Cyflwyniad

4.1 Mae'r adran hon yn disgrifio'r prif rwystrau a heriau a nodwyd gan y rhai yr ymgynghorwyd â nhw o ran ehangu cyfranogiad neu gynnal y dulliau cyfranogi cyfredol. Lle nodwyd hynny, mae hefyd yn cyflwyno enghreifftiau o sut y cafodd y rhwystrau a'r heriau eu goresgyn.

**Heriau a Rhwystrau i Gyfranogi**

4.2 Roedd y prif heriau a rhwystrau a nodwyd gan staff a phobl ifanc yn canolbwyntio ar: gyfyngiadau o ran gallu ac adnoddau; agweddau staff; sgiliau staff; sgiliau plant a phobl ifanc; a mynediad i gyfleoedd cyfranogi ar gyfer grwpiau penodol o bobl ifanc.

- **cyfyngiadau o ran gallu ac adnoddau:** cyfyngiadau o ran gallu ac adnoddau oedd y prif heriau/rhwystrau i gyfranogi a nodwyd gan staff a phobl ifanc. Dywedodd staff a phobl ifanc o fforymau bod ehangu cyfranogiad yn dipyn o her:-
  - roedd ***cyfyngiadau o ran adnoddau*** yn cyfyngu ar faint a hyd a lled y gwaith y gallai'r staff ei wneud a lefelau cyfranogi pobl ifanc unigol (gweler Ffigur 4.1 am enghreifftiau). Roedd costau/mynediad i wasanaethau trafnidiaeth yn gryn rwystr i bobl ifanc oedd am ddefnyddio fforymau a rhwydweithiau ieuenctid;
  - roedd ***cyfyngiadau o ran gallu*** yn her yn ôl staff a phobl ifanc (gweler Ffigur 4.1). Dywedodd staff ysgolion uwchradd nad oeddynt yn gallu ehangu gweithgareddau cyfranogol oherwydd prinder amser mewn diwrnod ysgol. Roedd rheoli'r holl geisiadau ymgynghori yn fater penodol i rai o'r fforymau a'r rhwydweithiau ieuenctid, gan greu perygl o 'or-ymgynghori' a llethu'r bobl ifanc oedd yn gysylltiedig â'r broses. Cytunwyd bod angen rheoli'r ceisiadau hyn yn well;
- **agweddau staff**: un o'r rhwystrau mwyaf i'w goresgyn i allu ehangu cyfranogiad mewn ysgolion yw newid agweddau staff. Roedd rhai penaethiaid yn dal yn amharod i gynnwys disgyblion yn y broses o recriwtio staff a phenodi disgybl-lywodraethwr cyswllt mewn ysgolion uwchradd. Roedd staff fforymau ieuenctid yn teimlo fod rhai staff ysgolion yn gyndyn o ymgysylltu â'r fforwm, a bod hyn yn cael effaith negyddol ar fabwysiadu dulliau cyfranogol ledled awdurdodau lleol. Roedd pobl ifanc anabl yn teimlo bod rhai gweithwyr proffesiynol, oherwydd diffyg ymwybyddiaeth/hyfforddiant, yn gwneud rhagdybiaethau anghywir am beth y gallant ac na allant gymryd rhan ynddo ac yn aml yn trafod gyda'u rhieni/gofalwyr, yn lle trafod yn uniongyrchol gyda'r bobl ifanc eu hunain;
- **sgiliau staff:** her gyffredin arall a nodwyd gan staff a phobl ifanc oedd y ffaith nad oedd gan staff ddigon o sgiliau i gyflwyno dulliau cyfranogi yn effeithiol;
- **sgiliau plant a phobl ifanc:** i raddau llai, roedd sicrhau bod gan blant sgiliau i gyfranogi yn rhwystr yn ôl staff ysgolion cynradd;
- **mynediad pobl ifanc anabl i gyfleoedd cyfranogol ac ennyn diddordeb pobl ifanc heb gynrychiolaeth ddigonol:** nodwyd hyn fel rhwystr gan staff a phobl ifanc o'r fforymau ieuenctid. Cyfeiriodd pobl ifanc anabl at faterion mynediad corfforol, a'u gallu i fynd a dod i adeiladau lle cynhaliwyd cyfarfodydd a digwyddiadau. Trafodwyd y feirniadaeth nad oedd rhai fforymau ieuenctid yn cynrychioli eu cymunedau ym Mhennod 2. Ar ben hynny, mae'n arbennig o anodd i staff ddod i gysylltiad â phobl ifanc heb gynrychiolaeth ddigonol os nad ydynt eisoes yn perthyn i

grwpiau neu wasanaethau sy'n bodoli'n barod. Mae perygl amlwg o eithrio/ymyleiddio unigolion a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Fel y nodwyd eisoes (ym Mhennod 3) mae rhai fforymau ieuenctid wedi ceisio mynd i'r afael â hyn thrwy wneud gwaith allgymorth cymunedol er mwyn targedu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

| Ffigur 4.1: Heriau a Rhwystrau i Gyfranogi |
|---|
| **Cyfyngiadau o ran gallu ac adnoddau** |
| **Cyfyngiadau o ran adnoddau:**<br><br>Disgrifiodd un cydgysylltydd fforwm ieuenctid y swyddogaeth fel un sy'n cyflwyno '*gwasanaeth cyffredinol ag arian a dargedir'*.<br><br>Roedd y Rhwydwaith Pobl Ifanc Anabl yn cael ei gydgysylltu gan unigolyn a oedd yn dibynnu'n llwyr ar grwpiau cymorth lleol i ddenu pobl ifanc i gyfarfodydd a chefnogi'r rhwydwaith. Os yw grwpiau lleol yn gorfod gwneud toriadau, yna mae dyfodol y rhwydwaith yn y fantol.<br><br>Un o'r prif rwystrau a nodwyd gan bobl ifanc anabl a'r staff sy'n gweithio gyda nhw yw'r prinder arian i staff cymorth sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cymryd rhan. Mae geiriau'r person ifanc canlynol yn pwysleisio hyn: *'Os na allan nhw fynd, alla' i ddim mynd'* (person ifanc). Un awgrym a wnaed yng nghyfarfod y rhwydwaith oedd y gallai rhai o bobl ifanc y rhwydwaith fod yn gyfrifol am helpu pobl ifanc eraill. Ond byddai angen iddynt gael hyfforddiant a thâl priodol am wneud hyn.<br><br>Mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc sy'n gwneud gwaith cynghori/ymgynghori ar lefel fforwm/rhwydwaith ieuenctid yn gwneud hynny'n wirfoddol. Un mater penodol i bobl ifanc anabl oedd eu bod yn cynnig cyngor 'arbenigol', e.e. rhoi cyngor ar hawliau pobl ifanc anabl, ond ar y cyfan, nid oeddynt yn cael unrhyw dâl am wneud y gwaith.<br><br>Gan fod prinder staff i gefnogi gwaith datblygu fforymau ieuenctid, nid oedd rhai fforymau'n gallu cyrraedd eu grŵp oedran targed yn llawn, sef y rhai 11 - 25 oed (maent yn dueddol o weithio â'r ystod oedran 11-18 sy'n haws eu cyrraedd).<br><br>Roedd problemau defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i fynychu cyfarfodydd yn golygu fod pobl ifanc yn dibynnu ar staff neu rieni i'w cludo, ac mae hyn yn eithrio rhai pobl ifanc rhag cymryd rhan. Codwyd materion trafnidiaeth yn yr ardaloedd gwledig a threfol fel ei gilydd. Dywedodd un ysgol arbennig fod costau trafnidiaeth yn rhwystro rhai rhag cyfranogi. Er hynny, dywedodd y pennaeth y byddai'n gofyn i'r gymuned leol dalu costau trafnidiaeth fel y gall disgyblion fynychu digwyddiadau penodol. Roedd hi'n teimlo fod y gymuned yn barod i gyfrannu oherwydd bod yr ysgol yn darparu gwasanaethau i'r gymuned felly '*dim gofyn am arian ydyn ni o hyd'*.<br><br>**Cyfyngiadau o ran gallu:**<br><br>Nid oes gan staff ysgolion uwchradd ddigon o amser yn ystod y diwrnod ysgol i ehangu cyfranogiad. Ymhlith y strategaethau a ddefnyddiwyd i geisio goresgyn |

| Ffigur 4.1: Heriau a Rhwystrau i Gyfranogi |
| --- |
| materion gallu staff oedd trosglwyddo cyfrifoldeb am ddulliau cyfranogi i ystod o eang o staff ysgol. Mae hyn hefyd wedi helpu i gynnwys egwyddorion cyfranogi fel rhan o'r ethos ysgol gyfan, fel eu bod yn cael eu hystyried yn rhan ganolog o'r dull ysgol gyfan ac nid fel rhywbeth ychwanegol yn unig. Roedd un ysgol uwchradd wedi trefnu bod aelod o'r staff nad yw'n addysgu yn gyfrifol am gydgysylltu cyngor yr ysgol. Er y gallai hyn godi cwestiwn ynghylch statws cyngor yr ysgol, nid yw'n cael ei ystyried yn allweddol o ran cyflwyno'r cwricwlwm.<br><br>Roedd un fforwm ieuenctid yn rheoli'r ceisiadau niferus i gymryd rhan mewn proses ymgynghori trwy ofyn i sefydliadau gwblhau 'ffurflen gais am ymgynghori' sy'n galluogi pobl ifanc i asesu'r prosesau ymgynghori mwyaf priodol y dylent fod yn rhan ohonynt (gweler Atodiad A). Efallai mai strategaeth hirdymor i fynd i'r afael â hyn fyddai ehangu aelodaeth y fforwm ieuenctid a/neu sefydlu grwpiau diddordeb arbennig (fel y gwnaeth un fforwm ieuenctid) sy'n gyfrifol am ymgynghori mewn meysydd penodol.<br><br>Dywedodd pobl ifanc sy'n gwneud llawer o weithgareddau cyfranogol eu bod yn cael trafferth cyflawni eu holl ymrwymiadau, yn enwedig os nad yw pobl yn holi a ydynt yn rhydd i fynychu cyfarfodydd (sy'n awgrymu nad yw pobl ifanc yn cael eu trin fel partneriaid yn y broses). Nodwyd hefyd bod amserlenni tynn iawn ar gyfer ymgynghori a rhoi adborth.<br><br>Roedd rhai ysgolion yn dal i gynnal cyfarfodydd cyngor yr ysgol amser cinio, sy'n golygu fod disgyblion yn gorfod mynychu cyfarfodydd yn eu hamser hamdden. Codwyd y mater hwn gan ddisgyblion uwchradd a chynradd:-<br><br>*"Rydyn ni'n cyfarfod amser cinio. Does dim digon o amser i fynd drwy'r agenda. Dyw rhai disgyblion ddim yn fodlon colli'u hawr ginio'* (disgybl uwchradd).<br><br>*'Fe allen ni gyfarfod yn fwy rheolaidd, ond nid amser cinio. Weithiau rydyn ni'n gorfod mynd heb ginio'* (disgybl uwchradd).<br><br>*'Weithiau, rydyn ni'n colli cyfle i wneud pethau eraill er mwyn mynd i gyfarfod cyngor yr ysgol'* (disgybl cynradd).<br><br>Pwysleisiodd un pennaeth ysgol uwchradd fanteision newid cyfarfodydd cyngor yr ysgol o amser cinio i amser cofrestru. Teimlwyd bod cyngor yr ysgol wedi datblygu'n '*llawer mwy pwerus ac effeithiol'* o roi'r statws hwn iddo, a bod lefelau presenoldeb y disgyblion wedi gwella hefyd. Hefyd, cryfhawyd statws cyngor yr ysgol trwy gynnal cyfarfodydd yn ystafell gynadledda'r ysgol. |
| **Agweddau staff** |
| Dywedodd un athro mai '*mater o ddarbwyllo'r staff* [i gymryd rhan] *yw hi, nid disgyblion, maen nhw'n barod i gymryd rhan*. Roedd yr ysgol hon wedi ceisio mynd i'r afael ag agwedd negyddol y staff trwy ddarparu hyfforddiant mewn swydd i staff a llywodraethwyr ar sut i weithio gyda phlant a phobl ifanc. Teimlwyd hefyd bod agweddau'r staff wedi newid ar ôl iddynt weld manteision cyfranogi, fel bod ymddygiad y plant yn gwella a rhagor o adnoddau (yn gysylltiedig â |

| Ffigur 4.1: Heriau a Rhwystrau i Gyfranogi |
|---|
| gweithgareddau mentergarwch) ar gael yn y dosbarth. Dywedodd y pennaeth fod staff yn dod yn eiriolwyr unwaith iddynt weld y manteision hyn ac yn awgrymu ffyrdd eraill o gynnwys disgyblion mewn gweithgareddau cyfranogol yn yr ysgol. Roedd yr ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar hyrwyddo hawliau a chyfrifoldebau pobl ifanc, a theimlwyd bod hyn wedi gwneud yr ysgol yn '*lle sy'n parchu pawb arall* ' ac wedi helpu i newid agweddau'r staff tuag at gyfranogi.<br><br>Roedd pobl ifanc anabl yn poeni fod y prosesau ymgynghori yn canolbwyntio ar eu rhieni/gofalwyr, oherwydd agweddau rhai o'r staff: '*Os ydyn nhw eisiau trafod rhywbeth gyda chi, dydyn nhw ddim yn siarad gyda chi'n bersonol, maen nhw'n siarad gyda'ch rhiant neu'ch gofalwr. Maen nhw'n trin chi fel plentyn*''. Awgrymwyd y gallai pobl ifanc gynllunio a rhoi hyfforddiant i weithwyr proffesiynol er mwyn mynd i'r afael â'r broblem. Roedd hyn yn dechrau digwydd eisoes. Roedd cynlluniau ar y gweill i hyfforddi aelodau'r rhwydwaith fel y gallant ddysgu amrywiaeth o staff gwasanaethau sut i weithio gyda phobl ifanc anabl.<br><br>Dywedodd rhai staff fforwm ieuenctid fod yr ysgol yn amharod i ymgysylltu â nhw mewn prosesau cyfranogi ar lefel awdurdod lleol. Er enghraifft, awgrymwyd nad oedd athrawon cyswllt yn mynychu cyfarfodydd am eu bod yn cael eu cynnal fin nos. Roedd denu ysgolion i fod yn rhan o'r broses a sicrhau bod ysgolion, fforymau ieuenctid a phartneriaethau pobl ifanc yn rhannu gwybodaeth yn well yn cael eu hystyried yn her bellach.<br><br>Roedd staff yr ysgol arbennig yn pwysleisio'r heriau sy'n gysylltiedig â chynnwys disgyblion yn y broses o recriwtio staff: '*byddem yn gorfod meddwl yn ofalus cyn cynnwys disgyblion mewn cyfweliadau staff, oherwydd materion cyfrinachedd.'* |
| **Sgiliau Staff** |
| Cafwyd enghreifftiau o staff yn rhoi gormod o gefnogaeth am nad oedd ganddynt ddigon o sgiliau i adael i blant a phobl ifanc gyfranogi'n effeithiol; er enghraifft, staff yn arwain trafodaethau ac awgrymu beth ddylai pobl ifanc ei ddweud, yn hytrach na sefyll yn ôl a gadael iddynt ddatrys materion eu hunain. Mae'r gallu i adael i bobl ifanc gymryd yr awenau eu hunain yn sgìl pwysig iawn i staff yn y maes hwn. Rhoddwyd enghreifftiau lle'r oedd gweithgareddau cyfranogol wedi methu am nad oedd pobl ifanc yn bennaf gyfrifol am y broses dan sylw. |
| **Sicrhau bod gan bobl ifanc y sgiliau i gyfranogi** |
| Roedd y fforymau/rhwydweithiau ieuenctid a'r ysgol arbennig a oedd yn rhan o'r astudiaeth wedi gwneud cryn dipyn o waith yn canolbwyntio ar ymwybyddiaeth pobl ifanc o'u hawliau er mwyn ceisio sicrhau bod gan bobl ifanc y sgiliau i gyfranogi. Roedd ysgolion cynradd yn rhoi mwy o bwyslais ar bethau ymarferol, a'r her oedd sicrhau bod pob disgybl yn deall beth drafodwyd yn y cyfarfodydd, beth a ddisgwylid ganddynt yn sgil y cyfarfodydd hyn, a bod ganddynt y sgiliau i wneud hynny – sef casglu barn disgyblion eraill. Roedd staff ysgolion cynradd yn meddwl fod rheoli'r ystod oedran eang yng nghyfarfodydd cyngor yr ysgol yn dipyn o her hefyd. |

| Ffigur 4.1: Heriau a Rhwystrau i Gyfranogi |
| --- |
| **Cyfleoedd cyfranogi i grwpiau penodol o bobl ifanc** |
| Roedd pobl ifanc anabl yn teimlo mai cymorth cyfyngedig braidd sydd ar gael iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogi prif ffrwd, ac nad oedd y sefydliadau sy'n eu gwahodd i gyfranogi bob amser yn ystyried sut y gall eu hanabledd effeithio ar eu cyfraniad. Er enghraifft, dywedodd pobl ifanc fod hyd yn oed y canolfannau sydd i fod yn gwbl hygyrch i ddefnyddwyr anabl yn anaddas mewn gwirionedd. Cyfeiriwyd at enghreifftiau fel rampiau anabl lle nad oedd digon o le i droi cadair olwyn, lifftiau ddim yn gweithio, llety preswyl heb ganllaw i afael ynddo yn y gawod, a llawr gwrthlithro nad oedd yn wrth-lithr mewn gwirionedd. Defnyddiwyd strategaeth lle'r oedd pobl ifanc anabl yn ymweld â'r darpar ganolfannau i'w hasesu a sicrhau eu bod yn gwbl hygyrch - ond roedd gan hyn oblygiadau o ran adnoddau i'r sefydliadau a'r bobl ifanc dan sylw. |

**Profiadau negyddol wrth gyfranogi**

4.3 Disgrifiodd nifer o bobl ifanc a staff brofiadau negyddol pobl ifanc wrth gyfranogi, a'u gwnaeth yn fwy sinigaidd am y broses gyfranogi. Cyfeiriwyd at yr adborth a roddwyd i bobl ifanc, a'u bod yn teimlo na chafodd eu cyfraniad fawr o effaith. Soniodd plant a phobl ifanc am ddulliau ymgynghori amhriodol a mater 'symboleiddiaeth'; a'r her o reoli disgwyliadau pobl ifanc eraill a barn eu cymheiriaid am gyfranogi.

**Materion Adborth**

4.4 Mynegodd staff a phobl ifanc eu pryderon am y dulliau a ddefnyddiwyd i roi adborth i blant a phobl ifanc, a ledled sefydliadau/gwasanaethau hefyd. Codwyd cwestiynau hefyd am safon yr adborth a roddwyd i blant a phobl ifanc. Roedd hyd yn oed staff a roddodd adborth yn teimlo fod angen datblygu a gwella'r maes hwn ymhellach. Roedd lefelau'r adborth, ac i ba raddau yr oedd yn fecanwaith ffurfiol, hefyd yn amrywio'n fawr o un lleoliad i'r llall:-

- roedd **diffyg adborth** yn fater a godwyd gan yr holl leoliadau yr ymwelwyd â nhw. Mewn rhai ysgolion uwchradd, nid oedd rhai o'r disgyblion nad oedd yn cymryd rhan yn ymwybodol o beth oedd y cyngor ysgol wedi'i gyflawni. Dylai'r ysgolion sy'n dymuno ehangu'r niferoedd sy'n cyfranogi roi blaenoriaeth amlwg i godi ymwybyddiaeth o'r hyn a gyflawnwyd a chyflwyno dulliau adborth clir;
- **y dulliau a ddefnyddiwyd i roi adborth i bobl ifanc**: roedd y bobl ifanc yn credu bod y rhain yn llai effeithiol na'r dulliau a sefydlwyd i roi gwybodaeth 'yn uwch i fyny' (gweler ffigur 4.2). Ar ben hynny, un aelod o'r staff oedd yn gyfrifol am roi adborth mewn rhai ysgolion. Nid yw'r dull hwn yn debygol o annog staff a myfyrwyr i deimlo cyfrifoldeb am y broses gyfranogi. Mewn ysgolion uwchradd, mae'n ymddangos ei bod yn anodd cysylltu gwaith cyngor yr ysgol â dulliau ac arferion cyfranogi eraill.
Er mwyn llwyddo, awgrymwn y dylai'r ymgynghoriad ysgol gael cylch gorchwyl tipyn ehangach na chyngor yr ysgol. Mae'r diffyg dulliau adborth

yn golygu fod pobl ifanc yn cael trafferth derbyn gwybodaeth gan y fforwm ieuenctid (trwy gyfrwng eu hysgol) ac yn ei chael hi'n anodd rhoi gwybodaeth i'w cyd-ddisgyblion am waith y fforwm ieuenctid. Dylid cryfhau'r cysylltiadau hyn er mwyn sicrhau dulliau cyfranogi llwyddiannus ledled yr awdurdodau lleol.

**Diffyg Effaith**

4.5 Roedd pobl ifanc anabl yn fwy na neb yn teimlo'n fwyfwy rhwystredig a sinigaidd am nad oedd '*dim yn newid*' er gwaetha'r ffaith eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogol, ac nad oedd gwelliannau amlwg i'w gweld yn y gwasanaethau a dderbyniwyd. Holwyd gweinidog o Lywodraeth y Cynulliad am hyn pan gafodd gyfarfod gyda phobl ifanc anabl.

4.6 Mewn ysgolion, (fel y nodwyd eisoes) roedd disgyblion fwyaf tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau ymgynghorol sy'n canolbwyntio ar gyfleusterau ac amgylchedd yr ysgol, gan gyfyngu ar eu potensial i ddylanwadu ar y cwricwlwm a phenderfyniadau strategol yn yr ysgol. Ar lefel awdurdod lleol, mae'r diffyg dulliau i alluogi pobl ifanc i ddylanwadu ar arferion a pholisïau yn cyfyngu ar eu gallu i ddylanwadu ar y gwasanaethau a ddarperir. Felly, nid oedd llawer o dystiolaeth o newid gwariant cyllidebol ar ôl ymgynghori â phobl ifanc ar y lefel yma.

**Dulliau ymgynghori amhriodol a symboleiddiaeth**

4.7 Cyflwynodd pobl ifanc sawl enghraifft o brofiadau negyddol wrth gymryd rhan mewn fforwm/rhwydwaith ieuenctid; roedd hyn yn ymwneud â'u cyfranogiad mewn gweithgareddau ymgynghori (gweler Ffigur 4.2 am enghreifftiau). Gallai'r gweithdrefnau sydd wrth wraidd cyfraniad pobl ifanc at weithgareddau cyfranogi beri iddynt ddadrithio gyda'r holl broses, ynghyd â'r farn bod gweithgareddau cyfranogol yn enghraifft o symboleiddiaeth (gweler Ffigur 4.2).

**Rheoli disgwyliadau a barn cymheiriaid am gyfranogi**

4.8 Roedd pobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogol, fel cynghorau ysgolion, yn rhwystredig oherwydd nad oeddent yn gallu cyflawni'r hyn yr oeddynt wedi'i obeithio bob amser, oherwydd diffyg arian er enghraifft. Er hynny, roeddynt yn cydnabod fod hyn yn rhan o'r broses ddysgu ei hun. Yn ogystal â rheoli eu disgwyliadau eu hunain, roedd rhaid i blant a phobl ifanc reoli disgwyliadau eu cymheiriaid hefyd. Disgyblion ysgol uwchradd oedd yr unig rai yr ymgynghorwyd â nhw a awgrymodd na ddylid rhoi pwysau ar ddisgyblion eraill i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogol, er nad oedd hwn yn fater arwyddocaol iawn. Nid oedd cyfranogi yn debygol o godi fel pwnc trafod os oedd yn rhan o ethos yr ysgol.

| Ffigur 4.2: Rhwystrau a Heriau i Gyfranogi |
|---|
| **Materion adborth** |
| Roedd staff ysgolion a staff fforymau ieuenctid yn pwysleisio ei bod hi'n bwysig fod plant a phobl ifanc yn gallu gweld newidiadau ar ôl iddynt gymryd rhan, neu o leiaf yn cael gwybod pam na allai bethau ddigwydd, er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw ymdeimlad o ddadrithiad a sinigiaeth gynyddol gyda'r broses gyfranogi. Pobl ifanc anabl a'r staff sy'n gweithio gyda nhw a gododd y mater hwn yn benodol. Dywedodd staff ei bod hi'n hollbwysig rhoi adborth i bobl ifanc, hyd yn oed os nad oedd modd gwneud unrhyw beth, neu fe fyddant '*yn sinigaidd o'r holl broses*'. Ategwyd hyn gan y bobl ifanc eu hunain.<br><br>Roedd un person ifanc a oedd yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau cyfranogol, gan gynnwys cyngor yr ysgol, y fforwm ieuenctid a'r Ddraig Ffynci, yn teimlo bod '*gwybodaeth yn mynd am i fyny ond nid i lawr*. |
| **Diffyg effaith** |
| Mewn un awdurdod lleol, roedd aelodau fforwm ieuenctid lleol yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio arnynt yn uniongyrchol, ond â llai o ddylanwad ar gyrff eraill sy'n gwneud penderfyniadau o fewn yr awdurdod lleol. Roedd staff yn teimlo bod angen i gynghorwyr ymuno â fforymau penderfyniadau pobl ifanc yr awdurdod.<br><br>Roedd staff fforwm ieuenctid mewn sawl awdurdod lleol yn credu bod angen gwneud mwy o waith i feithrin cysylltiadau rhwng pobl ifanc a'r penderfynwyr allweddol yn yr awdurdodau lleol er mwyn gwella effaith bosibl cyfraniad pobl ifanc i benderfyniadau strategol. Er enghraifft, sylwodd staff fod cysylltiadau da rhwng aelodau'r cyngor ond nid gyda'r rheolwyr canol. Yn yr un modd, roedd perthynas dda gydag arweinydd y gwasanaethau plant, ond roedd angen meithrin cysylltiadau gyda'r aelodau etholedig. |
| **Dulliau ymgynghori amhriodol a symboleiddiaeth** |
| Cafwyd enghreifftiau o ddulliau ymgynghori amhriodol gan bobl ifanc. Roeddynt yn canolbwyntio ar:-<br><br>• yr iaith a'r adnoddau a ddefnyddiwyd, a oedd yn golygu na allent ddarllen taflenni er enghraifft;<br>• y defnydd o jargon; a<br>• gorfod mynegi barn am yr un materion o hyd, a oedd yn golygu fod safon y broses ymgynghori yn wael.<br><br>Dywedodd aelodau'r fforwm ieuenctid bod hyd a fformat y cyfarfodydd yn gallu bod yn dipyn o her weithiau.<br><br>Cyfeiriodd pobl ifanc anabl at y gweithdrefnau sy'n sail i gyfranogiad pobl ifanc mewn gweithgareddau cyfranogol. Pwysleisiwyd bod angen i'w gweithwyr cymdeithasol hwyluso pethau cyn y gallant gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogol fel gwirfoddoli. Roedd rhai'n teimlo bod hyn yn tanseilio eu hawl i |

| Ffigur 4.2: Rhwystrau a Heriau i Gyfranogi |
|---|
| benderfynu drostynt eu hunain. Roedd hyn yn adleisio sylwadau pobl ifanc anabl eraill a oedd yn teimlo eu bod wedi'u heithrio o'r broses benderfyniadau ynglŷn â chyfranogi, oherwydd bod pobl yn cysylltu â'u rhieni/gofalwyr yn hytrach na'r bobl ifanc eu hunain.<br><br>I Materion symboleiddiaeth: cyflwynodd aelodau fforwm ieuenctid enghreifftiau o achosion lle'r oedd gweithgareddau cyfranogol mewn cynghorau lleol, [e.e. ymgynghori ar gynlluniau mynediad] yn ymarfer 'symbolaidd' yn unig a'u bod yn cael eu defnyddio i roi sêl bendith ar benderfyniadau oedd eisoes wedi'u gwneud. Ategwyd hyn gan aelod o staff a oedd yn teimlo fod angen argyhoeddi'r '*rhai mewn grym bod gan bobl ifanc rywbeth dilys a gwerthfawr i'w ddweud"* |
| **Rheoli disgwyliadau** |
| Dywedodd aelod o gyngor yr ysgol bod angen rheoli disgwyliadau'r disgyblion: '*nid yw disgyblion eraill yn deall pam na allent gael rhywbeth*'. Un ffordd o oresgyn hyn oedd rhoi adborth i weddill yr ysgol ynglyn â pham nad oedd modd cyflawni pethau. Hefyd, roedd un ysgol gynradd wedi mabwysiadu strategaeth lwyddiannus o ddefnyddio'r disgyblion hŷn i reoli disgwyliadau'r rhai iau. |

# 5. ARFERION DA, GWERSI A DDYSGWYD A MEYSYDD I'W DATBLYGU

**Canfyddiadau Allweddol:**
**Arferion da, gwersi a ddysgwyd a meysydd i'w datblygu**

**Enghreifftiau o arfer da**

- Nodwyd amrywiaeth o arferion da yn y lleoliadau yr ymwelwyd â nhw. Roedd hyn yn canolbwyntio ar brosesau gweithredol a sicrhau bod cyfranogi yn rhan hanfodol o ethos yr ysgol/sefydliad.
- Roedd arferion da mewn prosesau gweithredol yn cynnwys:-
  - syniadau clir am y nodau, amcanion a'r canlyniadau dymunol, a gynorthwyodd i sefydlu fframwaith ar gyfer cyfranogi;
  - cynnwys plant a phobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel, gan gynnwys gwneud penderfyniadau strategol;
  - dulliau ar gyfer rhoi adborth a gwerthuso; a
  - darparu hyfforddiant a datblygu.

**Gwersi a ddysgwyd**

- Pan ofynnwyd i staff a phobl ifanc nodi pa wersi a ddysgwyd ar ôl cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogi, fe wnaethant ganolbwyntio ar ffactorau llwyddiant allweddol fel: cyfleoedd i ddysgu fel grŵp; y cysylltiadau rhwng staff a phobl ifanc; plant a phobl ifanc yn teimlo'n gyfrifol am y broses gyfranogi. Cyfeiriwyd hefyd at nifer o wersi a ddysgwyd wrth fynd i'r afael â heriau/rhwystrau penodol, sef: heriau logistaidd; faint o amser a gymerwyd i roi'r newidiadau ar waith; a materion ariannu.

**Meysydd i'w datblygu**

- Canolbwyntiodd y rhai yr ymgynghorwyd â nhw ar nifer o themâu craidd, a nodwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, sef: sicrhau bod gweithgareddau cyfranogol yn fwy cynrychioliadol; sicrhau bod gweithgareddau'n cael effaith ar y broses o wneud penderfyniadau mewn a ledled lleoliadau; a chyflwyno dulliau ar gyfer mesur effaith.

## Cyflwyniad

5.1 Nodwyd amrywiaeth o arferion da yn y lleoliadau yr ymwelwyd â nhw, a oedd yn canolbwyntio ar brosesau gweithredol a sicrhau bod cyfranogiad yn rhan hanfodol o ethos yr ysgol/sefydliad.

**Arferion da: Ethos yr ysgol/sefydliad**

5.2 Roedd llawer o'r lleoliadau yr ymwelwyd â nhw yn **sicrhau bod cyfranogiad yn rhan hanfodol o ethos yr ysgol/sefydliad**, ac roedd lleoliadau eraill yn anelu at hynny. Lle sicrhawyd hynny, roedd cyfranogi yn rhan o ddull ysgol/sefydliad cyfan sy'n effeithio ar bob gweithgaredd. Nid cyfres o weithgareddau ar wahân oedd cyfranogi yn y lleoliadau hyn, ac roedd staff yn ymwybodol o'r ffaith na allai'r gweithgareddau hyn fod yn ychwanegol i'w gwaith arall. Er mwyn sicrhau bod y dulliau cyfranogi yn llwyddiannus, dywedodd staff a phobl ifanc fod angen uwch eiriolwr yn yr ysgol/sefydliad i hyrwyddo a helpu'r dulliau i ddatblygu, yn enwedig yn ystod y camau cyntaf. Teimlwyd bod angen defnyddio aelod uwch o'r staff i sicrhau amser ac adnoddau angenrheidiol i gyflwyno a sicrhau llwyddiant y dulliau cyfranogol.

5.3 Lle'r oedd cyfranogiad wedi'i wreiddio yn ethos y sefydliad, gellir ystyried hyn fel ffrwyth gwaith unigolyn/unigolion ymroddedig a oedd yn 'gweld y manteision', neu oedd â'r weledigaeth i gyflwyno dulliau cyfranogol. Ethos yr unigolion hyn oedd wedi gyrru'r gwaith ymlaen (gweler Ffigur 5.1 am enghreifftiau). Roedd cael rhywun allweddol i hyrwyddo cyfranogiad yn fodd o roi'r strwythurau a'r strategaethau ar waith, er mwyn cefnogi'r broses a sicrhau bod cyfranogiad yn rhan o ethos yr ysgol/sefydliad. Fel y nodwyd eisoes, 'mae'n rhaid i'r manteision fod yn amlwg i'r holl staff' i'r dull hwn gael ei weithredu'n llwyddiannus mewn sefydliad. Unwaith mae hyn yn digwydd, mae'r staff hwythau'n hyrwyddo dulliau cyfranogol eu hunain. Mae hyn yn pwysleisio pa mor bwysig yw sicrhau bod hyfforddiant staff yn canolbwyntio ar fanteision cyfranogi, gofalu fod timau staff yn rhannu cyfrifoldebau am ddulliau cyfranogi, a chael arweiniad a chymorth strategol cryf.

**Arferion Da: Prosesau Gweithredol**

5.4 Roedd arferion da mewn prosesau gweithredol yn canolbwyntio ar:-

- syniadau clir am y nodau, amcanion a'r canlyniadau dymunol;
- cynnwys plant a phobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel, gan gynnwys penderfyniadau strategol;
- rhoi adborth a gwerthuso;
- darparu hyfforddiant a datblygu;
- cynnal etholiadau a dyrannu cyllidebau; a
- cymorth arbenigol er mwyn i grwpiau penodol o bobl ifanc gyfranogi.

**Syniadau clir am y nodau, amcanion a'r canlyniadau dymunol**

5.5 Roedd staff yn credu bod cael syniadau clir am nodau, amcanion a chanlyniadau dymunol arferion cyfranogol wrth drefnu gweithgareddau o'r fath yn enghraifft o arfer da (gweler Ffigur 5.2 am enghreifftiau). Teimlwyd bod y dull hwn o gymorth i sefydlu fframwaith clir ar gyfer gweithgarwch cyfranogol. Gwelodd y staff fanteision cynnwys plant a phobl ifanc wrth bennu nodau ac amcanion y gweithgarwch cyfranogol, ac wrth fonitro'r cynnydd o ran cyflawni'r canlyniadau.

Awgrymwyd (fel y nodwyd eisoes) bod rhai gweithgareddau cyfranogol wedi methu o'r blaen am nad oedd plant a phobl ifanc yn teimlo cyfrifoldeb amdanynt.

**Cynnwys plant a phobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel**

5.6 Roedd yr arferion da a nodwyd yma yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc yn cymryd rhan lawn mewn prosesau gwneud penderfyniadau ar bob lefel, a'u bod yn cymryd cyfrifoldeb amdanynt. Roedd gwaith ymchwil blaenorol (Y Ddraig Ffynci, 2008) yn dangos bod pobl ifanc yn aml eisiau'r cyfle i gyfrannu mwy at benderfyniadau na'r hyn a ganiateir iddynt. Os oedd plant a phobl ifanc yn rhan o'r broses recriwtio, roedd ein hastudiaeth yn dangos bod y rhai yr ymgynghorwyd â nhw yn teimlo eu bod yn rhan o'r broses, yn helpu i sicrhau hygrededd ac atebolrwydd, ac yn credu y byddai eraill yn gwrando ar eu safbwyntiau nhw. Roedd staff yn credu bod cynnwys plant a phobl ifanc mewn prosesau gwneud penderfyniadau yn arfer da, gan ei fod yn rhoi cyfle iddynt feithrin amrywiaeth eang o sgiliau cysylltiol a theimlo eu bod yn rhan o'r broses ac yn gyfrifol amdani (gweler Ffigur 5.2 am enghreifftiau).

5.7 Cafwyd nifer o enghreifftiau arfer da lle'r oedd plant a phobl ifanc wedi cyfrannu'n uniongyrchol at gynlluniau strategol ar lefel yr ysgol a'r awdurdod lleol; er enghraifft, Cynlluniau Gwella Ysgolion a Chynlluniau Sengl awdurdodau lleol. Ni chafwyd tystiolaeth o effaith hyn ar gyflwyno gwasanaethau hyd yma. Ar lefel ysgol fodd bynnag, lle'r oedd plant a phobl ifanc wedi cyfrannu'n uniongyrchol at ddiwygio'r cwricwlwm, roedd tystiolaeth yn dangos bod trefniadau cynnwys disgyblion wedi gwella.

5.8 O ran awdurdodau lleol, roedd pobl ifanc yn dueddol o gyfarfod cynghorwyr trwy weithdrefnau adrodd oedolion – a thrwy'r rhain, teimlwyd eu bod wedi cael effaith uniongyrchol ar bolisi ac arferion yr awdurdod lleol. Er hynny, roedd rhai'n poeni nad dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o gynnwys pobl ifanc. Roedd un awdurdod lleol wedi datblygu ei ddulliau ei hun, lle'r oedd cynghorwyr yn mynychu cyfarfodydd pobl ifanc.

**Rhoi adborth a gwerthuso**

5.9 Rydym eisoes wedi trafod llawer o'r arferion da hyn ym Mhennod 3. Dyma'r prif feysydd a nodwyd, gan staff yn bennaf (gweler Ffigur 5.2 am enghreifftiau):-

- sicrhau bod dulliau adborth ar waith a chynnwys mecanweithiau adborth a gwerthuso mewn pob dull cyfranogol;
- cynnwys plant a phobl ifanc wrth asesu gwasanaethau a gweithgareddau;
- defnyddio plant a phobl ifanc i gasglu barn eu cymheiriaid; a
- sicrhau bod strategaethau rhannu arferion da mewn grym.

**Cyfleoedd hyfforddi a datblygu sy'n gysylltiedig â chyfranogi**

5.10 Roedd un fforwm yn cynnig hyfforddiant a chyfleoedd datblygu rheolaidd ar gyfranogi i staff gwasanaethau ieuenctid awdurdod lleol, a hefyd yn rhoi cymorth a hyfforddiant i staff a disgyblion ysgolion uwchradd ar ofynion deddfwriaeth cynghorau ysgol. Roedd yr hyfforddiant a'r cymorth hwn yn cael ei ystyried yn arfer da gan ei fod yn codi ymwybyddiaeth staff o fanteision cyfranogi, yn hyrwyddo hawliau a chyfrifoldebau'r plant, ac yn dangos unrhyw fylchau a materion. Dywedodd staff fforymau ieuenctid sy'n gweithio yn y gymuned/mewn canolfannau, eu bod yn gwerthfawrogi'r cymorth a gawsant gan staff fforymau ieuenctid i hyrwyddo gwaith cyfranogol (gweler Ffigur 5.2 am enghreifftiau).

5.11 Rhoddwyd enghreifftiau o arfer da ym maes hyfforddiant hefyd, lle'r oedd pobl ifanc yn cael sgiliau i addysgu gweithwyr proffesiynol/gwasanaethau eraill i weithio'n effeithiol gyda phlant a phobl ifanc. Roedd staff a phobl ifanc yn teimlo fod hyfforddiant yn creu llu o fanteision posibl i'r rhai sy'n rhoi a derbyn hyfforddiant. Roedd pobl ifanc mewn ychydig o leoliadau wedi bod yn cymryd rhan mewn hyfforddiant i gymheiriaid ar weithgareddau cyfranogol penodol, gan gynnwys rhaglen iechyd rhyw a drefnwyd gan ddisgyblion a hyfforddiant i gynnal llyfrgell yr ysgol dan arweiniad y disgyblion. Roedd y rhaglenni hyfforddiant dan arweiniad cymheiriaid yn gweithio'n effeithiol gan eu bod yn galluogi pobl ifanc i rannu'r sgiliau a ddysgant.

**Cynnal etholiadau a dyrannu cyllidebau**

5.12 Roedd staff ysgolion yn teimlo bod defnyddio prosesau etholiad oedolion, fel blychau pleidleisio a phapurau etholiad, a gofyn i'r disgyblion roi 'anerchiadau' i gefnogi'u hymgyrch yn arfer da, ac yn ffordd o godi ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o faterion gwleidyddol. Roedd staff hefyd yn credu ei bod yn arfer da i gyngor yr ysgol gael ei gyllideb ei hun, a phenodi trysorydd i reoli adnoddau, gan ei fod yn cynyddu'r ymdeimlad y disgyblion o berthyn a chyfrifoldeb.

| Ffigur 5.1: Arfer Da: Ethos yr Ysgol/Sefydliad |
|---|
| **Sicrhau bod cyfranogi yn rhan hanfodol o ethos yr ysgol/sefydliad** |
| Mewn llawer o ysgolion, roedd gweithiwr allweddol yr ysgol yn gyfrifol am lwyddiant gweithgareddau cyfranogi: '*Roedd ef* [dirprwy bennaeth] *yn ymwybodol o bwysigrwydd cyfranogi a gwaith amgylcheddol* ' ac yn ei ysgogi: '*ef gyflwynodd y peth. Doeddwn i ddim yn meddwl y bydden ni'n gallu ei wneud e'. '*Dywedodd '*mae'n ysgol dda ond does neb yn dod atom ni, mae'n rhaid inni ddenu'r gymuned i'r ysgol*'' (pennaeth).<br><br>Roedd sylwadau'r staff mewn lleoliadau a gyflwynodd yr egwyddorion hyn ledled yr ysgol/sefydliad cyfan yn adlewyrchu hyn: '*nid dim ond f'ysgol i yw hon, eich ysgol chi yw hi* (pennaeth ysgol gynradd), a '*rhwydwaith y bobl ifanc, nid fi, yw hwn. Dim ond helpu ydw i*' (cydgysylltydd rhwydwaith). Yn achos gwasanaethau fel y gwasanaeth ieuenctid (a staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth hwnnw), roedd cyfranogi yn cael ei ystyried yn ganolbwynt i'w gwaith. Roedd un athro ysgol gynradd yn trafod sut oedd cyfranogi yn rhan o'r dull ysgol gyfan: *'Gyda phethau fel hyn, mae'n haws dweud na gwneud a pheidio â gweithredu ar bethau. Dwi'n* |

*credu ein bod ni wedi ceisio mynd ymhellach na hynny yma. Roeddem ni'n teimlo bod angen mynd ymhellach na delio â thai bach a gwisg ysgol yn unig, tuag at ddull ysgol gyfan, a gofalu ein bod ni'n gwrando ar farn y disgyblion ac yn eu hadlewyrchu'.*

| Ffigur 5.2: Arfer Da: Prosesau gweithredol |
|---|
| **Nodau ac amcanion clir** |
| Mewn un ysgol, roedd gan yr holl weithgareddau cyfranogol gyfansoddiad yn nodi manylion eu nodau ac amcanion, trefniadau cynnal etholiadau, pa mor rheolaidd y cynhelir cyfarfodydd a'r manylion am hawliau a chyfrifoldebau. Dyma enghraifft o nodau ac amcanion mewn un cyfansoddiad: '*Cydweithio â'r gymuned leol trwy ddarparu criw o wirfoddolwyr amgylcheddol i feithrin cysylltiadau mwy estynedig rhwng staff amgylcheddol, disgyblion, rhieni, a'r gymuned leol; cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cynorthwyo''r gymuned a hybu addysg aelodau'r Tasglu a darparu a helpu i ddarparu gwasanaethau i'r gymuned yn ôl yr hyn a benderfynir yn nhrafodaethau'r Tasglu â'r corff llywodraethu''.* |
| **T Cynnwys plant a phobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau** |
| Cyflwynwyd enghreifftiau o arfer da lle'r oedd pobl ifanc yn cyd-gadeirio cyfarfodydd y cyngor, yn cyd-gadeirio grwpiau 'gorchwyl a gorffen' senedd ieuenctid, yn aelodau o grŵp llywio ar gyfer rhaglen eiriolaeth a sefydlu pwyllgorau i arwain grwpiau a rhwydweithiau unigol, yn ogystal â gweithdai a chynadleddau. Roedd plant a phobl ifanc oedd â chysylltiad â chyrff gwneud penderfyniadau oedolion ar y lefel hon hefyd yn ddull o fonitro, ac yn sicrhau bod materion a sylwadau pobl ifanc ar yr agenda a bod cyfarfodydd yn 'ystyriol o bobl ifanc'.<br><br>**Pobl ifanc yn sefydlu pwyllgor i gynnal grŵp gweithredu lleol**<br><br>Mewn un awdurdod lleol, sefydlwyd grŵp '*er mwyn i blant a phobl ifanc anabl yr awdurdod lleol gael dweud eu dweud am y gwasanaethau maent yn eu derbyn a'r materion sy'n effeithio arnynt o ddydd i ddydd'.* Aeth aelodau hyn y grŵp ati i sefydlu pwyllgor: '*i ddylanwadu a llywio gwaith y prif grŵp'.* Roedd y pwyllgor yn canolbwyntio ar y materion pwysicaf i bobl ifanc; fel trafnidiaeth a lleoliadau gwaith i bobl ifanc anabl. Y pwyllgor hwn oedd yn gyfrifol am lywio gwaith y prif grŵp a threfnu cyfarfodydd, ac fe'i disgrifiwyd gan un o'r staff fel '*cyfle i bobl ifanc gyfranogi go iawn'*.<br><br>**Pobl ifanc yn cyd-gadeirio grwpiau penderfyniadau strategol awdurdod lleol**<br><br>Roedd aelodau o fforwm ieuenctid mewn awdurdod lleol arall yn cyd-gadeirio cyfarfodydd 'Grŵp Cydgysylltu Strategol - Mwynhau a Chymryd Rhan' a oedd yn canolbwyntio ar y gwasanaethau sy'n cael eu darparu i bobl ifanc yr ardal. Dyma un o bedwar Grŵp Cydgysylltu sy'n atebol i'r Partneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc: Bwrdd Fframwaith. Mae dau o aelodau'r fforwm ieuenctid yn cadeirio'r cyfarfodydd ar y cyd '*i wneud yn siŵr bod pobl yn gwrando ar bobl ifanc'*. Cafodd y gwaith hwn ei nodi fel enghraifft o arfer da gan Estyn (2007): '*caiff pobl ifanc gyfleoedd da i gael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau am gynllunio gwasanaethau cymorth ieuenctid. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith y fforwm* |

**Ffigur 5.2: Arfer Da: Prosesau gweithredol**

*ieuenctid a grwpiau fforwm lleol ar ystadau tai gyda Chymunedau yn Gyntaf. Enghraifft dda o hyn yw'r ffaith fod dau berson ifanc yn gyd-gadeiryddion un o'r Grwpiau Cydlynu Strategol, ac mae hyn yn gweithio'n dda'*.

**Recriwtio staff a phobl ifanc**

Cafodd un pennaeth ysgol uwchradd ei gyfweld gan ei ddisgyblion. Roedd y pennaeth wedi'i blesio cymaint gyda'r profiad, nes penderfynodd fabwysiadu'r dull hwn ar gyfer recriwtio holl staff yr ysgol.

Mewn un awdurdod lleol, roedd aelodau'r fforwm ieuenctid yn gyfrifol am recriwtio pobl ifanc i'r Senedd Ieuenctid arfaethedig. Er bod y prif swyddogion yn teimlo'n rhwystredig o ran pa mor hir fyddai'r holl broses yn para, dywedodd un aelod o staff y fforwm ieuenctid ei bod hi'n hollbwysig gadael i bobl ifanc lywio'r broses o'r dechrau er mwyn ennyn diddordeb a meithrin ymdeimlad o gyfrifoldeb. Meddai'r aelod staff hwnnw: *'mae'n rhaid iddyn nhw benderfynu ar y prosesau recriwtio*'.

**Cymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau, a chynnig amrywiaeth o sgiliau cysylltiol i blant a phobl**

Roedd y gweithgareddau mentergarwch a drefnwyd mewn rhai ysgolion yn rhoi cyfle gwirioneddol dda i ddisgyblion fod yn rhan o brosesau gwneud penderfyniadau '*ymarferol*'. Roedd un pennaeth ysgol gynradd yn teimlo fod gwaith cyngor yr ysgol ym maes mentergarwch yn enghraifft o arfer da oherwydd ei fod yn helpu'r disgyblion '*i ddeall mwy am fyd gwaith a deall beth yw eu cyfrifoldebau – mae rhaid ohonynt eisoes yn meddwl am eu dyfodol*. *Mae'n effeithio ar y modd maen nhw'n meddwl am fywyd yr ysgol a bywyd yn gyffredinol, maen nhw'n fwy ymroddedig'.* Roedd y gweithgareddau hyn yn helpu'r disgyblion i feithrin sgiliau amrywiol: gwneud penderfyniadau, codi arian, sgiliau gwerthuso (ystyried manteision ac anfanteision dulliau gwahanol), cysylltu â phobl eraill (plant ac oedolion), a gofyn am ddyfynbrisiau. Dywedodd fod y gweithgareddau hyn yn gofyn ac yn datblygu sgiliau y gallai disgyblion eu defnyddio mewn agweddau eraill ar fywyd yr ysgol. Er enghraifft, roedd disgyblion wedi llwyddo i sicrhau grant i wella iard chwarae'r ysgol. Roedd yr holl broses yn cynnwys ysgrifennu at y noddwr i ddweud pam eu bod yn credu y dylent gael cymorth grant. Ar ôl derbyn yr arian grant, bu'r disgyblion yn cyfarfod â syrfewyr, penodi rheolwr prosiect a rheolwr cyllid i gwblhau'r costau, cyfarfod â chynrychiolydd gwerthiant, paratoi holiadur i weld pa welliannau hoffai'r disgyblion eu gweld, a chyfarfod â chynllunwyr i gynllunio'r gwaith.

**Cymryd cyfrifoldeb am benderfyniadau**

Dywedodd  pennaeth ysgol gynradd fod rhaid i'r staff '*gamu'n ôl a bod yn ddigon hyderus i adael i'r disgyblion wneud eu penderfyniadau eu hunain'* er mwyn cymryd iddynt gymryd cyfrifoldeb amdanynt. Roedd hyn yn arfer da gan ei fod yn rhoi cyfle i'r disgyblion ddysgu sut i ddygymod â gwneud penderfyniadau 'anghywir' yn ogystal â'r rhai 'cywir'; fel mynd i'r afael â goblygiadau gorwario'r gyllideb.

| Ffigur 5.2: Arfer Da: Prosesau gweithredol |
| --- |

Roedd staff fforymau ieuenctid yn teimlo fod gadael i bobl ifanc reoli'r broses ymgynghori, er enghraifft defnyddio'r 'ffurflenni cais i ymgynghori', yn enghraifft arall o arfer da (gweler Atodiad A).

Roedd enghreifftiau o arferion da a nodwyd gan staff a phobl ifanc yn cynnwys gadael i blant a phobl ifanc fod yn gyfrifol am gyfarfodydd y maent yn rhan ohonynt, fel:-

- pennu'r agenda;
- hwyluso a chadeirio cyfarfodydd (ar lefel ysgol a'r cyngor);
- cymryd cofnodion cyfarfodydd;
- cyfrifoldeb dros wahodd staff a chynghorwyr i gyfarfodydd.

**Pobl ifanc yn gyfrifol am sefydlu dulliau cyfranogol**

Roedd disgyblion un ysgol wedi sefydlu gorsaf deledu ysgol. Y disgyblion oedd yn gyfrifol am reoli'r orsaf, sy'n arfer da. Dywedodd un o'r disgyblion nad oedd rhai gweithgareddau cyfranogol fel gorsaf deledu ysgol, yn llwyddiannus mewn ysgolion eraill '*oherwydd nid yw'r disgyblion yn gyfrifol amdano, a bod yr orsaf yn cyflwyno gwybodaeth amherthnasol i'r disgyblion.* Ategwyd y farn hon y pennaeth, a ddywedodd: '*mae gan sawl ysgol ei gorsaf deledu ei hun, ond nid ydynt yn ei rhoi yn nwylo'r disgyblion'*. Dywedodd staff fod disgyblion yn trin a thrafod datblygiad yr orsaf deledu yn frwd gyda'r pennaeth, sy'n adlewyrchu'r berthynas aeddfed rhwng staff a disgyblion.

**Arferion da wrth roi adborth a gwerthuso**

Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn rhan o'r broses o asesu'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu: roedd pobl ifanc mewn tri awdurdod lleol yn gyfrifol am asesu gweithgareddau cyfranogol, neu'n mynychu cyfarfodydd y cyngor i sicrhau bod anghenion pobl ifanc yn cael eu diwallu. Hefyd, roedd plant a phobl ifanc hefyd yn gysylltiedig â gwasanaethau monitro a chreu gweithdrefnau. Roedd y ffaith eu bod yn cael eu talu am wneud y gwaith hwn yn arfer da.

Roedd y staff yr ymgynghorwyd â nhw yn credu ei bod yn arfer da defnyddio plant a phobl ifanc i gasglu barn eu cymheiriaid wrth drafod diwygio'r cwricwlwm er enghraifft, neu lle'r oedd disgyblion yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth/cymorth i'w cymheiriaid (fel addysg rhyw neu wasanaeth cyfryngu i gymheiriaid).

Sicrhau bod dulliau monitro ar waith, er enghraifft:-

- trwy'r 'ffurflenni cais i ymgynghori';
- bod y ddolen adborth yn gyflawn, hynny yw, adborth 'ar i fyny' ag 'i lawr'; a
- bod sefydliadau a phrosesau ymgynghori yn rhoi cyfle i bobl roi adborth, yn enwedig i fynegi pam bod arferion wedi newid, neu efallai'n bwysicach fyth, pam nad oedd modd newid arferion.

| Ffigur 5.2: Arfer Da: Prosesau gweithredol |
|---|
| Cyflwyno dulliau monitro i weithgareddau cyfranogol: er enghraifft, cynhaliodd un pennaeth ysgol gynradd adolygiad blynyddol o waith cyngor yr ysgol, gan nodi'r prif bwyntiau dysgu i'w cyflwyno ar gyfer y flwyddyn ganlynol.<br><br>Dulliau ar gyfer rhannu arferion da: mewn un awdurdod lleol, sefydlwyd Fforwm Cynghorau Ysgol i rannu arferion da rhwng cynghorau ysgolion uwchradd. Roedd dau o bobl ifanc o bob ysgol uwchradd yn cyfarfod bob hanner tymor i drafod y cynnydd a'r datblygiadau diweddaraf. Sefydlwyd y grŵp '*oherwydd bod pobl ifanc eisiau i'r cynghorau ysgolion gwahanol gydweithio'n agosach. Bydd hefyd yn cynnal etholiadau Cynrychiolydd Cynghorau Ysgol y Ddraig Ffynci. Y fforwm sy'n ethol y cynrychiolydd hwn bellach, ac sy'n bwydo gwybodaeth i a chan y Ddraig Ffynci* ' (gwefan y fforwm). |
| **Arferion da wrth hyfforddi a datblygu** |
| Mewn un awdurdod lleol, roedd y gwasanaeth ieuenctid yn rhoi cymorth a hyfforddiant i staff a disgyblion ysgol uwchradd godi ymwybyddiaeth o, a chydymffurfio â, deddfwriaeth cyngor yr ysgol. Roedd hyn yn cael ei ystyried yn bwysig er mwyn mynd i'r afael â materion penodol fel: amseroedd cynnal cyfarfodydd (hynny yw, nid amser cinio neu ar ôl ysgol); cynnal etholiadau go iawn; a pheidio â defnyddio'r cynghorau fel strategaeth i ddileu disgyblion sy'n camymddwyn o'r dosbarthiadau. Mae'r staff gwasanaeth ieuenctid yn gofyn i ysgolion pa hyfforddiant sydd ei angen arnynt, neu pa hyfforddiant sydd ei angen ar bobl ifanc. Mae'r amrywiaeth o gymorth/hyfforddiant y gellir ei roi i bobl ifanc yn cynnwys:-<br><br>• beth yw cyngor ysgol;<br>• sut i gadeirio cyfarfod;<br>• sut i fod yn drysorydd;<br>• sut i gyfathrebu â'u cymheiriaid; a<br>• unrhyw hyfforddiant arall sydd ei angen ar bobl ifanc.<br><br>Cymorth/hyfforddiant i athrawon, gan gynnwys:-<br><br>• unrhyw faterion hyfforddi penodol a nodwyd; fel, ysgolion eisiau hyfforddiant ar gymryd cofnodion;<br>• beth yw cyngor ysgol;<br>• ymwybyddiaeth o ddeddfwriaeth cynghorau ysgol;<br>• manteision cyngor ysgol;<br>• beth ellir ei gyflawni mewn cyngor ysgol;<br>• sut y dylid cynnal cynghorau ysgol; a<br>• pwysleisio'r manteision i staff o gynnwys pobl ifanc.<br><br>Dyma'r blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer y dyfodol: hyfforddiant parhaus i athrawon, teithiau preswyl i bobl ifanc, a mwy o gyfranogi a chodi ymwybyddiaeth. |

**Gwersi a ddysgwyd a meysydd i'w datblygu**

5.13 Wrth grynhoi, mae'r bennod hon yn cloi gyda rhai o'r prif wersi a ddysgwyd gan y staff a'r bobl ifanc a oedd yn rhan o weithgareddau cyfranogol, ynghyd â'r meysydd i'w datblygu ymhellach yn eu barn nhw. Mae'r sylwadau hyn yn amlwg yn adlewyrchu'r arferion da a nodwyd ynghynt, ac felly mae rhywfaint o ailadrodd yma.

**Gwersi a ddysgwyd**

5.14 Pan ofynnwyd i staff a phobl ifanc ddweud beth roeddynt wedi'i ddysgu wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogol, fe wnaethant bwysleisio'r prif ffactorau llwyddiannus/beth weithiodd yn dda; a'r heriau a'r rhwystrau penodol roedd angen mynd i'r afael â nhw:-

- Dyma oedd y **prif ffactorau llwyddiant/beth weithiodd yn dda** yn ôl y rhai yr ymgynghorwyd â nhw (gweler Ffigur 5.3 am enghreifftiau):-
  - ***dysgu fel grŵp***: roedd llawer o'r fforymau ieuenctid wedi cymryd rhan mewn gwaith datblygu ar y cyd â fforymau ieuenctid eraill. Roedd staff a phobl ifanc yn argymell i grwpiau eraill (fforymau/rhwydweithiau ac ysgolion) chwilio am gyfleoedd tebyg i'w helpu i ddatblygu eu gwaith. Hefyd, roedd y rhai yr ymgynghorwyd â nhw yn credu bod y dulliau hyn yn codi ymwybyddiaeth o weithgareddau'r grwpiau eraill, gan olygu nad oedd neb yn ailadrodd gwaith yn ddiangen;
  - dywedodd staff fod ***codi proffil cyfranogi*** yn ffactor llwyddiannus ac yn faes yr oedd angen ei ddatblygu ymhellach. Er mwyn sicrhau llwyddiant mewn ysgolion, nodwyd ei bod hi'n bwysig cynnwys amrywiaeth eang o staff mewn gweithgareddau cyfranogol, a sicrhau bod cyfranogi ar frig agenda'r ysgol. Hefyd, pwysleisiodd staff fforymau ieuenctid bod angen i awdurdodau lleol ddangos pa mor werthfawr yw cyfranogi; er enghraifft trwy gynnal digwyddiadau mewn lleoliadau proffil uchel;
  - roedd ***cysylltiadau*** rhwng pobl ifanc a staff yn hollbwysig i lwyddiant dulliau cyfranogi. Dywedodd staff a phobl ifanc fod angen meithrin cysylltiadau ar sail cyd-ddealltwriaeth a pharch. Roedd meithrin cysylltiadau rhwng pobl ifanc a phenderfynwyr strategol, fel aelodau etholedig, hefyd yn cael ei ystyried yn hollbwysig i sicrhau diddordeb gwleidyddol ac i gael gafael ar adnoddau (gweler Ffigur 5.3);
  - rydym eisoes wedi trafod manteision cael ***plant a phobl ifanc i fod yn gyfrifol am y broses gyfranogi*** yn Adran 5.2. Unwaith eto, dywedodd staff fod hyn yn ffactor llwyddiant allweddol ar gyfer cyfranogi. Pan fod plant yn gyfrifol am bethau fel creu rheolau ac agenda ar gyfer cyfranogi, er enghraifft, roeddynt yn deall eu cyfrifoldebau a'u swyddogaethau yn well. Trwy fod yn rhan o'r broses gyfranogi, roedd plant a phobl ifanc yn cyflwyno eu syniadau eu hunain, a oedd hefyd yn helpu gyda materion cynaliadwy. Cyfeiriodd plant a phobl ifanc at bwysigrwydd gosod rheolau cadarn ar sut i ymddwyn mewn

gweithgareddau cyfranogol: *'mae angen i chi greu rheolau ar gyfer gweithio mewn grŵp'*.

5.15 Dyma'r prif wersi a ddysgwyd o ran **heriau a rhwystrau** (gweler Ffigur 5.4):-

- cyfeiriodd y staff at yr ***heriau logistaidd*** o gynnal gweithgareddau cyfranogol leded ardaloedd daearyddol eang. Dyma un o'r rhesymau pam fod cymaint o'r fforymau a'r rhwydweithiau ieuenctid yn rhoi pwyslais ar ariannu gwasanaethau trafnidiaeth. Pwysleisiodd staff yr angen i fod yn realistig ynglŷn â beth ellir ei gyflawni wrth weithio mewn ardal eang iawn, a pheidio â bod yn rhy uchelgeisiol. Un ateb posibl oedd sefydlu grwpiau seiliedig ar ardal/rhanbarth (er y gallai cyfyngiadau ariannol effeithio ar hyn);
- ***faint o amser mae'n cymryd i gyflwyno newidiadau***: nododd staff fforwm ieuenctid fod angen rhoi digon o amser i gynghorwyr a staff awdurdod lleol i dderbyn sylwadau pobl ifanc a rhoi newidiadau ar waith. Ategwyd hyn gan bobl ifanc hefyd, gan awgrymu bod angen dyfalbarhad i gyflwyno newidiadau: *'mae'n rhaid dal ati a pheidio â theimlo'n rhwystredig'*;
- soniwyd am faterion ***ariannu*** eisoes fel un o'r prif heriau sy'n wynebu pawb. Er hynny, cafwyd awgrymiadau defnyddiol ar sut i reoli hyn gan y rhai a holwyd. Mae'n anorfod bod ariannu yn effeithio ar natur y gwaith, ac roedd y rhai yr ymgynghorwyd â nhw yn credu bod angen i staff weithio mewn modd creadigol.

| **Ffigur 5.3: Gwersi a ddysgwyd** |
|---|
| **Ffactorau llwyddiant allweddol/beth weithiodd yn dda** |
| Cafwyd amlinelliad defnyddiol o'r gwersi a ddysgwyd gan aelodau fforwm ieuenctid, a rhoddwyd cyngor i fforymau ieuenctid eraill sydd newydd eu sefydlu:-<br><br>• *Annog eich ffrindiau i sefydlu grŵp*<br>• *Prynu dyddiadur a threfnu cyfarfodydd*<br>• *Trefnu cludiant i fynd o le i le*<br>• *Gosod posteri* [i hyrwyddo gwaith y fforwm] *ar ôl eu hargraffu am ddim yn llyfrgell yr ysgol*<br>• *Gofyn i siopau lleol am roddion*<br>• *Gofyn i'ch cynghorwyr lleol am gymorth*<br>• *Defnyddio ystafelloedd cyfarfod eich cyngor lleol am ddim*<br>• *Cael cymorth athrawon a sefydliadau gwirfoddol i roi cyhoeddusrwydd* |
| **Dysgu fel grŵp** |
| Soniodd aelod o'r fforwm ieuenctid am fanteision dysgu gan grwpiau eraill: '*os ydych chi'n ansicr am unrhyw beth, gofynnwch i grŵp arall am air o gyngor'* |

| Ffigur 5.3: Gwersi a ddysgwyd |
| --- |
| Roedd disgyblion un ysgol gynradd yn argymell y dylai aelod o'r staff sy'n bwriadu sefydlu cyngor ysgol '*ymweld ag ysgolion eraill a thrin a thrafod beth maen nhw'n ei wneud'.* Neu, gallai ysgolion wahodd cynghorau eraill draw i esbonio eu gwaith. |
| **Codi proffil cyfranogi** |
| Roedd staff fforymau ieuenctid yn pwysleisio pwysigrwydd cynnal digwyddiadau mewn lleoliadau 'proffil uchel'. Roeddynt yn teimlo fod hyn yn pwysleisio gwerth cyfranogi i'r awdurdod lleol, tra'n pwysleisio pa mor werthfawr yw cael barn a sylwadau plant a phobl ifanc. Trwy drefnu digwyddiadau yn y canolfannau hyn, roedd staff yn teimlo bod y cyfranwyr yn eu gwerthfawrogi'n well a bod pobl ifanc yn cael boddhad mawr o gymryd rhan. |
| **Datblygu perthynas** |
| Dywedodd pobl ifanc fod y berthynas rhwng staff a phobl ifanc yn hollbwysig i lwyddiant gweithgareddau cyfranogol: '*os nad ydyn nhw'n cyd-dynnu* [gyda'r staff]*, fydd pobl ifanc ddim yn mynychu*. *Mae angen dolen gyswllt agos rhwng pobl ifanc a'r gweithwyr ieuenctid*'.<br><br>Cyflwynodd pobl ifanc argymhellion ynglyn â sut i gynnal cyfarfodydd fel eu bod yn adlewyrchu parch tuag at eraill: '*Does dim rhaid i weithwyr ieuenctid ddod i gyfarfodydd a siarad â phobl ifanc. Rydyn ni'n cadeirio cyfarfodydd yn ein tro, ac mae'r gweithwyr ieuenctid yn cadw cofnodion fel y gallwn ni ganolbwyntio ar y trafodaethau'*. |

| Ffigur 5.4: Gwersi a ddysgwyd: Heriau/Rhwystrau |
| --- |
| **Heriau logistaidd** |
| Dywedodd cydgysylltydd un o'r grwpiau i bobl ifanc anabl mai ei bwriad gwreiddiol oedd sefydlu grwpiau ledled yr awdurdod lleol. Fe gynhaliodd hi nifer o grwpiau nos i ddechrau, ond nid oedd pobl ifanc yn eu mynychu. Roedd hi'n synnu nad oeddynt yn mynychu'r cyfarfodydd hyn gan fod y rhan fwyaf eisiau cymryd rhan, gan feddwl *'faint o gyfle gawson nhw mewn gwirionedd'*; er enghraifft, efallai nad oedd eu rhieni am iddynt gymryd rhan, neu ddim yn gallu eu cludo i gyfarfodydd. |
| **Ariannu** |
| Soniodd un pennaeth ysgol uwchradd am yr her ariannol sy'n wynebu cyngor yr ysgol, trwy sylweddoli hefyd bod angen dyrannu cyllideb ar gyfer y cyngor: '*Byddwn ni'n hoffi gwireddu llawer mwy o'r pethau y mae pobl ifanc yn dymuno eu gweld.. Yn anffodus, mae'n rhaid inni ddweud 'na' weithiau. Maen nhw'n derbyn hyn a ddim yn credu mai gwastraff amser yw'r cyfan, ond diwedd y gân yw'r geiniog. Mae angen inni wneud cysylltiad cryfach rhwng yr arian sydd ar gael a dymuniadau'r cyngor. Rwy'n credu y dylem ni neilltuo arian o'r gyllideb iddynt'.*<br><br>**Strategaethau ar gyfer goresgyn heriau ariannu:**<br><br>Awgrymodd un pennaeth fod angen i benaethiaid a rheolwyr fynd at eu hawdurdod lleol i sicrhau arian ar gyfer gweithgareddau penodol. Dyma wnaeth ei hysgol hi er mwyn cael arian i dalu am weithgareddau chwaraeon ychwanegol y tu allan i oriau |

| Ffigur 5.4: Gwersi a ddysgwyd: Heriau/Rhwystrau |
| --- |
| ysgol. Hefyd, dywedodd staff bod angen i gynghorau ysgolion a gweithgareddau cyfranogol eraill ddefnyddio adnoddau'r ysgol; er enghraifft, cymorth gweinyddol i gefnogi'u gwaith.<br><br>Os bydd aelodau etholedig yn gallu gweld beth mae pobl ifanc wedi'i gyflawni (trwy feithrin cysylltiadau gyda phobl ifanc), yna maent yn fwy parod i neilltuo adnoddau, yn ôl gweithiwr fforwm ieuenctid. |

**Meysydd i'w datblygu**

5.16 Cyfeiriodd y cyfranwyr at feysydd i'w datblygu sy'n canolbwyntio ar nifer o themâu craidd, ac a drafodwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, sef: sicrhau bod gweithgareddau cyfranogol yn fwy cynrychioliadol; sicrhau bod gweithgareddau'n cael effaith ar y broses o wneud penderfyniadau mewn a ledled lleoliadau; a chyflwyno dulliau ar gyfer mesur effaith (gweler Ffigur 5.5 am enghreifftiau):-

- **bod yn gynrychioliadol a chynhwysiant**: roedd y rhai yr ymgynghorwyd â nhw am weld gweithgareddau cyfranogol yn fwy cynrychioliadol er mwyn cynnwys cymaint ag sy'n bosibl o bobl ifanc, gan gynnwys disgyblion wedi ymddieithrio a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn y gymuned er mwyn ehangu'r safbwyntiau. Y gobaith oedd cyflawni hyn trwy: ehangu'r gweithgareddau sydd ar gael er mwyn ennyn diddordeb grwpiau ehangach o bobl ifanc; gwella/datblygu cysylltiadau gyda grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn y gymuned; a rhoi mwy o gyfrifoldeb i ddisgyblion iau. Mae'r pwynt olaf hefyd yn dangos bod angen sicrhau na chollir brwdfrydedd na sgiliau disgyblion cynradd ar ôl iddynt symud i'r ysgol uwchradd.
- **sicrhau bod gweithgareddau yn dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau mewn a ledled lleoliadau** fel bod gweithgareddau cyfranogol yn llywio penderfyniadau strategol yn yr ysgol a'r cyngor. Roedd staff ysgolion yn teimlo bod angen cynnwys pynciau y mae cyngor yr ysgol yn ymdrin â nhw, a dulliau cyfranogol eraill, yn rhan o strategaethau'r ysgol ac wrth ddiwygio'r cwricwlwm. Er mwyn sicrhau bod cyfranogi yn rhan hanfodol o'r dull ysgol/sefydliad cyfan, dywedodd staff fod angen cryfhau neu feithrin cysylltiadau rhwng:-
  - cynghorau ysgolion a thîm addysgu/staff arall yr ysgol;
  - cynghorau ysgolion/fforymau ieuenctid a'r rhieni: nodwyd manteision hyn lle'r oedd eisoes ar waith;
  - ysgolion a chysylltiadau cymunedol/fforwm ieuenctid.
- **mesur effaith**: fel y nodwyd eisoes, roedd y cyfranwyr mewn rhai lleoliadau yn cydnabod ac yn dymuno mesur effaith cyfranogi ar blant a phobl ifanc, o safbwynt canlyniadau meddal a chaled.

| **Ffigur 5.5: Meysydd i'w datblygu** |
|---|
| **Mwy cynrychioliadol** |
| Dywedodd un pennaeth ysgol uwchradd y byddai'n hoffi trosglwyddo mwy o gyfrifoldebau o'r disgyblion hŷn i ddisgyblion iau yr ysgol: '*Mae modd trosglwyddo rhai o'r pethau sy'n digwydd yn y chweched dosbarth* [trwy'r fforwm chweched dosbarth] *i blant iau. Rydym yn dda am gyflwyno cyfrifoldebau i'r chweched dosbarth, ac mae'n hawdd anghofio fod disgyblion Blwyddyn 7 wedi bod yn arweinwyr yn eu hysgolion cynradd. Mae angen sicrhau ein bod ni'n manteisio i'r eithaf ar hynny'.* Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r ffaith y gellir colli brwdfrydedd a sgiliau disgyblion cynradd wrth symud i ysgol uwchradd. |
| **Sicrhau bod gweithgareddau yn dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau mewn a ledled lleoliadau** |
| Roedd pennaeth ysgol uwchradd yn teimlo y gallai'r *'cysylltiad rhwng cyngor yr ysgol a gwaith hunanasesu'r ysgol fod yn well. Cysylltiad anffurfiol ydyw ar hyn o bryd'.* Gwelodd bod mwy o gyfleoedd i gyngor yr ysgol gyflwyno gwybodaeth i Gynllun Datblygu'r Ysgol: '*tua 18 mis sy'n weddill o'r Cynllun cyfredol. Hoffwn ailasesu'r ysgol gyfan ac adolygu'r flwyddyn gyda'r disgyblion'.* Gellir cynnwys hyn yng nghylch cynllunio'r ysgol wedyn. |
| **Mesur effaith** |
| Pwysleisiodd un pennaeth ei ymroddiad i gasglu barn disgyblion am newidiadau i'r cwricwlwm: *'Un peth yw dweud wrth staff ein bod ni'n mynd ati fel hyn* [newid y cwricwlwm]*. Bydd angen inni gael ymateb y disgyblion o ran sut rydyn ni'n gweithredu hynny* [newid y cwricwlwm]*. Bydd angen inni ddeall yr effeithiau o safbwynt y disgybl'.* |

# 6. CASGLIADAU

6.1 Mae canfyddiadau'r astudiaeth hon yn awgrymu bod plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau cyfranogol mewn ysgolion ac awdurdodau lleol. Yn ogystal, roedd cyfraniad pobl ifanc at un grŵp yn cael ei nodi fel y rheswm am eu cyfraniad at weithgareddau cyfranogol eraill, sy'n dangos bod yr unigolion perthnasol yn cael cyfleoedd clir ar gyfer dilyniant a bod ganddynt botensial i ddatblygu amrywiaeth eang o sgiliau cysylltiedig.

6.2 Roedd dulliau cyfranogol yn cynnig amrywiaeth o gyd-destunau gwahanol i ddatblygu cysylltiadau a/neu ryngweithio rhwng plant, pobl ifanc a staff. Roeddent hefyd yn gyfle i newid 'cydbwysedd grym' cysylltiadau o'r fath, boed hynny rhwng staff mewn ysgolion a disgyblion, cynghorwyr ac aelodau o fforymau ieuenctid, neu staff cymorth a phobl ifanc anabl. Roedd cyfranogiad yn cynnig cyfleoedd i newid agweddau, datblygu sgiliau newydd a meithrin cysylltiadau mwy egalitaraidd a democrataidd.

6.3 Roedd y manteision eraill a deilliodd o gyfranogiad yn cynnwys: newidiadau i arferion, gwasanaethau a chyfleusterau sefydliadau; staff yn datblygu mwy o ymwybyddiaeth o anghenion plant a phobl ifanc; a chysylltiadau gwell rhwng staff a phlant a phobl ifanc.

6.4 Amlygodd yr astudiaeth amrywiaeth o arferion da, y gellid eu defnyddio i wella dulliau cyfranogol. Roedd hyn yn cynnwys dulliau i sicrhau bod cyfranogiad yn elfen hanfodol o ethos yr ysgol/sefydliad, a chynnwys plant a phobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel.

6.5 Er gwaethaf y datblygiadau cadarnhaol hyn, nodwyd rhai heriau. Mae'r argymhellion canlynol wedi'u bwriadu ar gyfer staff mewn ysgolion/sefydliadau ac awdurdodau lleol, yn ogystal â'r rhai sy'n llunio polisïau yn genedlaethol.

## Argymhellion

## Nid oedd Grwpiau Oedran Penodol yn cael eu Cynrychioli

6.6 Nododd staff mewn fforymau ieuenctid fod cynnwys grwpiau oedran hŷn mewn gweithgareddau cyfranogol yn gryn her. Byddai cymorth ychwanegol yn helpu staff mewn fforymau ieuenctid i ymgysylltu â grwpiau oedran hŷn, h.y. y rhai dros 18 oed. Mae'n ymddangos hefyd bod angen dod o hyd i weithgarwch cyfranogol ychwanegol y gall pobl ifanc anabl gymryd rhan ynddo ar ôl iddynt gyrraedd 24 oed.

6.7 Nid oedd rhai o'r ysgolion cynradd yn cynnwys disgyblion iau fel aelodau o gyngor yr ysgol. Rydym yn awgrymu y dylid sicrhau bod penaethiaid bob ysgol gynradd yn gallu gweld manteision cynnwys grwpiau oedran iau mewn gweithgareddau cyfranogol. Gall fod yn fanteisiol defnyddio'r enghreifftiau cadarnhaol yn yr adroddiad hwn, sy'n dangos manteision cynnwys pob disgybl mewn gweithgarwch cyfranogol. Byddai codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd cyfranogol mwy creadigol hefyd yn helpu i herio safbwyntiau rhai aelodau o staff mewn ysgolion cynradd sy'n credu nad oes gan blant iau y sgiliau angenrheidiol i gyfranogi.

## Sicrhau Cydweithrediad Staff

6.8 Mae'r astudiaeth hon wedi dangos bod angen i aelodau o staff weld manteision cyfranogiad er mwyn sicrhau eu cydweithrediad a sicrhau bod cyfranogiad yn elfen hanfodol o ethos yr ysgol. Byddai rhoi sylw i fanteision cyfranogiad a'r canlyniadau cadarnhaol ar gyfer disgyblion **a** staff (er enghraifft, gwella ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth a disgyblion sy'n cymryd mwy o ddiddordeb) yn helpu i sicrhau cydweithrediad staff. Mae hyn yn dangos pa mor bwysig yw hyfforddiant staff sy'n canolbwyntio ar fanteision cyfranogiad, rhannu cyfrifoldeb am ddulliau cyfranogol ar draws timau staff a chael arweiniad a chymorth strategol cryf ar gyfer cyfranogiad.

6.9 Er mwyn sicrhau cydweithrediad staff, rydym hefyd yn awgrymu bod angen i ysgolion a sefydliadau eraill sy'n sefydlu dulliau cyfranogol sicrhau bod pwysigrwydd y gwaith yn cael ei adlewyrchu gan yr amser a neilltuir i weithgareddau o'r fath a lefel y staff cysylltiedig.

## Recriwtio, Cynnwys a Chynrychioli

6.10 Mae'r astudiaeth hon wedi dangos bod gweithwyr proffesiynol yn hwyluswyr ac yn allweddol o safbwynt cyfranogiad plant a phobl ifanc. O ganlyniad, gall problemau godi o ran ymgysylltu â phobl ifanc nad ydynt yn gysylltiedig â gweithwyr proffesiynol neu wasanaethau. Mae'r enghreifftiau a gyflwynir yn yr astudiaeth hon lle mae fforymau ieuenctid yn nodi'r bobl ifanc nad ydynt yn cael eu cynrychioli (drwy ddadansoddi bylchau er enghraifft) ac yn cyflawni gwaith allgymorth yn y gymuned yn un ffordd ymlaen bosibl. Rhaid ymchwilio ymhellach i ffyrdd o sicrhau bod cyfranogiad y bobl ifanc hyn yn parhau ac yn dod yn elfen hanfodol o'r dulliau cyfranogol.

6.11 Mae angen i ysgolion ystyried pa mor gynrychioladol yw eu gweithgareddau cyfranogol a mynd ati i recriwtio pobl ifanc nad ydynt yn cael eu cynrychioli. Yn ogystal, mae angen i ysgolion a lleoliadau eraill ystyried darparu cyfleoedd sy'n galluogi plant a phobl ifanc i roi adborth a lleisio eu barn, hyd yn oed os nad ydynt yn awyddus i gymryd rhan mewn dulliau cyfranogol mwy ffurfiol, fel cynghorau ysgol.

## Nodau ac Amcanion Clir

6.12 Mae'r astudiaeth hefyd yn nodi'r manteision o sicrhau bod aelodau o staff a phobl ifanc yn cyfrannu at y gwaith o bennu nodau, amcanion a chanlyniadau dymunol clir ar gyfer cyfranogiad yn eu sefydliadau. Byddai rhannu'r nodau, amcanion a blaenoriaethau hyn yn helpu i hyrwyddo ymdeimlad o gyfrifoldeb am weithgareddau cyfranogol mewn ysgolion a sefydliadau ac yn sicrhau bod mwy o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan ynddynt. Byddai dull gweithredu o'r fath hefyd yn helpu ysgolion a sefydliadau i nodi'r gwahaniaeth a wnaed a gwerthuso effaith dulliau cyfranogol.

## Adborth a Gwerthuso

6.13 Cododd nifer o bobl ifanc a staff bryderon ynglŷn â'r adborth a roddwyd i bobl ifanc a diffyg effaith ymddangosiadol eu cyfranogiad. Mae'n bwysig bod pob aelod o

staff yn ymwybodol o bwysigrwydd adborth i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn parhau i gymryd rhan yn y broses gyfranogiad. Mae adborth hefyd yn elfen angenrheidiol o fonitro ac adolygu, sydd ei angen ar gyfer unrhyw broses hunanasesu. Gall dulliau hunanasesu fod yn ffordd ddefnyddiol o helpu ysgolion a sefydliadau i fesur eu cynnydd.

6.14 Roedd y lleoliadau yr ymwelwyd â nhw'n canolbwyntio'n glir ar fewnbynnau ac allbynnau ac ar annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan, heb o angenrheidrwydd cofnodi neu gysylltu'r gweithgareddau hyn â chanlyniadau. Nododd staff fod yna broblemau o safbwynt mesur a phriodoli canlyniadau (yn enwedig canlyniadau mesuradwy 'caletach', fel cyrhaeddiad, presenoldeb ac ymddygiad) i'r broses gyfranogiad. Er mwyn sicrhau bod cyfranogiad yn elfen hanfodol a chynaliadwy, rhaid i'r manteision fod yn glir, a rhaid i sefydliadau allu myfyrio ar y cynnydd a wnaed. Unwaith eto mae hyn yn amlygu manteision hunanasesu fel bod ysgolion a sefydliadau yn gallu myfyrio ar y cynnydd a wnaed.

6.15 Dylai gweithredu dulliau adborth a gwerthuso ffurfiol fod yn faes datblygu allweddol ym mhob lleoliad. Gallai monitro lefelau cyrhaeddiad aelodau cynghorau ysgol yn ystod eu cyfnod ar y cyngor fod yn strategaeth ddefnyddiol bosibl ar gyfer gwerthuso effaith cyfranogiad.

6.16 Yn aml iawn gofynnwyd i aelodau cynghorau ysgol gasglu safbwyntiau eu cymheiriaid ac adrodd yn ôl i'r cyngor, yn ogystal â hysbysu eu dosbarthiadau o wybodaeth yn ymwneud â'r cyngor. O safbwynt asesu pa mor gynrychioladol yw'r safbwyntiau hyn a pha mor effeithiol yw'r dulliau adborth, rydym yn awgrymu bod angen monitro rhywfaint ar y prosesau hyn.

**Manteision Cymdeithasol a Chodi Ymwybyddiaeth**

6.17 Roedd plant a phobl ifanc ym mhob lleoliad yn nodi'r manteision cymdeithasol sy'n gysylltiedig â'u cyfranogiad mewn gweithgareddau cyfranogol. Er mwyn ehangu cyfranogiad, rydym yn awgrymu bod angen i staff a phobl ifanc hyrwyddo'r manteision cymdeithasol hyn fel modd o annog pobl ifanc eraill i gymryd rhan.

6.18 Mewn ysgolion, rheswm arall a nodwyd gan ddisgyblion am gymryd rhan oedd awydd i wybod beth oedd yn digwydd a chymryd rhan ym 'materion yr ysgol'. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd a manteision hysbysebu a hyrwyddo gweithgareddau cyfranogol ar lefel ysgol gyfan, a byddai hyn hefyd yn helpu i ateb beirniadaeth rhai disgyblion ysgolion uwchradd nad oeddent yn ymwybodol o'r hyn oedd yn digwydd o safbwynt cyngor yr ysgol.

**Datblygu Cysylltiadau ar draws Lleoliadau**

6.19 Nododd y rhai yr ymgynghorwyd â nhw fod yna fanteision i ymgysylltu â staff a phobl ifanc mewn cyfleoedd dysgu grŵp ar draws lleoliadau. Fodd bynnag, nodwyd bod rhai tensiynau'n codi rhwng fforymau ieuenctid ac ysgolion, gan arwain at fethiant posibl i fanteisio ar y cyfleoedd hyn. Mae angen datblygu cysylltiadau a phrosesau dysgu rhwng fforymau ieuenctid a chynghorau ysgol. Byddai hyn yn gyfle i ddefnyddio profiadau o amrywiaeth o leoliadau er mwyn datblygu dulliau cyfranogol cryfach ym mhob awdurdod lleol.

## ATODIAD A
## FFURFLEN GAIS AR GYFER Y FFORWM IEUENCTID

**Ffurflen Gais ar gyfer y Fforwm Ieuenctid**

Mae'r Fforwm Ieuenctid yn derbyn sawl cais a gwahoddiad i gymryd rhan mewn gwahanol fathau o waith. Yn anffodus, nid oes gennym ddigon o amser bob tro i wneud popeth y gofynnir i ni ei wneud. Felly, os ydych chi am i'r bobl ifanc ar y Fforwm Ieuenctid gymryd rhan yn eich digwyddiad/prosiect, dylech gwblhau'r ffurflen ganlynol mor drylwyr â phosibl. Bydd y bobl ifanc ar y fforwm yn darllen y ffurflen wedyn, ac yn rhoi gwybod i chi cyn gynted ag y bo modd a ydynt yn gallu cymryd rhan ai peidio.

**Sefydliad:**

**…………………………………………………………………………………………...**

**Enw Cyswllt:**

**…………………………………………………………………………………………**

**Manylion Cyswllt (Rhif ffôn, cyfeiriad ac e-bost):**

**…………………………………………………………………………………………**

**…………………………………………………………………………………………**

**Manylion y Digwyddiad/Prosiect (gan gynnwys dyddiad, amseroedd, lleoliad ac ati):**

**…………………………………………………………………………………………**

**…………………………………………………………………………………………**

**Disgrifiwch yr hyn yr ydych chi am i'r Fforwm Ieuenctid ei wneud:**

**…………………………………………………………………………………………**

**…………………………………………………………………………………………**

**Os mai cynhadledd/cyflwyniad yw'r digwyddiad, beth fydd natur y gynulleidfa/cynrychiolwyr?**

**…………………………………………………………………………………………**

**……………………………………………………………………………………......**

**Pam ydych chi'n awyddus i gynnwys pobl ifanc yn y digwyddiad/prosiect hwn:**

**…………………………………………………………………………………………….**

**…………………………………………………………………………………………….**

**Sut ydych chi'n bwriadu sicrhau dilyniant i'r gwaith a wneir gyda'r fforwm ieuenctid (e.e. diweddariadau, digwyddiadau yn y dyfodol ac ati):**

**…………………………………………………………………………………………….**

**…………………………………………………………………………………………….**

**Pa ddarpariaethau ydych chi wedi'u gwneud (neu'n bwriadu eu gwneud) i sicrhau bod eich prosiect/digwyddiad yn 'ystyriol o bobl ifanc'?**

**…………………………………………………………………………………………….**

**…………………………………………………………………………………………….**

**Pa ganlyniadau dysgu sy'n cael eu rhagweld ar gyfer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y prosiect/digwyddiad?**

**……………………………………………………………………………………………..**

**……………………………………………………………………………………………..**

# ATODIAD B
# CYFEIRIADAU

## Cyfeiriadau


Achub y Plant (2005). *Community Improvement ... How Children and Young People got Involved*. Caeredin: Achub y Plant.

Badham, B. (2004). Participation for a Change: Disabled Young People Lead the Way. *Children and Society*, Cyfrol 18, t. 143-154.

Brady, B. (2007). Developing Children's Participation: Lessons from a Participatory IT Project. *Children and Society*, Cyfrol 21, tt. 31-41.

Cashmore, J. (2002). Promoting the Participation of Children and Young People in Care. *Child Abuse and Neglect*, Cyfrol 26, 837-847

Cleaver, E. a Kerr, D. (2006). *Engaging Young People in Local Democracy*. Slough: Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg, ar-lein. Ar gael ar: www.nfer.ac.uk/researchareas/projects/ldw/

Davies, L.; William, C. a Yamashita, H. gydag Aubrey, K. M. (2006). *Inspiring Schools: Case Studies for Change. Taking up the Challenge of Pupil Participation*, ar-lein. Ar gael ar: http://www.esmeefairbairn.org.uk/pdf/InspiringSchools_P31.pdf

Davies, L.; Williams, C. a Yamashita, H. gydag Aubrey, K. M. (2006). *Inspiring Schools: A Literature Review. Taking up the Challenge of Pupil Participation*, ar-lein. Ar gael ar: http://www.esmeefairbain.org.uk/pdf/InspiringSchools_P21.pdf

Davies, L.; Williams, C. a Yamashita, H. gydag Aubrey, K. M. (2006). *Inspiring Schools: Impacts and Outcomes. Taking up the Challenge of Pupil Participation,* ar-lein. Ar gael ar http://www.esmeefairbairn.org.uk/pdf/InspiringSchools_P11.pdf

Franklin, A. a Sloper, P. (2005). Participation of Disabled Children and Young People in Decision Making within Social Services Departments: A Survey of Current and Recent Activities in England. *British Journal of Social Work*, 36, 723-741.

Gilchrist, I. a Maitles, H. (2004). *We're not Citizens in Waiting, We're Citizens Now! A Case Study of a Democratic Approach to Learning in an RME Secondary Class in the West of Scotland*, ar-lein. Ar gael ar: http://www.leeds.ac.uk/educol/documents/00003765.htm

Gray, A. (2002). Increasing the Participation of Children, Young People and Young Adults in Decision Making: A Literature Review, ar-lein. Ar gael ar: http://www.msd.govt.nz/documents/publications/sector-policy/increasing-participation-children-young-adults-in-decision-making-literature-review.doc

Halsey, K.; Murfield, J.; Harland, J. L. a Lord, P. (2006). *The Voice of Young People: An Engine for Improvement? Scoping the Evidence*, ar-lein. Ar gael ar: http://www.cfbt.com/evidenceforeducation/PDF/91151_VoiceOfYoungPeople.pdf

Hannam, D. (2001). *A Pilot Study to Evaluate the Impact of the Student Participation Aspects of the Citizenship Project on Standards in Education in Secondary Schools.* Astudiaeth a gynhaliwyd ar gyfer y QCA ar y cyd â CSV. Llundain: Yr Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm.

Haste, H. (2005). *My Voice, My Vote, My Community: Study of Young People's Civic Action and Inaction*. Llundain: Rhaglen Ymchwil Gymdeithasol Nestle/Y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol.

Ireland, E.; Kerr, D.; Lopes, J. a Nelson, J. gyda Cleaver E. (2006). *Active Citizenship and Young People: Opportunities, Experiences and Challenges In and Beyond School Citizenship Education Longitudinal Study: Fourth Annual Report*. Llundain: Yr Adran Addysg a Sgiliau, RR 732.

Kendall S. (2008). Research into Children and Young People's Participation in Wales: The Benefits of Participation. Adroddiad nas cyhoeddwyd ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Kirby, P. gyda Bryson, S. (2002). Measuring the Magic? Evaluating and Researching Young People's Participation in Public Decision Making, ar-lein. Ar gael ar: http://cypi.carnegieuktrust.org.uk/files/2643_MeasuretheMagic_001.pdf

Molloy, D.; White, C. a Hosfield, N. (2002). Understanding Youth Participation in Local Government: A Qualitative Study, ar-lein. Ar gael ar: http://www.local.dopm.gove.uk/research/data/final.pdf

Mortimer, H. (2004). Hearing Children's Voices in the Early Years. *Support for Learning*, Cyfrol 19 (4) t. 169.

Oliver, K.; Collin, P.; Burns, J. a Nicholas, J. (2006). Building Resilience in Young People through Meaningful Participation. *Australian e-journal for the Advancement of Mental Health*, 5(1), ar-lein. Ar gael ar: http://www.auseinet.com/journal/vol5iss1/oliver.pdf

Treseder, P. a Crowley, A. (2001). *Taking the Initiative: Promoting Young People's Participation in Decision Making: Wales Report*. Menter Pobl Ifanc Carnegie. Menter Pobl Ifanc Carnegie.

Waters, J. ac Ash, A. (2000). Listen Up. Community Care 13-19 Ionawr 2000 t. 30-31.

Whitty, G. a Wisby, E. (2007). *Real Decision Making? School Councils in Action*, ar-lein. Ar gael ar: http://www.dfes.gov.uk/research/data/uploadfiles/DCSF-RR001.pdf

Y Ddraig Ffynci (2008). *Ein Hawliau Ni, Ein Stori Ni*. Caerdydd: Y Ddraig Ffynci.